Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Fersiwn 01

Canllaw i Ffoneg ar gyfer Ysgolion yng Nghymru

CAL:ON CYMRU

Canolfan Addysgu Llythrennedd: Offer tuag at Newid | Centre for the Advancement of Literacy: research-led Outcomes and Nation-wide change

03 **Rhagair**
Gan Anna Brychan AS

04 **Cyfranwyr**

07 **Adran 1:**
Pam bod ffoneg yn bwysig ar gyfer darllen a sillafu

38 **Adran 4:**
Addysgu ffoneg o ansawdd uchel

13 **Adran 2:**
Beth yw ffoneg?

50 **Adran 5:**
Cefnogi pob dysgwr

18 **Adran 3:**
Cynnydd a chynnwys

59 **Atodiad A:**
Sut mae codau'r Gymraeg a'r Saesneg yn cymharu

64 **Atodiad B:**
Rhestr wirio ar gyfer dewis rhaglen ffoneg

67 **Rhestr gyfeirio**

Rhagair y Gweinidog

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i ddod yn ddarllenydd ac yn ysgrifennwr hyderus, medrus a chydwybodol. Mae llythrennedd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan lawn mewn addysg, mynegi eu syniadau ac archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae hefyd yn agor y ffordd i fwynhau llenyddiaeth a chreu cysylltiad dyfnach gyda'n hieithoedd, ein diwylliannau a'n cymunedau.

Rwy'n falch o groesawu Canllaw i Ffoneg ar gyfer Ysgolion yng Nghymru a'r ddogfen sy'n cyd-fynd â'r canllaw, sef Crynodeb i Athrawon a Chymorthyddion Dysgu. Mae'r adnoddau hyn, sydd am ddim, wedi cael eu datblygu yn benodol i'w defnyddio yng Nghymru, maent yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth ac yn darparu cefnogaeth ymarferol o ansawdd uchel ar gyfer addysgu llythrennedd sylfaenol o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae cyhoeddi'r dogfennau hyn yn cadarnhau ymrwymiad pwysig o fewn ein Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol.

Mae ein Cynllun yn datgan yn glir bod gan ffoneg synthetig systematig rôl bwysig wrth addysgu plant i ddadgodio geiriau. Yn seiliedig ar dystiolaeth am addysgu ffoneg effeithiol, mae'r canllawiau hyn yn trosi ymchwil a thystiolaeth yn gefnogaeth glir ac ymarferol i ysgolion ac ymarferwyr. Gosodir ffoneg o fewn y ddarpariaeth ehangach sydd ei hangen ar blant i ddod yn ddarllenwyr ac ysgrifenwyr medrus, ochr yn ochr ag iaith lafar, geirfa, rhuglder, dealltwriaeth, a chyfleoedd i fwynhau ystod eang o destunau.

Mae'r canllawiau yn adlewyrchu cyd-destun dwyieithog arbennig Cymru. Maent yn mynd i'r afael ag addysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gydnabod y wybodaeth y gall dysgwyr ei defnyddio ar draws ieithoedd a'r gwahaniaethau sy'n gofyn am addysgu penodol. Mae hyn yn sicrhau bod gan ymarferwyr gefnogaeth sy'n adlewyrchu nodweddion penodol ein hieithoedd a'r cyd-destun y maent yn addysgu ynddo.

Mae'r canllawiau yn rhan o gefnogaeth ehangach sydd ar gael drwy CAL:ON Cymru i helpu ysgolion gryfhau addysgu llythrennedd a rhoi tystiolaeth ar waith. Cynigir cefnogaeth ddwyieithog am ddim sy'n cynnwys dysgu proffesiynol,. rhaglenni addysgu dosbarth cyfan, ymyrraethau penodol ac offer asesu.

Mae'r adnoddau yn seiliedig ar ymchwil ac yn cael eu gwerthuso a'u mireinio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn berthnasol i ymarfer yng Nghymru. Ynghyd â'r dysgu proffesiynol a'r adnoddau sydd ar gael drwy Dysgu ac Adnodd, mae hyn yn rhoi mynediad i ysgolion at ganllawiau o ansawdd uchel, dysgu proffesiynol ac adnoddau addysgol. Mae angen i'r elfennau hyn atgyfnerthu ei gilydd, fel bod ymarferwyr yn clywed negeseuon cyson yn y canllawiau y maent yn eu darllen, y dysgu proffesiynol maent yn ei gwblhau a'r adnoddau y maent yn eu defnyddio.

Mae ein hymarferwyr yn dod â gwybodaeth, profiad ac ymrwymiad sylweddol i gefnogi dysgwyr. Maent yn haeddu canllawiau clir a chefnogaeth barhaus i'w rhoi ar waith. Rwy'n annog ysgolion i ddefnyddio'r canllawiau hyn i lywio trafodaethau proffesiynol, cryfhau addysgu a chlustnodi lle mae angen cefnogaeth bellach. Rhaid i ddisgwyliadau uchel ddod law yn llaw ag addysgu sy'n ymateb i anghenion dysgwyr, gan gynnwys cymorth amserol i blant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau gyda darllen.

Hoffwn ddiolch i'r ymarferwyr, ymchwilwyr, a sefydliadau partner y mae eu harbenigedd wedi cyfrannu at y canllawiau hyn. Drwy gydweithio, gallwn gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion a helpu mwy o ddysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ddarllen, ysgrifennu a dysgu drwy gydol eu hoes.

> **Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i ddod yn ddarllenydd ac yn ysgrifennwr hyderus a medrus.**



Anna Brychan AS
Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg



Cyfranwyr

Prif awduron:
Dr Cameron Downing a'r Athro Manon Jones.

Arwain ar ddatblygu, dadansoddi tystiolaeth, drafftio ac adolygu'r canllaw, gyda chyfrifoldeb am integreiddio cyfraniadau a gwneud penderfyniadau golygyddol terfynol.

Cyfranwyr: Dr Astrid Bowen, Caroline Korrell, Estelle Crossley, Joanna Archibald, Ceri Owens, Gwenan Lockley, Rhiannon Salisbury, Nia Williams, Dr Bethan Collins, Bryony Kinsey, a Rhian Tomos.

Cyfrannu at ddrafftio ac adolygu'r canllaw, gan gynnwys yr esboniadau, yr enghreifftiau a'r argymhellion ymarferol.

Datblygu ac adolygu: Dr Angella Cooze (Prifysgol Abertawe) a'r Athro Dominic Wyse (UCL).

Cyfrannu at ddatblygu rhaglenni dysgu proffesiynol CAL:ON Cymru gan ddarparu cyngor ar y datblygu, yr arolwg sylweddol a golygu'r canllaw hwn.

Cyngor arbenigol: Nia Lloyd Evans (Dysgu), Rebecca Williams (Dysgu), Dr Sarah Cooper (Prifysgol Bangor).

Darparu arbenigedd mewn ieithyddiaeth a dysgu proffesiynol er mwyn atgyfnerthu'r cywirdeb, yr eglurder a gweithredu'r canllaw yn ymarferol.

Adolygwyr allanol: Dr Danielle Colenbrander (Prifysgol Gatholig Awstralia), yr Athro Jessie Ricketts (Royal Holloway, Prifysgol Llundain), yr Athro Maggie Snowling (Prifysgol Rhydychen), Dr Amy Hulson-Jones (Prifysgol Wrecsam), Mr Gareth Rein (Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant).

Adolygu fersiynau drafft a darparu adborth critigol ar gywirdeb, cydbwysedd, eglurder a defnyddioldeb ymarferol y canllaw.

Graffeg a chyfathrebu:
Griff (Something Nothing) a Josie Ryan.

Nid yw cyfrannu drwy ddatblygu ac adolygu, rhoi cyngor arbenigol, neu adolygu yn allanol yn awgrymu cymeradwyaeth o bob agwedd ar y canllaw terfynol.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliad bod ysgolion yn defnyddio dull o addysgu ffoneg systematig a elwir yn ffoneg synthetig systematig (FfSS neu SSP yn y Saesneg). Mae'r canllaw hwn yn datgan dealltwriaeth gyffredin ledled Cymru o'r hyn ydy addysgu FfSS a sut mae hynny'n cefnogi darllen a sillafu yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Y bwriad yw iddo fod yn ganllaw ymarferol: mae'n cynnwys disgwyliadau clir, iaith hylaw lle bo hynny'n bosibl ac yn egluro terminoleg technegol hanfodol trwy ddiffiniadau ac enghreifftiau. Gall ysgolion gymhwyso hyn gan ddefnyddio rhaglenni ac adnoddau ffoneg sy'n diwallu'r gofynion addysgu a'r anghenion tystiolaeth yn y canllaw hwn. Mae'n cyd-fynd â phwyslais Cwricwlwm i Gymru ar gynyddu sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Mae Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol Llywodraeth Cymru (2026) yn nodi y dylai pob ysgol ddefnyddio FfSS fel rhan o'u dull o addysgu plant i ddarllen. Yn FfSS, mae athrawon yn addysgu cyfatebiaethau graffem-ffonem (sef y cysylltiadau rhwng sain a llythyren/llythrennau) yn benodol mewn dilyniant cronnol, wedi'i gynllunio, gan addysgu dysgwyr i gyfuno ffonemau i ddadgodio geiriau anghyfarwydd, a'u haddysgu i rannu geiriau llafar yn ffonemau ar gyfer sillafu. Mae'r arferion hyn yn rhan o gwricwlwm llythrennedd ehangach sy'n datblygu iaith lafar, geirfa, dealltwriaeth ac ymgysylltiad â thestunau o'r cychwyn cyntaf. Mae Adran 2 yn egluro'r dull a'r dystiolaeth sy'n sail iddo.

Mae ffoneg (FfSS) yn hollbwysig ar gyfer dysgu darllen a sillafu yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, ond yn aml ystyrir ei fod wedi'i "gwblhau" erbyn diwedd cyfnod cynnar yr ysgol gynradd. Mae'r angen am addysgu ffoneg yn benodol yn lleihau wrth i ddysgwyr ddod yn ddarllenwyr geiriau yn gywir ac yn rhugl. Bydd angen lefelau amrywiol o gymorth pellach ar rai dysgwyr yn nes ymlaen yn yr ysgol gynradd neu ar ddechrau'r ysgol uwchradd; mae eraill angen cefnogaeth yn bennaf gyda rhuglder, iaith lafar neu ddealltwriaeth o ddarllen. Dylai asesu glustnodi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd angen cefnogaeth gan ystyried hanes yr addysgu.

Gallai anawsterau parhaus amlygu cyfleoedd a phrofiadau addysgu blaenorol, tarfu ar y dysgu, anghenion dysgu ychwanegol neu gysylltiad rhwng y ffactorau hyn. Mae'r canllaw hwn felly yn ymwneud ag addysgu cynnar a chefnogaeth sy'n cael ei lywio gan asesu yn ddiweddarach yn natblygiad y dysgwr.

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar Egwyddorion ar gyfer Addysgu Iaith a Llythrennedd yng Nghymru (2026) y Panel Arbenigol Llythrennedd:

01. Mae sylfaen gref mewn iaith lafar yn hanfodol ar gyfer datblygu llythrennedd dysgwyr yn llwyddiannus ar bob cam.

02. Dylai addysgu llythrennedd fod yn systematig, yn dilyn strwythur benodol ac yn eglur.

03. Mae gwneud cysylltiadau rhwng gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn hanfodol er mwyn cynorthwyo dysgwyr i ddysgu, cyfathrebu a chreu ystyr.

04. Dylai addysgu roi mwynhad a llwyddiant a meithrin cymhelliant ymhlith dysgwyr.

05. Mae asesu pwrpasol yn rhan sylfaenol o gynorthwyo addysgu gwybodus ac ymatebol o sgiliau iaith a llythrennedd.

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn bennaf gydag Egwyddor 2. Mae hefyd yn gosod ffoneg ar sylfaen gadarn iaith lafar (Egwyddor 1), y cysylltiadau rhwng gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu (Egwyddor 3), addysgu sy'n creu mwynhad a llwyddiant gan feithrin cymhelliant (Egwyddor 4) ac asesu pwrpasol sy'n sail i addysgu ymatebol (Egwyddor 5).

Y ddogfen hon yw'r brif ddogfen gyfeirio. Mae cyhoeddiad cysylltiedig, Canllaw i Ffoneg ar gyfer Ysgolion yng Nghymru: Crynodeb i Athrawon a Chymorthyddion Dysgu, yn darparu crynodeb cyflym gan gyfeirio darllenwyr at yr adrannau a'r atodiadau perthnasol.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys pum adran. Nid oes angen darllen yr adrannau yn eu trefn a gellir eu darllen ar wahân. Dyma'r adrannau:

Adran 1: Pam bod ffoneg yn bwysig ar gyfer darllen a sillafu

Adran 2: Beth yw ffoneg?

Adran 3: Cynnydd a chynnwys

Adran 4: Addysgu ffoneg o ansawdd uchel

Adran 5: Cefnogi pob dysgwr

Atodiad A: Sut mae codau'r Gymraeg a'r Saesneg yn cymharu

Atodiad B: Rhestr wirio ar gyfer dewis rhaglen ffoneg

Mae pob adran yn cynnwys darllen ychwanegol i rai sydd am ddysgu mwy am y pwnc. Nid yw'r rhestrau darllen hyn yn cynnwys yr holl ddeunydd darllen posibl. Cynhwysir manylion llawn y ffynonellau y cyfeirir atynt yn y canllaw yn yr adran Rhestr Gyfeirio.

Wrth ysgrifennu'r canllaw hwn, rydym yn cyfeirio at y dystiolaeth ymchwil cryfaf sydd ar gael ynghylch ffoneg mewn ffordd glir a hygyrch, gan gadw mewn cof y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru. Rydym yn cydnabod, er bod y sylfaen dystiolaeth ehangach ar ffoneg yn sylweddol, fod yna feysydd lle mae'r ymchwil naill ai'n gymysg neu'n gyfyngedig. Felly rydym yn darparu argymhellion clir ac ymarferol ynghylch beth sydd fwyaf tebygol o weithio i ysgolion yng Nghymru ar sail tystiolaeth gadarn, gan nodi yn benodol y meysydd lle mae ansicrwydd ar hyn o bryd.

Egwyddorion ar gyfer addysgu iaith a llythrennedd yng Nghymru

Mae'r canllaw hwn yn cwmpasu:

- Diffiniad cyffredin o ffoneg a'r termau allweddol a ddefnyddir.
- Beth yw addysgu ffoneg o ansawdd uchel (gan gynnwys cyfuno, segmentu, adolygu a chywiro gwallau).
- Egwyddorion ar gyfer defnyddio testunau y gellir eu dadgodio ac addysgu geiriau eithriad cyffredin neu eiriau 'anodd'.
- Disgwyliadau ar gyfer asesu a sut mae defnyddio asesu i addasu'r addysgu.
- Sut mae cefnogi dysgwyr sydd angen ymarfer ychwanegol (cadw i fyny/dal i fyny ac addysgu mwy dwys).
- Sut gall ysgolion werthuso rhaglenni ac adnoddau ffoneg yng ngoleuni meini prawf ansawdd a thystiolaeth o effeithiolrwydd (heb gymeradwyo rhaglenni penodol).
- Cymorth ar gyfer blynyddoedd hŷn yn y cynradd a'r cyfnod uwchradd.

Nid yw'r canllaw hwn yn:

- Awgrymu un rhaglen neu gynllun [1]masnachol.
- Darparu cwmpas a threfn genedlaethol orfodol.
- Disodli barn broffesiynol ynghylch cynllunio'r cwricwlwm, darllen ehangach, nac addysgu dealltwriaeth iaith.
- Cefnogi cynnyrch penodol.

Gall ysgolion benderfynu sut i drefnu a darparu addysgu ffoneg synthetig systematig. Beth bynnag fo'r model, mae ffoneg o ansawdd uchel yn galw am ymrwymiad cyson i addysgu systematig, digon o ymarfer a chymhwyso, a'r asesu yn llywio'r cymorth ychwanegol fel bod dysgwyr yn dod yn ddarllenwyr a sillafwyr cywir.

[1]*Gelwir rhaglenni yn becynnau i ysgolion weithiau.*

01

Adran 1: Pam bod ffoneg yn bwysig ar gyfer darllen a sillafu

Mae'r adran hon yn egluro pam bod ffoneg yn bwysig, sut mae'n cyfrannu at ddarllen a sillafu a beth ydy rôl FfSS o fewn addysgu llythrennedd yn ehangach yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pam bod ffoneg yn bwysig ar gyfer darllen a sillafu

Mae dysgu darllen a sillafu mewn ieithoedd alffabetig fel y Gymraeg a'r Saesneg yn dibynnu ar ddysgu'r cod alffabetig: sut mae'r seiniau mewn geiriau llafar (ffonemau) yn cael eu cynrychioli gan lythrennau a grwpiau o lythrennau (graffemau). Mae ffoneg yn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r cod hwn yn gywir ac yn rhugl. Mae gan y Gymraeg iaith ysgrifenedig eithaf tryloyw (orthograffi/orgraff). Golyga hyn bod llythrennau a grwpiau o lythrennau ysgrifenedig yn gyffredinol yn cynrychioli seiniau yn gyson. Mae gan y Saesneg orthograffi/orgraff llai tryloyw a mwy o sillafiadau gwahanol ar gyfer seiniau ac ynganiadau. Yn y ddwy iaith, mae dysgu'r cyfatebiaethau sillafu-sain yn cefnogi darllen a sillafu geiriau cywir.

Mae disgwyl i ddysgwyr ganfod hyn drostynt eu hunain drwy ddod i gysylltiad â thestun yn unig yn tueddu i ffafrio'r rhai sydd eisoes â'r iaith a'r cymorth gartref. Felly mae addysgu'r cod yn uniongyrchol yn fater o degwch yn ogystal ag effeithiolrwydd.

Mae ffoneg synthetig systematig yn helpu dysgwyr i:

- Ddadgodio geiriau anghyfarwydd trwy glustnodi'r ffonemau a gynrychiolir gan y graffemau a'u cyfuno. e.e. yn y Gymraeg a'r Saesneg mae *cat* a *mam* yn cael eu cynrychioli gan dair llythyren yr un <c> <a> <t> a <m> <a> <m>, Ym mhob gair, mae'r graffemau yn cynrychioli tri ffonem y mae dysgwyr yn eu cyfuno i ddarllen y gair.
- Sillafu geiriau'n gywir trwy segmentu geiriau yn ffonemau a dewis y graffemau sy'n eu cynrychioli. Er enghraifft, yn y Saesneg cynrychiolir *ship* gan <sh> <i> <p> → *ship*. Yn y Gymraeg, cynrychiolir *llaw* gan <ll> <a> <w> → llaw). Mae hyn yn dangos bod graffem yn gallu cynnwys mwy nag un llythyren.
- Adeiladu stôr o eiriau a adnabyddir ar unwaith, gan fod pob ymgais lwyddiannus i ddadgodio gair yn helpu i osod ei sillafiad, ei sain a'i ystyr yn y cof (gweler 'mapio orgraffyddol' yn y tabl **Termau Allweddol**).
- Datblygu darllen geiriau yn awtomatig, gan leihau'r ymdrech sydd ei hangen i ddadgodio ac adnabod geiriau fel y gall dysgwyr ganolbwyntio fwyfwy ar ystyr.
- Adeiladu sylfeini ar gyfer deall wrth ddarllen, sillafu, rhuglder ysgrifennu a mynediad ehangach at y cwricwlwm, yn enwedig i ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anoddach darllen ac ysgrifennu.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'n gryf addysgu ffoneg eglur, systematig a chronnol. gyda chyfleoedd cyson i ymarfer a chymhwyso'r dysgu wrth ddarllen ac wrth sillafu. Mae FfSS yn darparu'r dull cyfarwyddyd a argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Dylid addysgu FfSS o fewn cwricwlwm sy'n gyforiog o ran iaith. Mae oedolion a dysgwyr yn sôn am brofiadau, straeon a gwybodaeth, yn datblygu geirfa ac yn trafod syniadau ac ystyron. Dylai ymarfer darllen annibynnol cynnar fod yn unol â'r cod y mae'r dysgwyr wedi'i dysgu. Mae sesiynau pan fydd oedolion yn darllen ar goedd (a'r straeon hynny yn cynnwys iaith amrywiol a chyfoethog) a sesiynau darllen ar y cyd gyda chefnogaeth hefyd yn rhoi mynediad i destunau tu hwnt i allu dadgodio cyfredol y dysgwyr. Golyga hyn bod iaith a dealltwriaeth yn datblygu ochr yn ochr â darllen geiriau.

Dylid addysgu ffoneg ochr yn ochr â gwybodaeth a sgiliau eraill

Mae dealltwriaeth o ddarllen yn dibynnu ar ddarllen geiriau a deall iaith (Gough a Tunmer, 1986). Gall dysgwyr wynebu anawsterau gan nad ydynt yn gallu darllen y geiriau yn gywir neu yn rhugl, oherwydd nad ydynt yn deall yr eirfa, strwythur y brawddegau neu syniadau yn y testun neu oherwydd y cyfan. Mae angen i addysgu ac asesu ystyried y ddau ddimensiwn.

Mae darllen geiriau yn gywir ac yn rhugl yn galluogi dysgwyr i gael mynediad at iaith ysgrifenedig. Pan fydd darllen geiriau yn effeithlon ac yn awtomatig, mae adnoddau gwybyddol yn cael eu rhyddhau i ganolbwyntio ar ystyr. Yn y modd hwn, nid diben ynddo'i hun yw darllen geiriau ond ffordd o ddeall iaith, sef diben sylfaenol darllen.

Felly nid yw darllen geiriau yn gywir yn unig yn ddigonol ar gyfer deall. Hyd yn oed pan fo dysgwyr yn gallu darllen geiriau yn gywir, efallai na fyddant yn deall testun os nad oes ganddynt wybodaeth am eirfa, y wybodaeth gefndir berthnasol, neu'r gallu i ddehongli strwythurau brawddegau ac ystyr ar draws darn. Am y rheswm hwn, dylid addysgu ffoneg ochr yn ochr ag agweddau eraill ar ddarllen a sillafu sy'n datblygu'r wybodaeth ehangach a'r sgiliau dealltwriaeth iaith sydd eu hangen ar gyfer deall ac ysgrifennu.

Ffordd ddefnyddiol o ddeall sut mae ffoneg yn plethu o fewn datblygiad llythrennedd yw Rhaff Llythrennedd CAL:ON (gweler isod), sy'n adeiladu ar Raff Ddarllen Scarborough (Scarborough, 2001) ac yn ei hymestyn i ysgrifennu ac i ddatblygiad dwyieithog. Mae'n dangos llythrennedd medrus fel plethiad tri grŵp o linynnau:

- Llythrennedd ar lefel geiriau, gan gynnwys ymwybyddiaeth ffonolegol, dadgodio, adnabod geiriau (darllen geiriau cyfarwydd yn awtomatig), a sillafu.
- Dealltwriaeth iaith, gan gynnwys geirfa, gwybodaeth gefndir, strwythurau iaith, rhesymu ar lafar.
- Cyfansoddi ysgrifenedig, sy'n tynnu ar yr un wybodaeth iaith i lunio testun.

Mae'r llinynnau hyn hefyd yn egluro'r termau a ddefnyddir drwy'r canllaw hwn. **Dadgodio** yw darllen gair trwy gyfieithu ei graffemau yn ffonemau a'u cyfuno. **Adnabod geiriau** yw darllen gair cyfarwydd yn awtomatig, heb ei seinio. **Darllen geiriau** yw'r ddau. Gan fod y llinynnau yn gyffredinol, mae'r un darlun yn berthnasol yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, gyda dysgwyr yn datblygu'r llinynnau ar draws y ddwy iaith.

Mae'r dull integredig hwn yn gyson â'r farn bod darllen medrus yn datblygu pan fydd nifer o linynnau yn cael eu plethu a'u cryfhau gyda'i gilydd dros amser. Gall addysgu hefyd gyd-fynd ag egwyddorion a ddisgrifir fel llythrennedd strwythuredig (International Dyslexia Association, 2019), yn yr ystyr bod yr addysgu wedi'i gynllunio, yn benodol ac yn gronnol, ac yn cysylltu darllen a sillafu gyda datblygiad iaith ehangach.



Mae sgil a chymhelliant yn cydberthyn

Mae'r modelau darllen yn disgrifio sut mae darllen yn datblygu; nid ydynt, ynddynt eu hunain, yn dangos pa mor effeithiol yw rhaglen addysgu. Mae'r argymhellion yma'n seiliedig ar ymchwil i ddarllen cynnar ac ar ymchwil i ymyrraethau, gan wahaniaethu rhwng y grwpiau perthnasol o ddysgwyr lle bo hynny'n bwysig wrth ddehongli'r dystiolaeth.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- Mae ffoneg systematig yn bwysig ar gyfer darllen geiriau a sillafu yn gywir.
- Mae darllen geiriau a sillafu yn gywir yn ei dro yn angenrheidiol ar gyfer deall wrth ddarllen ac ar gyfer ysgrifennu. Wrth i drawsgrifio (sillafu a llawysgrifen/bysellu) ddod yn awtomatig, mae mwy o sylw'r dysgwr yn gallu cael ei roi i ddeall testun a chyfansoddi testun.
- Rhaid addysgu ffoneg ochr yn ochr â iaith lafar (gan gynnwys geirfa), a rhoi cyfle i ymateb i destun o'r dechrau. Wrth i ddarllen geiriau ddod yn fwy rhugl, gall dysgwyr roi mwy o sylw i ddeall a thrafod testunau sy'n mynd yn fwyfwy cymhleth.

Beth am ddysgwyr dwyieithog?

Yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, mae deall wrth ddarllen yn dibynnu ar ddadgodio'r print yn yr iaith a deall iaith y testun. Fodd bynnag, mae dysgwyr dwyieithog yn debygol o fod yn datblygu darllen geiriau a dealltwriaeth iaith ar draws dwy iaith. Mae tystiolaeth yn dangos bod dadgodio ac iaith lafar yn parhau i fod yn ganolog, er y gall cyfraniad cymharol pob un amrywio yn ôl profiad iaith a hyfedredd.

Felly dylai addysgu:

- Feithrin darllen geiriau cadarn yn y ddwy iaith gan ddefnyddio ffoneg systematig.
- Datblygu sgiliau iaith lafar yn benodol yn y ddwy iaith a ddefnyddir ar gyfer darllen ac ysgrifennu.
- Cynllunio i wneud cysylltiadau pwrpasol rhwng ieithoedd lle bo hynny'n ddefnyddiol (e.e. cysyniadau a gwybodaeth gyffredin), heb ragdybio bod cynnydd mewn un iaith yn trosglwyddo yn awtomatig i'r llall.



Darllen ychwanegol

August, D., & Shanahan, T. (Eds.). (2006). Developing literacy in second-language learners: Report of the National Literacy Panel on Language-Minority Children and Youth. Lawrence Erlbaum Associates.

Castles, A., Rastle, K., & Nation, K. (2018). Ending the reading wars: Reading acquisition from novice to expert. Psychological Science in the Public Interest, 19(1), 5-51. https://doi.org/10.1177/1529100618772271

Ehri, L. C., Nunes, S. R., Stahl, S. A., & Willows, D. M. (2001). Systematic phonics instruction helps students learn to read: Evidence from the National Reading Panel's meta-analysis. Review of Educational Research, 71(3), 393-447. https://doi.org/10.3102/00346543071003393

Gough, P. B., & Tunmer, W. E. (1986). Decoding, reading, and reading disability. Remedial and Special Education, 7(1), 6-10. https://doi.org/10.1177/074193258600700104

International Dyslexia Association. (2019). Structured literacy: Effective instruction for students with dyslexia and related reading difficulties. IDA. https://dyslexiaida.org/structuredliteracy/

Nation, K. (2019). Children's reading difficulties, language, and reflections on the simple view of reading. Australian Journal of Learning Difficulties, 24(1), 47-73. https://doi.org/10.1080/19404158.2019.1609272

Scarborough, H. S. (2001). Connecting early language and literacy to later reading (dis)abilities: Evidence, theory, and practice. In S. B. Neuman & D. K. Dickinson (Eds.), Handbook of early literacy research (Vol. 1, pp. 97-110). Guilford Press.

02

Adran 2: Beth yw ffoneg?

Mae'r adran hon yn datgan diffiniad y cytunwyd arno o ran beth ydy ffoneg, yn egluro sut mae ffoneg yn cefnogi darllen a sillafu ac yn esbonio'r termau allweddol a ddefnyddir trwy'r canllaw hwn.

Beth yw ffoneg

Ffoneg yw addysgu'r berthynas rhwng seiniau llafar (ffonemau) a'r llythrennau neu'r grwpiau o lythrennau sy'n eu cynrychioli mewn ysgrifen (graffemau) mewn dull penodol a systematig. Mae hefyd yn golygu addysgu cyfuno a segmentu: mae dysgwyr yn cyfuno seiniau a gynrychiolir gan y graffemau y maent yn eu hadnabod er mwyn dadgodio geiriau anghyfarwydd, ac yn segmentu geiriau i'w seiniau gan ddewis y graffemau cyfatebol er mwyn eu sillafu yn gywir.

Dulliau ffoneg

Efallai y bydd ysgolion yn dod ar draws gwahanol labeli ar gyfer dulliau addysgu ffoneg. Mae'r wybodaeth isod yn egluro'r termau hyn.

Ymhlith y labeli cyffredin mae:

- Ffoneg synthetig: yn addysgu cyfatebiaethau graffem-ffonem (CGFfau) mewn trefn benodol ac yn addysgu dysgwyr i drosi graffemau yn ffonemau a'u cyfuno i ddarllen geiriau.
- Ffoneg ddadansoddol: dull cyfan-i-ran lle mae dysgwyr yn dadansoddi geiriau llawn er mwyn clustnodi cyfatebiaethau llythyren-sain. Mae rhai dulliau yn trefnu'r gwaith hwn drwy rannau o eiriau, megis seiniau dechreuol, rhannau sy'n odli (y llafariad a'r gytsain neu'n cytseiniaid sy'n dilyn) neu deuluoedd geiriau. Mae ffoneg ddadansoddol a ffoneg unedau mwy yn dermau cysylltiedig ond nid ydynt yn gyfystyr.
- Ffoneg systematig arall: yn addysgu ffoneg yn systematig ond nid yw'n ffitio'n daclus i'r naill ddisgrifiad na'r llall uchod, neu nid yw eu disgrifiadau cyhoeddedig yn ddigon clir i'w dosbarthu.

Mae Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol (2026) yn datgan y dylai pob ysgol ddefnyddio Ffoneg Synthetig Systematig (FfSS) fel rhan o'u dull addysgu plant i ddarllen. Mae'r canllaw hwn yn datgan y gall ysgolion ddefnyddio FfSS yn effeithiol mewn cyd-destunau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog. Yn y canllaw hwn, diffinir FfSS trwy ei nodweddion cyfarwyddyd craidd, yn hytrach na thrwy unrhyw raglen fasnachol neu ofynion manwl polisi gwlad arall.

Nid yw "synthetig" yn golygu artiffisial. Daw'r enw o synthesis, sef cyfuno ffonemau i greu gair. Mewn dull FfSS, addysgir cyfatebiaethau graffem-ffonem i ddysgwyr yn uniongyrchol, mewn trefn benodol, o ddechrau'r cyfnod dysgu darllen, ac maent yn eu defnyddio ar unwaith: gan gyfuno ffonemau i ddarllen geiriau, a segmentu geiriau llafar yn ffonemau i'w sillafu.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mai addysgu'r cyfatebiaethau graffem-ffonem yn uniongyrchol, dilyn dilyniant cam wrth gam wedi'i gynllunio yn y ddwy iaith, sicrhau mai dadgodio (cyfuno'r ffonemau a gynrychiolir gan graffemau a addysgwyd iddynt) yw'r brif ffordd y mae dysgwyr yn darllen geiriau newydd, ac mai segmentu yw'r brif ffordd y maent yn eu sillafu. Mae cymhwyso dysgu yn rhan annatod o addysgu ffoneg. Rhowch gyfleoedd dyddiol i ddysgwyr ddefnyddio'r hyn a addysgwyd iddynt mewn geiriau, brawddegau a thestun cysylltiedig gan wirio bod y dysgu yn gadarn, cyn symud ymlaen i ddeunydd newydd. Nid strategaeth i ddechreuwyr yn unig yw dadgodio. Mae darllenwyr medrus yn defnyddio'r un broses pryd bynnag y deuir ar draws gair anghyfarwydd, ochr yn ochr â'u gwybodaeth am eirfa a strwythur geiriau.

Mae FfSS yn rhan o addysgu llythrennedd ehangach Rhaff Llythrennedd CAL:ON. Mae'r llinynnau hyn yn datblygu ochr yn ochr gyda ffoneg, yn hytrach nag aros nes bod dadgodio yn gadarn. Mae Adrannau 3 i 5 yn egluro sut mae eu cysylltu.

Gall rhaglenni [1]masnachol gefnogi addysgu effeithiol os ydynt yn diwallu'r gofynion ansawdd a thystiolaeth a eglurir yn y canllaw hwn, gan gynnwys asesu pendant, cynllun cynhwysol a chefnogaeth gref o ran gweithredu'r cynllun. Gall rhaglen fod wedi'i chynllunio ar gyfer un iaith. Dylai ysgolion ystyried sut mae eu darpariaeth yn cefnogi cynnydd yn y Gymraeg a'r Saesneg os addysgir y ddwy iaith. Mae **Atodiad B** yn darparu rhestr wirio ar gyfer penderfynu a yw rhaglen ffoneg yn addas .

Sut mae ffoneg yn cefnogi darllen a sillafu

Mae ffoneg yn cefnogi dau sgil sydd â chysylltiad agos ac sy'n seiliedig ar yr un cod alffabetig:

Darllen geiriau

Dadgodio yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio darllen geiriau trwy drosi graffemau yn ffonemau a chyfuno'r ffonemau hynny i ddweud y gair. Gydag ymarfer, mae dadgodio yn dod yn fwy rhugl ac yn arwain at adnabod geiriau yn awtomatig. Dyma sut mae adnabod geiriau yn datblygu. Bob tro y bydd dysgwr yn dadgodio gair yn llwyddiannus, caiff mwy o wybodaeth am sillafiad y gair hwnnw ei storio yn y cof, fel bod y gair yn cael ei adnabod yn ddiweddarach heb ei ddadgodio yn benodol.

Sillafu geiriau

Amgodio yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio sillafu geiriau trwy adnabod y ffonemau mewn gair, eu segmentu yn eu trefn, a dewis graffemau neu linynnau o graffemau i gynrychioli'r seiniau hynny. Wrth i ddysgwyr fynd yn eu blaen, dylai addysgu sillafu hefyd eu helpu i ddysgu sillafiadau cyffredin ar gyfer sain (a pha bryd maent yn fwy tebygol o ddigwydd), patrymau a chonfensiynau'r system ysgrifennu, a sut gall sillafu gyfleu ystyr (e.e. morffemau).

Nid ffoneg yw:

- Dyfalu geiriau o luniau, cyd-destun, neu'r llythyren gyntaf.
- Dibynnu'n bennaf ar gofio geiriau cyfan fel y ffordd i ddarllen geiriau.
- Disodli addysgu sgiliau iaith lafar (e.e. geirfa, gwybodaeth gefndir, naratif, a dealltwriaeth o destunau).
- Dull sy'n gyfyngedig i ddysgwyr iau. Mae dysgwyr hŷn sydd ei angen yn elwa ar addysgu ffoneg cyflymach a systematig.

Yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud

Mae adolygiadau eang yn dangos yn gyson fod addysgu ffoneg systematig yn gwella canlyniadau darllen geiriau a sillafu o'i gymharu â dulliau nad ydynt yn cynnwys ffoneg, neu ychydig iawn o ffoneg (National Reading Panel, 2000; Ehri et al., 2001). Mae'r dystiolaeth sy'n cymharu gwahanol ddulliau ffoneg systematig yn llai pendant. Canfu National Reading Panel yr Unol Daleithiau (2000) nad oedd gwahaniaethau ystadegol dibynadwy rhwng dulliau ffoneg synthetig, dadansoddol, a dulliau ffoneg systematig eraill. Nid yw hyn yn gwanhau'r ddadl dros addysgu systematig o FfSS nac yn atal argymell FfSS. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, mae'r canllaw hwn yn argymell addysgu CGFfau mewn dilyniant a threfn gronnol, cyfuno ffonemau i ddadgodio geiriau anghyfarwydd a segmentu geiriau llafar ar gyfer sillafu, gan gynnwys asesu, ymarfer a chymhwyso.

Mae effeithiolrwydd addysgu ffoneg hefyd yn dibynnu ar yr orgraff sy'n cael ei dysgu (hynny yw y system ysgrifennu sy'n cysylltu seiniau iaith â'i sillafiadau). Mae gan y Gymraeg orgraff fwy tryloyw na'r Saesneg, gyda chyfatebiaethau rhwng seiniau a llythyren/llythrennau sy'n fwy cyson yn gyffredinol. Mae'r Saesneg yn cynnwys mapio mwy amrywiol a chymhleth. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gallu dadgodio yn gywir yn gymharol gyflym yn y Gymraeg unwaith y bydd y cyfatebiaethau cyffredin wedi'u haddysgu, tra bod y Saesneg fel arfer yn galw am addysgu, adolygu ac ymarfer mwy estynedig i feistroli sillafiadau ac ynganiadau amgen. Yn y ddwy iaith, dylai addysgu fod yn systematig ac wedi'i deilwra i'r orgraff, gydag addysgu penodol ynghylch lle mae cyfatebiaethau Cymraeg a Saesneg yn gorgyffwrdd a lle maent yn wahanol. Mewn orgraffau tryloyw fel y Gymraeg, dylai addysgu symud yn gyflym o sefydlu cywirdeb i feithrin arfer awtomatig a rhuglder, fel y gall dysgwyr ddadgodio'n effeithlon mewn testun cysylltiedig a neilltuo mwy o'u hadnoddau gwybyddol i ddealltwriaeth.

Ar gyfer dysgwyr sy'n parhau i gael anawsterau gyda dadgodio, dylid darparu cymorth addas a monitro ansawdd, dwysedd ac effaith yr addysgu. Sicrhewch addysgu eglur, cronnol o'r cod alffabetig, ymarfer ac adolygu digonol, ac addasiadau yn seiliedig ar asesu. Mae dysgwyr sy'n wynebu anawsterau yn elwa o ymyrraeth aml-ran: cyfarwyddyd cod systematig yn ogystal â chefnogaeth gyda rhuglder, iaith lafar, geirfa neu ddealltwriaeth, yn unol â'r hyn amlygwyd trwy eu hasesu. Mae Adran 5 yn egluro sut mae clustnodi'r anghenion hynny, monitro cynnydd ac addasu darpariaeth. Dylai dysgwyr sydd yn gadarn eu dadgodio dderbyn cefnogaeth ar gyfer unrhyw anawsterau sydd ganddynt yn hytrach nag ailadrodd ffoneg yn ddiangen.

Esboniad o'r nodiant a ddefnyddir

Trwy gydol y canllaw hwn, defnyddir bracedi <> i ddangos graffemau (llythrennau neu grwpiau o lythrennau mewn ysgrifennu) e.e. <s> <sh> a'r <ll> yn y Gymraeg. Defnyddir blaenslaes // i ddangos ffonemau (seiniau mewn iaith lafar) e.e. /s/, /sh/ a /ll/. Er mwyn sicrhau bod y canllaw yn hylaw ar gyfer rhai sy'n gweithio ym myd addysg, mae seiniau yn cael eu cynrychioli gan ffurfiau llythrennau cyfarwydd yn hytrach na symbolau o'r Wyddor Ffonetig Ryngwladol (IPA). Bwriedir i'r symbolau hyn ddangos y seiniau a addysgir yn hytrach na thrawsgrifiad ffonetig ffurfiol.

Darllen ychwanegol

Ehri, L. C. (2005). Learning to read words: Theory, findings, and issues. Scientific Studies of Reading, 9(2), 167-188. https://doi.org/10.1207/s1532799xssr0902_4

Ellis, N. C., & Hooper, A. M. (2001). Why learning to read is easier in Welsh than in English: Orthographic transparency effects evinced with frequency-matched tests. Applied Psycholinguistics, 22(4), 571-599. https://doi.org/10.1017/S0142716401004052

Gough, P. B., & Tunmer, W. E. (1986). Decoding, reading, and reading disability. Remedial and Special Education, 7(1), 6-10. https://doi.org/10.1177/074193258600700104

National Reading Panel. (2000). Teaching children to read: An evidence-based assessment of the scientific research literature on reading and its implications for reading instruction. National Institute of Child Health and Human Development.

Seymour, P. H. K., Aro, M., & Erskine, J. M. (2003). Foundation literacy acquisition in European orthographies. British Journal of Psychology, 94(2), 143-174. https://doi.org/10.1348/000712603321661859

Share, D. L. (1995). Phonological recoding and self-teaching: Sine qua non of reading acquisition. Cognition, 55(2), 151-218. https://doi.org/10.1016/0010-0277(94)00645-2

Snowling, M. J., Hulme, C., & Nation, K. (2020). Defining and understanding dyslexia: Past, present and future. Oxford Review of Education, 46(4), 501-513. https://doi.org/10.1080/03054985.2020.1765756

Tabl 1: Termau Allweddol

Mae'r rhestr eirfa yn egluro'r termau allweddol ac yn rhoi'r gair cyfatebol yn y Saesneg. Mewn enghreifftiau, mae < > yn dynodi llythrennau neu grwpiau llythrennau ysgrifenedig ac mae // yn dynodi seiniau llafar. Mae enghreifftiau sain yn defnyddio ffurfiau llythrennau cyfarwydd yn hytrach na symbolau ffonetig.

TERM	SAESNEG	BETH MAE'N EI OLYGU	ENGHREIFFTIAU
Adnabod geiriau	Word recognition	Darllen gair cyfarwydd yn gywir ac yn awtomatig heb ei ddadgodio yn benodol. Mae hyn yn datblygu trwy ddadgodio llwyddiannus a dysgu ffurf ysgrifenedig gair.	-
Amgodio	Encoding	Sillafu geiriau trwy segmentu ffonemau a dewis graffemau.	-
CGFf (cyfatebiaeth graffem-ffonem)	GPC (grapheme-phoneme correspondence)	Y berthynas rhwng graffem a ffonem.	Yn Gymraeg, <f> →/v/. Yn Saesneg, <s> →/s/.
Cyfuno	Blending (synthesising)	Cyfuno ffonemau unigol i greu gair llafar. Wrth ddadgodio, mae dysgwyr yn clustnodi'r ffonemau a gynrychiolir gan graffemau ac yn eu cyfuno i ddarllen y gair.	/d/ /r/ /a/ /m/ /a/ → drama
Dadgodio	Decoding	Darllen geiriau trwy gymhwyso gwybodaeth am CGFfau a chyfuno.	-
Darllen geiriau	Word reading	Darllen gair ysgrifenedig, naill ai trwy ei ddadgodio neu trwy ei adnabod yn awtomatig.	-
Deugraff/trigraff	Digraph / trigraph	Dwy/tair llythyren sy'n cynrychioli un ffonem. Yn y Gymraeg, mae deugraffau fel ll, ch, dd, ff, ng, ph, rh a th yn llythrennau o'r wyddor yn eu rhinwedd eu hunain.	Yn Gymraeg: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Yn Saesneg: sh (deugraff), igh (trigraff).
Ffonem	Phoneme	Yr uned lleiaf o sain mewn iaith.	Y tri sain yn mam: /m/ /a/ /m/
Geiriau eithriad cyffredin Saesneg (gelwir rhain yn eiriau anodd weithiau)	English common exception words (sometimes called tricky or irregular words)	Geiriau amledd uchel na ellir eto eu darllen na'u sillafu'n llawn gan ddefnyddio'r CGFfau a addysgwyd hyd yma, neu sy'n defnyddio sillafiadau llai cyffredin nad yw dysgwyr wedi'u dysgu eto. Cyflwynwch y rhain yn eglur, gan dynnu sylw at y rhannau y gellir eu dadgodio.	the, said, one
Geiriau cyfarwydd	Sight words	Geiriau sydd wedi'u dysgu ac y gellir eu hadfer a'u hadalw yn gyflym o'r cof.	-
Graffem	Grapheme	Llythyren neu grŵp o lythrennau sy'n cynrychioli sain.	Yn y Gymraeg: l, ll, ch. Yn y Saesneg: s, sh, igh.
Adnabod llythrennau	Letter knowledge	Y gallu i adnabod llythrennau, gwybod eu henwau, a deall y sain/ seiniau y maent yn eu cynrychioli mewn print.	-
Mapio orthograffig	Orthographic mapping	Y broses y mae darllenwyr yn storio geiriau ysgrifenedig yn y cof trwy gysylltu eu sillafiadau gyda'u hynganiadau a'u hystyron, fel y gellir eu hadnabod yn gyflym ar yr olwg gyntaf yn ddiweddarach (h.y. adnabod geiriau).	-
Morffoleg	Morphology	Sut mae geiriau wedi cael eu hadeiladu o rannau ystyrlon e.e. gwreiddiau, rhagddodiaid ac ôlddodiaid. Daw rhagddodiad cyn gwreiddyn (*an*hapus) a daw ôlddodiad ar ei ôl (hapus*rwydd*).	-
Segmentu	Segmenting	Rhannu gair yn ffonemau i'w sillafu.	piano → /p/ /i/ /a/ /n/ /o/
Ymwybyddiaeth ffonemig	Phonemic awareness	Math penodol o ymwybyddiaeth ffonolegol: y gallu i adnabod a thrin ffonemau.	Clywed bod sat yn cynnwys /s/ /a/ /t/
Ymwybyddiaeth ffonolegol	Phonological awareness	Ymwybyddiaeth o strwythur sain iaith lafar, gan gynnwys geiriau, sillafu, cyflythrennu ac odlau.	Adnabod a thrin seiniau mewn geiriau llafar.

03

Adran 3: Cynnydd a chynnwys

Mae'r adran hon yn disgrifio'r wybodaeth y mae dysgwyr ei hangen a sut gall addysgu adeiladu ar hynny.

Cynnydd a chynnwys

Nid oes cynnwys na dilyniant cenedlaethol gorfodol, a bydd y rhai sy'n craffu'n ofalus yn sylwi bod dilyniant pob rhaglen ffoneg yn amrywio. Mae rhaglenni yn gwahaniaethu ac nid yw ymchwil hyd yn hyn wedi penderfynu ar y drefn orau ar gyfer pob dysgwr. Mae dadansoddi faint o gyfatebiaethau graffem ffonem y gellir eu darllen yn gallu bwydo'r cynllunio (Vousden et al, 2011) ond nid treialon i gymharu trefn addysgu ydynt. Mae'r enghreifftiau ar gyfer gwahanol gyfnodau addysg yn ddiweddarach yn yr adran hon yn cefnogi'r gwaith cynllunio, ond nid ydynt yn pennu trefnu addysgu na safonau cyrhaeddiad cenedlaethol yn ôl oedran.

Datblygu Ymwybyddiaeth Ffonemig a Gwybodaeth Cod ar y Cyd

Mae addysgu ffoneg yn adeiladu ar ddealltwriaeth dysgwyr fod geiriau llafar yn cynnwys seiniau, ac y gellir cynrychioli'r seiniau hyn mewn print. Mae ymwybyddiaeth ffonemig a gwybodaeth o'r CGFfau yn cefnogi datblygiad y naill a'r llall wrth i ddysgwyr gysylltu'r ffonemau mewn geiriau llafar gyda'r graffemau sy'n eu cynrychioli wrth ddarllen a sillafu. Mae dealltwriaeth dysgwyr o'r egwyddor alffabetig yn dibynnu ar y ddau. Mae iaith lafar, dealltwriaeth ac ymgysylltu gyda thestunau yn datblygu ochr yn ochr â'r dysgu hwn; nid ydynt yn digwydd yn ddiweddarach unwaith y bydd y dysgwyr yn gallu dadgodio yn fanwl gywir.

Yn ystod addysg gynnar, dylai dysgwyr ddysgu sut mae:

- Clywed, cyfuno a segmentu ffonemau tra'n eu cysylltu gyda'r graffemau a addysgir.
- Deall yr egwyddor alffabetig: bod print yn cynrychioli lleferydd.
- Dysgu CGFfau a'u cymhwyso i ddarllen a sillafu geiriau.
- Symud o eiriau syml i eiriau mwy cymhleth wrth i wybodaeth dyfu.

Yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae angen i ddysgwyr ddarllen geiriau'n gywir a deall iaith. Fodd bynnag, mae dysgwyr fel arfer yn meistroli dadgodio'n gyflymach mewn ieithoedd lle mae'r berthynas rhwng synau a llythrennau yn fwy rhagweladwy, megis y Gymraeg. O ganlyniad, gellir rhoi mwy o bwyslais ar ruglder a datblygiad iaith ehangach yn gynharach yn y Gymraeg, tra'n parhau i gefnogi'r dysgwyr hynny sydd angen addysgu cod systematig.

Datblygu Ymwybyddiaeth Ffonemig ochr yn ochr â Ffoneg

Ymwybyddiaeth ffonemig yw'r gallu i adnabod a gweithio gyda ffonemau unigol mewn geiriau llafar. Er enghraifft, gall dysgwr ag ymwybyddiaeth ffonemig glywed bod y gair Saesneg *sat* yn cynnwys /s/ /a/ /t/, gall gyfuno /m/ /a/ /m/ i ddweud *mam*, a gall segmentu'r gair llafar *ship* yn /sh/ /i/ /p/. Yn yr un modd, bydd plentyn sy'n dysgu Cymraeg yn clywed bod y gair *pen* yn cynnwys /p/ /e/ /n/, yn cyfuno /a/ /r/ /th/ i ddweud *arth* ac yn segmentu'r gair llafar *ceg* yn /c/ /e/ /g/. Mae'r sgil yn ymwneud â seiniau llafar ac mae dysgu'r seiniau gyda'r llythrennau yn helpu dysgwyr ddeall y cysylltiad rhwng lleferydd a phrint.

Mae ymwybyddiaeth ffonemig yn rhan benodol o ymwybyddiaeth ffonolegol. Ymwybyddiaeth ffonolegol yw'r ymwybyddiaeth ehangach o strwythur sain iaith lafar, gan gynnwys unedau mwy megis geiriau, sillafau ac odl. Mae ymwybyddiaeth ffonemig yn canolbwyntio'n benodol ar ffonemau: unedau sain lleiaf mewn geiriau llafar. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig oherwydd mae ffoneg yn gofyn i ddysgwyr gysylltu ffonemau unigol mewn lleferydd gyda graffemau mewn print. Er mwyn defnyddio ffoneg ar gyfer darllen, mae angen i ddysgwyr gyfuno ffonemau â'i gilydd. Er mwyn defnyddio ffoneg ar gyfer sillafu, mae angen iddynt segmentu geiriau llafar yn ffonemau a dewis graffemau i'w cynrychioli. Mae'r rheswm yn syml: mae dysgwyr sy'n gallu clywed y seiniau ar wahân mewn gair llafar yn ei chael yn llawer haws mapio'r seiniau hynny ar y llythrennau sy'n eu cynrychioli.

Yn y dosbarth meithrin, gall gweithgareddau byr a

chwareus sy'n canolbwyntio ar synau lleferydd gael eu cyflwyno ochr yn ochr â chaneuon, rhigymau, straeon, gweithgareddau llafar a chyfleoedd cynnar i ddod i gysylltiad â phrint. Nid oes rheidrwydd i gwblhau cyfnod o addysgu ymwybyddiaeth ffonemig llafar yn unig cyn cychwyn ffoneg. Dylid cychwyn FfSS yn ystod Dosbarth Derbyn, yn yr iaith y mae'r dysgwyr yn dysgu darllen gyntaf ynddi. Dylai dysgwyr sy'n cael anhawster i gyfuno neu segmentu synau gael modelau ychwanegol ac ymarfer dan arweiniad ochr yn ochr ag addysgu'r cyfatebiaethau rhwng llythrennau a synau. Nid oes angen iddynt feistroli'r sgiliau hyn cyn dechrau dysgu ffoneg.

Mae addysgu ymwybyddiaeth ffonemig effeithiol yn:

- Canolbwyntio ar seiniau unigol: mae dysgwyr yn ymarfer clywed, dweud, cyfuno a segmentu ffonemau mewn geiriau llafar.
- Gryno a chyson: mae gweithgareddau yn fyr, yn rheolaidd ac wedi'u modelu'n ofalus.
- Defnyddio sesiynau gwrando a siarad (sain clust a llafar), gan ddangos a thrin y graffemau a addysgwyd tra bod dysgwyr yn cyfuno neu segmentu ffonemau.
- Modelu yn glir; ynganwch air cyfarwydd, tynnwch sylw at ei ffonemau a dangoswch sut mae'r graffemau a addysgwyd yn eu cynrychioli. Defnyddiwch enghreifftiau lle mae'r ynganiad yn gyfarwydd yn yr iaith a addysgir.
- Gwneud y cysylltiad clir gyda phrint wrth ddechrau cyflwyno FfSS gan fod ymwybyddiaeth ffonemig a gwybodaeth CGFfau yn cefnogi ei gilydd.
- Gwirio yn gyson er mwyn penderfynu beth i'w fodelu neu ymarfer nesaf, nid i benderfynu a yw dysgwr yn barod i weithio gyda llythrennau.
- Disgwyl i athrawon fod yn ymwybodol o ffonemau'r iaith sy'n cael ei haddysgu a dylent egluro'r gwahaniaethau rhwng y ddwy iaith pan fo hynny'n ddefnyddiol.

Mae enghreifftiau o weithgareddau ymwybyddiaeth ffonemig defnyddiol yn cynnwys:

- **Cyfuno:** dangoswch air byr o graffemau a addysgwyd, gan bwyntio at bob un wrth i'r ffonemau gael eu hynganu. Yna ewch ati i'w cyfuno i ddarllen y gair. Gellir defnyddio ychydig o gyfuno ar lafar er mwyn modelu'r broses.
- **Segmentu:** ynganwch air cyfarwydd, gan glustnodi ei ffonemau a defnyddio llythrennau a addysgwyd neu deils llythrennau i'w cynrychioli. Er enghraifft, mapiwch y tri ffonem yn y gair Cymraeg pen ar <p> <e> <n>.
- **Adnabod ffonemau:** gofynnwch i ddysgwyr glustnodi ffonem mewn gair llafar cyfarwydd a'i gysylltu gyda graffem a addysgwyd, er enghraifft y ffonem cyntaf yn y gair Saesneg *sun* - <s>.
- Gofyn i ddysgwyr a yw dau air llafar yn dechrau neu'n gorffen gyda'r un sain.
- **Newid ffonem:** pan fo hynny yn ddefnyddiol, defnyddiwch deils llythrennau i newid un graffem a addysgwyd a darllenwch y gair sy'n weddill, er enghraifft yn y Saesneg *sat* i *sit*. Nid oes raid cael tasgau trin ffonemau mwy cymhleth ar gyfer cyfarwyddyd darllen.

Canfu'r National Reading Panel (2000) fod addysgu ymwybyddiaeth ffonemig yn gwella darllen a sillafu, a bod yr effaith yn gryfach pan oedd llythrennau'n cael eu cynnwys nag oedd pan nad oeddent. Mae hyn yn cefnogi addysgu ymwybyddiaeth ffonemig ochr yn ochr â chyfatebiaethau graffem-ffonem (CGFfau).

Nid yw hyn yn awgrymu bod pob gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar seiniau llafar yn ddi-fudd, nac yn pennu un oedran cychwyn delfrydol na swm penodol o hyfforddiant. Dylai gweithgareddau fod yn bwrpasol ac yn gysylltiedig yn uniongyrchol â darllen a sillafu.

Cyflwyno CGFfau ac ailymweld

Mae dysgwyr yn dysgu CGFfau yn fwyaf effeithiol pan fo'r addysgu yn systematig, yn gronnol, a phan fydd yr athro yn ailymweld yn aml er mwyn cadarnhau'r dysgu.

Cyflwynwch CGFfau newydd mewn camau bach, hylaw. Wrth eu cyflwyno, ystyriwch:

- Addysgu termau ieithyddol (e.e. deugraffau: dwy lythyren sy'n cynrychioli un sain, fel sh yn *ship* neu ll yn *llaw*), gan eu bod yn darparu iaith gyffredin ar gyfer trafod a chadarnhau'r dysgu.
- Addysgu yn benodol drwy ddangos y graffem, dweud y ffonem, a modelu sut i'w ddefnyddio wrth ddarllen a sillafu.
- Ewch ymlaen i ymarfer ar unwaith trwy ddarllen geiriau sy'n defnyddio'r CGFf newydd a sillafu geiriau sy'n ei chynnwys.
- Cynlluniwch ymarfer ysbeidiol, cymysgwch CGFfau newydd gyda rhai a addysgwyd eisoes wrth ddarllen/sillafu, wedi'u cyflwyno dros amser.
- Ceisiwch wirio yn gyflym ac yn gronnol er mwyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen neu ychwanegu mwy o ymarfer.

Mae cod y Gymraeg a'r Saesneg yn wahanol. Dylai ysgolion sicrhau bod gan ddysgwyr gyfleoedd systematig i ddysgu ac ymarfer y CGFfau a'r confensiynau sy'n berthnasol i iaith/ieithoedd yr ysgol ac osgoi tybio bod dadgodio cadarn mewn un iaith yn golygu yn awtomatig bod dadgodio yn yr iaith arall yn gadarn.

Datblygu cywirdeb a meithrin arfer awtomatig

Cywirdeb ddylai fod y prif ffocws wrth addysgu ffoneg yn gynnar. Mae dysgwyr yn dysgu dadgodio a sillafu yn effeithiol gan ddefnyddio'r CGFfau a addysgwyd. Dylai addysgu hefyd feithrin arfer awtomatig fel y gall dysgwyr ganolbwyntio mwy ar yr ystyr.

Awgrymiadau i gefnogi cynnydd:

- Rhowch ddigon o gyfle i'r dysgwyr brofi llwyddiant trwy ddefnyddio geiriau a grëwyd o'r CGFfau a addysgwyd.
- Defnyddiwch ymarfer llwyddiannus dro ar ôl tro (gan gynnwys ailddarllen geiriau a darnau byr).
- Cadwch ymarfer yn gronnol fel bod dysgwyr yn cymhwyso dysgu cynharach ochr yn ochr â chynnwys mwy newydd.

Gan fod orgraff y Gymraeg yn gymharol dryloyw, mae dysgwyr fel arfer yn datblygu cywirdeb wrth ddadgodio yn gynt yn y Gymraeg nag yn y Saesneg. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, mae hyn yn rhannol oherwydd mai drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig y mae dysgwyr wedi cael eu haddysgu i ddarllen hyd yma. Ar y llaw arall, gall y cyfatebiaethau llai tryloyw rhwng seiniau a sillafu yn y Saesneg arafu datblygiad cywirdeb a chynyddu'r angen i ymarfer geiriau penodol, megis geiriau afreolaidd. Yn y ddwy iaith, dylai addysgu barhau y tu hwnt i gywirdeb gan ddatblygu rhuglder trwy roi digon o gyfle i ymarfer darllen llwyddiannus, cynnwys ailddarllen geiriau a darnau sy'n defnyddio'r cyfatebiaethau a addysgwyd i ddysgwyr. Dylid rhagweld y gall rhai dysgwyr fod angen mwy o ymarfer cronnol i ddod yn awtomatig yn y Saesneg, hyd yn oed pan fyddant yn ymddangos yn gywir yn gymharol gyflym yn y Gymraeg.

Cyflwyno ffoneg y Saesneg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg

Gan amlaf, dechreuir addysgu ffoneg y Saesneg ym Mlwyddyn 3 mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Cyflwynir ffoneg y Saesneg unwaith y bydd addysgu llythrennedd Cymraeg wedi'i sefydlu, yn hytrach na'i fod yn cymryd ei le. Dylai lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n cyflwyno'r Saesneg ddarllen yr is-adran hon, a dylai lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n cyflwyno'r Gymraeg ddarllen yr adran ddilynol.

Mae gan y Gymraeg system o gyfatebiaethau sain-sillafu eithaf cyson, sy'n helpu llawer o ddysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth ffonemig gref, sgiliau dadgodio cynnar, a hyder fel darllenwyr. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall bod darllen yn golygu troi llythrennau yn seiniau a'u cyfuno, a bod sillafu yn golygu troi seiniau yn llythrennau. Pan fyddant yn dechrau dysgu darllen a sillafu yn y Saesneg, fodd bynnag, maent yn dod ar draws system ffoneg wahanol. Mae sillafiadau yn y Saesneg yn llai cyson nag yn y Gymraeg, a gellir cynrychioli llawer o seiniau mewn sawl ffordd wahanol (er enghraifft, y sain /ee/ yn *see, seat, happy*). Oherwydd hyn, mae dysgwyr yn elwa o addysgu ffoneg Saesneg yn benodol, yn hytrach na disgwyl iddynt drosglwyddo yn awtomatig o'r Gymraeg.

Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau a ddatblygwyd yn y Gymraeg megis ymwybyddiaeth ffonemig, cyfuno, a dealltwriaeth o sut mae print yn cynrychioli seiniau lleferydd wrth ddysgu'r Saesneg. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr mewn sefyllfa dda i ddysgu ffoneg y Saesneg yn effeithlon. Wrth gyflwyno ffoneg y Saesneg, adeiladwch ar y sgiliau y mae'r dysgwyr wedi eu datblygu yn y Gymraeg, e.e. adnabod seiniau unigol mewn geiriau llafar, cyfuno seiniau i ddarllen geiriau a deall sut mae llythrennau a grwpiau llythrennau yn cynrychioli seiniau. Gall y sgiliau hyn helpu darllen yn y Saesneg, ond mae dysgwyr hefyd angen dysgu sut mae cod y Saesneg yn wahanol. Gwiriwch pa gyfatebiaethau llythyren-sain Saesneg y maent yn gallu eu defnyddio, ac yna ewch ati i ddysgu ac ymarfer yn benodol y rhai sydd eu hangen arnynt ymhellach. Defnyddiwch y gwiriadau hyn i arwain cynnwys a chyflymder y dysgu: nid yw darllen cadarn yn y Gymraeg yn golygu bod dysgwyr eisoes yn gwybod cod y Saesneg.

Mae addysgu ffoneg y Saesneg yn benodol ym Mlwyddyn 3 yn caniatáu i athrawon:

- Adeiladu ar sylfeini cryf dysgwyr o ffoneg y Gymraeg.
- Egluro ble mae'r Saesneg yn debyg i'r Gymraeg a ble mae'n wahanol.
- Cefnogi dadgodio a sillafu cywir yn y Saesneg o'r cychwyn cyntaf.
- Lleihau anawsterau diweddarach o ran rhuglder darllen.

Nid yw'r dull hwn yn golygu dechrau eto gyda ffoneg. Yn hytrach, mae'n golygu ailddefnyddio arferion cyfarwydd (e.e. cyfuno, segmentu, ymarfer cronnol) wrth addysgu dysgwyr am batrymau sain-sillafiad penodol yn y Saesneg. Dros amser, mae hyn yn cefnogi dysgwyr i ddod yn ddarllenwyr ac ysgrifenwyr hyderus a chywir yn y ddwy iaith. Mae hefyd yn helpu dweud wrth ddysgwyr beth i'w ddisgwyl gan y cod Saesneg. Yn y Saesneg, mae gan graffemau ynganiadau gwahanol yn amlach na'r hyn a geir yn y Gymraeg, gall yr un llythrennau ddweud mwy nag un sain, felly bydd dysgwyr weithiau angen rhoi cynnig ar ynganiad amgen a gwirio a yw'r canlyniad yn air y maent yn ei adnabod.

Mae llawer o ysgolion yn dewis defnyddio rhaglen FfSS [1]safonol ar gyfer y Saesneg pan fydd dysgwyr yn dechrau dysgu darllen a sillafu Saesneg ym Mlwyddyn 3. Gall hyn fod yn ddull effeithiol ac effeithlon, ar yr amod bod y rhaglen yn cael ei haddasu i ystyried ac i adlewyrchu profiad blaenorol dysgwyr o ffoneg y Gymraeg.

Yr egwyddor allweddol yw nad yw dysgwyr yn ddechreuwyr mewn ffoneg. Yn hytrach, dechreuwyr mewn ffoneg y Saesneg ydynt.

Wrth gyflwyno rhaglen FfSS Saesneg ym Mlwyddyn 3, dylai ysgolion gydnabod y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr eisoes yn deall y cysyniadau ffoneg craidd:

- Bod geiriau yn cynnwys ffonemau.
- Bod ffonemau yn cael eu cynrychioli gan lythrennau neu grwpiau o lythrennau.
- Sut mae cyfuno ar gyfer darllen a sut mae segmentu ar gyfer sillafu.

Felly dylai addysgu symud yn gyflym trwy arferion cyfarwydd, gan ganolbwyntio'r amser addysgu ar yr hyn sy'n newydd yn y Saesneg. Mae llawer o raglenni FfSS wedi'u cynllunio ar gyfer plant iau. Ym Mlwyddyn 3, gall fod yn briodol:

- Symud yn gyflymach trwy'r camau cynnar.
- Cyfuno unedau cynnar lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu dal yn ôl gan ailadrodd diangen o gysyniadau y maent eisoes yn eu deall.
- Gwirio bod fod testunau ymarfer a deunyddiau yn addas i oedran dysgwyr yn ogystal â'u lefel, gan y gall deunyddiau a gynlluniwyd ar gyfer plant llawer iau fod yn anniddorol a diflas i'r disgyblion.

Dylai addysgu amlygu lle mae'r Saesneg yn wahanol i'r Gymraeg, er enghraifft:

- Mwy nag un ffordd o sillafu yr un sain yn y Saesneg.
- Sillafiadau llafariaid llai rhagweladwy.
- Llythrennau dwbl: yn y Gymraeg, mae graffemau dwy lythyren fel ll, ff a dd yn ddeugraffau ac yn llythrennau yn y wyddor Gymraeg yn eu rhinwedd eu hunain, pob un yn cynrychioli un ffonem gyson. Yn y Saesneg, gall cytseiniaid dwbl gynrychioli confensiwn sillafu e.e. *hop* ≥ *hopping*, neu ffin rhwng morffemau, fel yn mis + spell ≥ *misspell*. Addysgwch y patrwm sillafu neu'r strwythur gair perthnasol yn benodol.
- Gwahaniaethau mewn confensiynau sillafu a morffoleg. Mae gwneud y cyferbyniadau hyn yn eglur yn helpu dysgwyr i osgoi dryswch ac yn cefnogi sillafu cywir.

Dylai ffoneg y Saesneg gefnogi, a chael ei chefnogi gan addysgu pwrpasol ar y canlynol:

- Geirfa Saesneg ac iaith lafar.
- Rhuglder darllen.
- Sillafu ac ysgrifennu.
- Dealltwriaeth.

Mae hyn yn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau dadgodio mewn modd ystyrlon wrth iddynt ddod ar draws testunau Saesneg cynyddol gymhleth.

Ceisiwch osgoi:

- Cymryd yn ganiataol bod dysgwyr Blwyddyn 3 yn gwbl newydd i ffoneg.
- Dibynnu ar amlygiad anffurfiol dysgwyr i destun Saesneg heb addysgu system sain-sillafiad Saesneg yn benodol.
- Cymryd yn ganiatol y bydd sgiliau dadgodio cryf yn y Gymraeg yn trosglwyddo yn awtomatig i'r Saesneg.
- Arafu'r tempo yn ormodol i gyd-fynd ag oedran gwreiddiol rhaglen, yn hytrach na lefel dealltwriaeth gwirioneddol y dysgwyr.

Y pontio i ffoneg Saesneg ym Mlwyddyn 3 mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg

Dylai ysgolion gynllunio sut a pha bryd i gyflwyno ffoneg y Saesneg yn fwriadol, yn hytrach na gadael iddo ddatblygu trwy amlygiad damweiniol i destun Saesneg. Nodir rhai ystyriaethau isod a dylai ysgolion addasu'r manylion i'w cyd-destun a'u dysgwyr eu hunain.

Amseru: Dechreuwch addysgu ffoneg y Saesneg yn benodol yn gynnar ym Mlwyddyn 3, unwaith y bydd arferion yr ystafell ddosbarth wedi'u sefydlu. Mae addysgu llythrennedd Cymraeg yn parhau drwyddi draw a dylid ychwanegu ffoneg y Saesneg ochr yn ochr â hynny. Mae sesiynau byr, rheolaidd (er enghraifft, sesiynau dyddiol o 15 i 20 munud) yn gyffredinol yn fwy effeithiol na rhai hirach, llai aml.

Mannau cychwyn: Dechreuwch trwy wirio'r hyn y mae dysgwyr eisoes yn ei wybod am y cod Saesneg (er enghraifft, gwybodaeth am gyfatebiaethau llythyren-sain a darllen geiriau syml), a gosodwch y dysgwyr yn y man addas o fewn y rhaglen neu'r dilyniant yn unol â hynny, yn hytrach na dechrau ar ddechrau'r rhaglen. Mae'n ddefnyddiol grwpio yn ôl angen, lle bo hynny'n ymarferol.

Trefnu cynnwys: Mae'n ddefnyddiol dechrau lle mae cod y ddwy iaith yr un fath. Mae camau agoriadol y rhan fwyaf o raglenni Saesneg (er enghraifft s, a, t, p, i, n) i raddau helaeth yn gyffredin efo'r Gymraeg, felly mae dysgwyr yn profi llwyddiant cynnar gydag arferion cyfarwydd ac ni ddylai fod angen i chi aildrefnu rhaglen. Dylid ystyried cynnwys sy'n perthyn i'r Saesneg yn unig, megis timau llafariaid (e.e., oa, igh) a deugraffau hollt, yn ddysgu newydd a dilyn dilyniant cronnol y rhaglen yn y ffordd arferol.

Mae angen addysgu'n ofalus y graffemau sy'n ymddangos yn y ddwy iaith sydd â seiniau gwahanol (er enghraifft f, u, w, y, ll, ch, dd). Cynlluniwch pryd y cyflwynir pob un, ei addysgu trwy ei gyferbynnu'n eglur gyda'i gymar yn y Gymraeg, ac osgoi cyflwyno'r cywerth Saesneg tra bo'r un llythyren yn ffocws addysgu Cymraeg newydd. Unwaith y bydd y ddau yn gadarn, dewch â nhw at ei gilydd yn fwriadol. Gellir gwneud hyn trwy eu cyferbynnu a'u cymysgu. Yn ymarferol mae hyn yn meithrin gallu effeithiol i wahaniaethu. **Mae Tabl 2** (gweler isod) yn nodi'r tri grŵp, ac mae **Atodiad A** yn cynnwys siart gyda'r ddau god fesul graffem.

Cadw'r ddau god ar wahân: Dylid addysgu ffoneg y Saesneg mewn sesiynau penodol drwy gyfrwng y Saesneg, gan sicrhau bod iaith yr addysgu'n gyson drwy gydol y sesiwn. Ar adegau, gall dysgwyr gymhwyso sain Gymraeg i air Saesneg, neu sain Saesneg i air Cymraeg. Er enghraifft, darllen *fun* fel "*vun*", oherwydd bod <f> yn dweud /v/ yn Gymraeg. Gelwir hyn yn drosglwyddo oherwydd bod y dysgwr yn defnyddio'r hyn y mae'n ei wybod mewn un iaith i'r iaith arall yn synhwyrol. Dylem drin hyn fel arwydd o ddysgu. Cywirwch y darllen iaith-benodol mewn modd cadarnhaol trwy gymharu, gan wedyn ofyn i'r dysgwr ddarllen y gair eto. Er enghraifft: "Yn Gymraeg, mae <f> yn dweud /v/, fel yn *fel*. Yn Saesneg, mae <f> yn dweud /f/, fel yn *fun*."

Adolygu'r cydbwysedd rhwng y Saesneg a'r Gymraeg: Wrth i gywirdeb yn y Saesneg dyfu, addaswch y cydbwysedd wythnosol rhwng y Saesneg a'r Gymraeg fel bod dysgwyr yn ymarfer darllen yn y ddwy iaith, mewn testunau y gellir eu dadgodio a rhai ehangach. Yn ystod blynyddoedd 3 a 4, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn symud ymlaen at destunau cynyddol gymhleth yn y ddwy iaith, gydag addysgu ffoneg yn parhau i'r rhai sydd ei angen.

Adeiladwch ar y drefn mae'r dysgwyr eisoes yn ei defnyddio yn y Gymraeg, gwiriwch pa sgiliau sy'n trosglwyddo, ac addysgwch yn glir y cyfatebiaethau sydd yn y Saesneg yn benodol. Dylai'r drefn a faint o ymarfer a wneir fod yn unol â chanlyniadau unrhyw asesu. Mae'r argymhellion ymarferol hyn yn tynnu ar wybodaeth am y ddwy system ysgrifennu ac ymchwil i drosglwyddo; nid hon yw'r unig drefn ddwyieithog sydd wedi cael ei phrofi a'i sefydlu.

Tabl 2: Sut mae codau'r Gymraeg a'r Saesneg yn perthyn i'w gilydd

Y BERTHYNAS RHWNG Y CODAU	ENGHREIFFTIAU	BETH MAE HYN YN EI OLYGU I ADDYSGU
Yr un llythyren, yr un sain neu sain agos iawn	b, d, h, l, m, n, p, s, t; ff a ph (/f/); ng; th fel yn *thin*	Gwiriwch a ydy dysgwyr yn gallu defnyddio'r cyfatebiaethau hyn yn yr iaith newydd cyn penderfynu faint o addysgu neu ymarfer sydd ei angen.
Yr un llythyren, sain wahanol	f (Cymraeg *fel*; Saesneg *fun*); u (Cymraeg *munud*, Saesneg *cup*); ll (deugraff Cymraeg *llaw*, Saesneg *hill*); ch (Cymraeg *bach*, Saesneg *chip*); dd (Cymraeg *eistedd*, Saesneg *add*); w (Cymraeg fel llafariad: *cwm* (hefyd fel cytsain: *wyn*) Saesneg fel cytsain *wet*; y (Cymraeg *dyn*, *yn*; Saesneg yes, *happy*, *my*); c a g o flaen e ac i (Cymraeg *ceg*, *gardd*; Saesneg *cell*, *gem*); r (wedi'i rholio yn y Gymraeg *rowlio*; Saesneg *red*)	Cynlluniwch y rhain yn fwriadol. Addysgwch bob un trwy gyferbynnu'n eglur (Yn y Gymraeg... Yn y Saesneg...), a pheidiwch â chyflwyno cyfatebiaethau sy'n groes ar yr un pryd. Yn y Gymraeg, gall <w> gynrychioli llafariad (e.e. *cwm*) neu gytsain (e.e. *wyn*). Mae ynganiad <u> yn amrywio o ardal i ardal. Mae'r <y> yn y Gymraeg hefyd yn cynrychioli gwahanol seiniau llafariad gan ddibynnu lle mae'r llythyren mewn gair: mewn sillafau sydd ddim ar ddiwedd gair, mae'n cael ei ynganu fel schwa (e.e. yr <y> cyntaf yn *mynydd*), ond mewn sillafau terfynol a geiriau unsill mae iddo sain llafariad gwahanol (e.e. *mynydd*, *dyn*). Modelwch yr ynganiadau Cymraeg y bydd dysgwyr yn eu clywed yn lleol.
Penodol i un iaith	Cymraeg: rh, llafariaid acen grom (â, ô, ŵ) ac, i ddysgwyr newydd i'r Gymraeg, seiniau ll a ch. Mae'r Gymraeg hefyd yn defnyddio á (*caniatáu*) ac ï (*sgïo*); mae'r ddau yn brin ac yn swnio'n agos at y llafariaid heb acen, felly mae angen eu nodi yn hytrach na'u haddysgu'n fanwl. Saesneg: timau llafariaid a deugraffau hollt (e.e., oa, igh, a-e), k, v, x, qu, sh, ck.	Addysgwch fel dysgu newydd yn benodol yn y ffordd arferol. Yn aml mae'r sain yn gyfarwydd a dim ond y sillafiad sy'n newydd: mae <v> Saesneg yn ysgrifennu'r sain y mae'r Gymraeg yn ei hysgrifennu fel <f>, ac mae <sh> Saesneg yn ysgrifennu'r sain y mae'r Gymraeg yn ei hysgrifennu fel <si>. Lle mae'r sain ei hun yn newydd (/ll/ a /ch/ i siaradwyr Saesneg), modelwch hi'n uniongyrchol a rhowch ddigon o ymarfer. Mae dysgwyr newydd i'r Gymraeg yn aml yn darllen <rh> fel /r/ ac yna /h/; mae angen ei haddysgu fel un llythyren gyda'i sain ei hun.

Cyflwyno ffoneg y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg

Mae llawer o ysgolion cyfrwng Saesneg yn cyflwyno darllen Cymraeg o Flwyddyn 3, ac yn aml yn dechrau gyda ffoneg. Mae gan y Gymraeg god cyson, ac mae dysgwyr sydd eisoes yn darllen yn y Saesneg fel arfer yn dysgu dadgodio Cymraeg yn gyflym. Nid yw'r dysgwyr hyn yn ddechreuwyr mewn ffoneg, ond maent yn ddechreuwyr mewn ffoneg y Gymraeg, ac, yn hollbwysig, yn yr iaith Gymraeg.

Mae darllen yn y Gymraeg, fel darllen yn y Saesneg, yn dibynnu ar ddadgodio a dealltwriaeth iaith gyda'i gilydd. Mae sillafiadau yn y Gymraeg yn cynrychioli seiniau yn gymharol gyson, er bod rhai seiniau yn amrywio yn ôl lleoliad neu air. Mae gwybod bod y cyfatebiaethau yn cefnogi darllen geiriau yn gywir a deall yr hyn sy'n cael ei ddarllen hefyd yn dibynnu ar eirfa, gwybodaeth am iaith a gwybodaeth gefndir. Mae angen asesu'r ddau, yn enwedig pan fo dysgwyr yn datblygu'r Gymraeg fel iaith ychwanegol.

Felly dylid addysgu ffoneg y Gymraeg o fewn addysgu'r iaith Gymraeg, ochr yn ochr â dilyniant penodol o gyfatebiaethau graffem-ffonem (CGFfau) y Gymraeg. Dylai'r addysgu hefyd ddatblygu'r eirfa y bydd dysgwyr yn dod ar ei thraws yn eu darllen, adeiladu dealltwriaeth wrando a deall, a siarad yn y Gymraeg, a sicrhau bod dysgwyr yn darllen Cymraeg y gallant ei deall yn rheolaidd. Dylai testunau ymarfer gyfateb i'r cyfatebiaethau a'r eirfa a addysgwyd i ddysgwyr, a dylai gwiriadau cynnydd ofyn beth y mae'r dysgwyr wedi'i ddeall, yn ogystal â pha mor gywir y maent wedi darllen yn uchel.

Gall y cyfatebiaethau cyffredin yn **Nhabl 2** (gweler uchod) fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio. Mae angen hefyd addysgu'n benodol y gwahaniaethau rhwng y llythrennau sy'n cynrychioli seiniau gwahanol yn y ddwy iaith. Bydd seiniau sy'n benodol i'r Gymraeg, megis /ll/, /ch/ ac /rh/, yn newydd i'r dysgwyr hyn, felly mae angen eu modelu'n uniongyrchol a rhoi cyfleoedd i'w hymarfer. Mae hefyd yn ddefnyddiol egluro i ddysgwyr beth i'w ddisgwyl gan god y Gymraeg. Ar ôl iddynt ddysgu cyfatebiaeth, bydd bron bob amser yn cynrychioli'r un sain, felly dylent ddatblygu cywirdeb wrth ddadgodio yn gyflym.

Ceisiwch osgoi:

- Trin darllen Cymraeg fel dadgodio yn unig, gyda chynnydd yn cael ei farnu yn ôl cywirdeb darllen yn uchel yn unig.
- Gadael geirfa Gymraeg a dealltwriaeth lafar y dysgwyr i gysylltiad achlysurol.
- Defnyddio testunau Cymraeg y gall dysgwyr eu dadgodio ond na allant eu deall.
- Tybio bod arferion darllen Saesneg yn trosglwyddo yn rhwydd i'r Gymraeg.

Testunau Ymarfer Dadgodio a Darllen yn Ehangach

Mae llyfrau y gellir eu dadgodio yn aml yn dod fel rhan o raglen ffoneg ac maent wedi'u cynllunio fel y gellir darllen y rhan fwyaf o'r geiriau gan ddefnyddio'r cyfatebiaethau graffem-ffonem (CGFfau) y mae dysgwyr wedi'u dysgu. Eu diben yw cynyddu'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn cymhwyso dadgodio yn llwyddiannus, oherwydd bod y testun yn galw i raddau helaeth am ddefnyddio'r cod a addysgwyd. Mae hefyd yn rhoi profiad o lwyddo i ddysgwyr, sy'n arwain at ddatblygu hyder a chynyddu cymhelliant. Mae hyn yn cadarnhau'r dysgu ac yn lleihau dibyniaeth ar ddyfalu.

Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth ymchwil yn dangos mai dibynnu ar destunau y gellir eu dadgodio yn unig yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymarfer ffoneg, gan gynnwys i ddysgwyr ag anawsterau darllen (Price-Mohr a Price, 2018). Canfu meta-ddadansoddiad diweddar o astudiaethau testunau y gellir eu dadgodio (Odo, 2024) fod ymarfer â thestunau o'r fath wedi cael effaith gymedrol ar allu dysgwyr i seinio geiriau ffug, ac effaith llai ar eu darllen geiriau go iawn. Ni ellir adnabod geiriau ffug o'r cof, felly maent yn profi a all dysgwyr gymhwyso'r cod. Mewn geiriau eraill, mae testunau y gellir eu dadgodio yn gwella'r sgil y cawsant eu cynllunio i'w chryfhau, ond nid yw'r fantais honno yn trosglwyddo yn effeithiol i ddarllen yn gyffredinol. Felly daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid defnyddio testunau y gellir eu dadgodio ar y cyd â deunyddiau darllen eraill. Er bod y dystiolaeth hon wedi'i chyfyngu gan y ffordd y mae astudiaethau'n disgrifio'r testunau a ddefnyddiwyd, mae'n cefnogi dull cymysg.

Mae dysgwyr sy'n dysgu darllen yn y Gymraeg ac yn y Saesneg angen cyfleoedd penodol i ymarfer dadgodio yn y ddwy iaith. Mae testunau y gellir eu dadgodio sy'n cyd-fynd â'r cyfatebiaethau a addysgwyd yn darparu'r strwythur hwn. Ar yr un pryd, dylai dysgwyr brofi ystod eang o destunau o ansawdd uchel (gan gynnwys straeon a ffeithiol) trwy ddarllen yn uchel (lle mae oedolyn yn darllen yn uchel a dysgwyr yn gwrando) a darllen a rennir neu ddarllen gyda chymorth, fel bod dadgodio yn datblygu ochr yn ochr â geirfa, gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhelliant. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod amlygiad i destunau naratif a gwybodaeth yn ehangu datblygu geirfa.

Defnyddiwch destunau sy'n cyd-fynd â'r dysgu ac y gellir eu dadgodio ar gyfer ymarfer dadgodio annibynnol ochr yn ochr â rhoi mynediad i ddarllen ehangach gyda chymorth oedolyn. Mewn sesiynau darllen ar goedd, mae oedolion yn darllen a dysgwyr yn gwrando ac yn trafod syniadau. Gall oedolion fodelu cymalu a mynegiant ac egluro geirfa anghyfarwydd. Mewn darllen ar y cyd, mae'r oedolyn a'r dysgwyr yn edrych ar yr un testun, ac yn cynnwys modelu, a chyfranogiad dan arweiniad. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi mynediad i iaith a syniadau cyfoethocach na'r hyn y gall dysgwyr ei dadgodio yn annibynnol hyd yn hyn.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu egwyddor ehangach y dylai ffoneg eistedd o fewn cwricwlwm llythrennedd cydlynol, sy'n gyfoethog o ran iaith. Mae testunau y gellir eu dadgodio yn ddefnyddiol ar gyfer adeiladu'r cod, ond nid ydynt yn gwricwlwm darllen cyflawn ar eu pen eu hunain.

Awgrymiadau ymarferol:

- Dylid defnyddio testunau y gellir eu dadgodio ar gyfer ymarfer darllen annibynnol cynnar yn yr iaith y mae dysgwyr yn dysgu darllen ynddi, ochr yn ochr â chyfleoedd rheolaidd, gyda chymorth, i ddarllen testunau cyfoethocach er mwyn datblygu iaith, dealltwriaeth a mwynhad o ddarllen.
- Peidiwch â dibynnu ar destunau y gellir eu dadgodio yn unig. Ewch ati i ddarllen yn uchel, rhannu'r darllen neu ddarllen gyda chymorth yn rheolaidd gydag ystod eang o destunau Cymraeg a/neu Saesneg, gan gynnwys testunau naratif a gwybodaeth, i feithrin iaith, gwybodaeth a mwynhad.
- I ddysgwyr nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, rhowch fwy o gyfleoedd i ymarfer dadgodio cywir mewn testunau y gellir eu dadgodio (yn aml yn arbennig o bwysig yn y Saesneg), gan barhau i roi mynediad â chymorth at destunau cyfoethocach. Yn ymarferol, mae hyn yn aml yn golygu cadw testunau y gellir eu dadgodio yng nghanol ymarfer annibynnol, a'u cyfuno'n fwriadol gyda darllen â chymorth o destunau ehangach i gryfhau trosglwyddo, geirfa a chymhelliant.
- Rhowch gyfleoedd i ddewis llyfrau a rhannu darllen gyda chyfoedion, gan roi help i gael mynediad i destunau os bydd angen. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi ymgysylltu gyda darllen; maent yn cyfoethogi, yn hytrach na chymryd lle yr addysgu penodol y mae'r dysgwr dal ei angen.

Morffoleg

Wrth i wybodaeth dysgwyr dyfu, mae mwy o'r geiriau y maent yn dod ar eu traws yn gyfarwydd o ran perthynas sain-sillafu ond hefyd o ran morffoleg, sef gwybodaeth am rannau ystyrlon geiriau (megis gwreiddiau, rhagddodiaid ac ôlddodiaid) a sut maent yn cyfuno. Gall morffoleg fod yn rhan o addysgu ffoneg o'r cychwyn cyntaf. Er enghraifft, gall dysgwyr ddarllen a sillafu geiriau sy'n cynnwys terfyniadau gramadegol, megis -ydd ac -au yn y Gymraeg, a -s, -ing ac -ed yn y Saesneg. Wrth i'w gwybodaeth ddatblygu, gellir cyflwyno rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid cyffredin ac ailymweld â nhw.

Mae pwysigrwydd morffoleg yn tyfu wrth i ddysgwyr ddod ar draws geiriau hwy a mwy cymhleth mewn testunau, lle mae sillafu yn adlewyrchu ystyr a strwythur geiriau yn ogystal â sain, sy'n wir o'r cychwyn cynnar (e.e. mae'r terfyniad -ed yn y Saesneg yn cadw'r un sillafiad yn *kicked* a *landed*, er ei fod yn cael ei ynganu'n wahanol), a lle mae confensiynau sillafu yn pennu sut mae rhannau geiriau'n cysylltu. Yn y Gymraeg, mae sillafiadau'n aros yn agos at sain hyd yn oed mewn geiriau hwy, tra bod terfyniadau a threigladau yn cario llawer o'r gramadeg a'r ystyr.

Mae addysgu morffoleg yn arbennig o ddefnyddiol pan fo dysgwyr:

- Yn gallu dadgodio llawer o eiriau anghyfarwydd gan ddefnyddio eu gwybodaeth o gyfatebiaethau graffem-ffonem (CGFfau).
- Yn darllen geiriau hwy, morffolegol gymhleth sy'n gyffredin mewn meysydd cwricwlwm (e.e. gwyddoniaeth, hanes).
- Angen cymorth i wneud dewisiadau sillafu cywir ac ehangu geirfa yn effeithlon.

Integreiddio morffoleg

Dylid addysgu morffoleg yn benodol ac yn systematig, gan barhau i ymarfer arferion dadgodio ac amgodio. Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- Addysgu set bychan o forffemau a theuluoedd geiriau a ddefnyddir yn aml, yn eglur ac ailymweld ar draws cyd-destunau.

Mae enghreifftiau Saesneg o forffemau a ddefnyddir yn aml yn cynnwys:

Rhagddodiaid cyffredin:

- un- (nid): unhappy, unsafe
- re- (eto): rewrite, rebuild
- dis- (nid/gwrthwyneb): disconnect, disagree
- pre- (cyn): preview, preheat
- mis- (yn anghywir): mistake, misbehave

Ôlddodiaid cyffredin:

- -ed: jumped, helped
- -ing: running, playing
- -er / -est: smaller, fastest
- -ful / -less: helpful, hopeless
- -ion (a ysgrifennir yn aml fel tion, sion): information, discussion

Gwreiddiau a theuluoedd geiriau:

- act: action, active, react
- help: helpful, helpless
- move: movement, remove
- struct (adeiladu): structure, construct, instruction
- geo (daear): geography, geology
- graph (ysgrifennu): autograph

Mae enghreifftiau Cymraeg o forffemau a ddefnyddir yn aml yn cynnwys:

Rhagddodiaid cyffredin:

- an- (nid): anhapus, anaddas
- ail- (eto/ad-): ailddechrau, ailysgrifennu
- cam- (anghywir): camddeall

Ôlddodiaid cyffredin:

- -iad (ffurfio enw): adrodd ⟶ adroddiad, datblygu ⟶ datblygiad
- -ol (ansoddeiriol): cenedl ⟶ cenedlaethol, safon ⟶ safonol
- -wr / -ydd (enwau gweithredwr): dysg ⟶ dysgwr, amaeth ⟶ amaethydd

Gwreiddiau a theuluoedd geiriau:

- dysg- (dysgu): dysgu, dysgwr, addysg
- ysgrifen- (ysgrifennu): ysgrifennu, ysgrifennwr, ysgrifenedig
- cenedl-: cenedl, cenedlaethol, cenedlaetholdeb
- Cysylltu morffemau ag ynganiad, sillafiad ac ystyr. Er enghraifft trwy archwilio sut mae ychwanegu ôlddodiad neu ragddodiad yn newid ystyr neu rôl ramadegol gair, gan gadw ei sillafiad yn aml (e.e. dysg > dysgwr; help >helpful)

Defnyddio morffoleg i gefnogi penderfyniadau sillafu a geirfa'r cwricwlwm, megis:

- Deall sillafu cyson ar draws teuluoedd geiriau (e.e. datblygu > datblygiad; sign > signal).
- Gwneud dewisiadau sillafu gan ystyried y cyd-destun pan na ellir datrys geiriau trwy ffoneg yn unig.
- Cefnogi geirfa benodol i bynciau trwy wreiddiau ac ôlddodiaid cyffredin (e.e. cenedl, cenedlaethol; construct, construction).

Yn y Saesneg, mae morffoleg yn arbennig o bwysig ar gyfer datblygu sillafu a geirfa oherwydd bod llawer o sillafiadau yn cadw ystyr a strwythur geiriau yn ogystal ag adlewyrchu sain. Dyma hefyd pam nad yw rhai sillafiadau yn dilyn y cyfatebiaethau mwyaf cyffredin. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod addysgu morffoleg yn benodol yn gwella ymwybyddiaeth forffolegol a gall gefnogi cywirdeb sillafu a thwf geirfa, gydag effeithiau mwy amrywiol ond weithiau mwy cadarnhaol ar ddarllen geiriau a deall wrth ddarllen, yn enwedig ar frig yr ysgol gynradd ac yn yr ysgol uwchradd.

Yn y Gymraeg, gall y system sain-sillafu cymharol gyson arwain at allu dadgodio yn gywir yn gynharach. Fodd bynnag, mae dysgwyr yn dal i elwa o addysgu penodol sy'n eu helpu i ddeall sut mae rhannau geiriau a morffoleg ramadegol yn perthyn i ystyr a ffurfiau ysgrifenedig, gan gynnwys:

- Sut mae rhagddodiaid ac ôlddodiaid yn addasu ystyr.
- Sut mae teuluoedd geiriau yn cefnogi twf geirfa.
- Sut mae morffoleg ramadegol (e.e. ffurfdroadau) yn dangos ystyr a swyddogaeth mewn testun.

Er bod y dystiolaeth uniongyrchol ar gyfer addysgu morffoleg yn y Gymraeg yn fwy cyfyngedig ar hyn o bryd nag yn y Saesneg, mae addysgu penodol a phwrpasol ar strwythur geiriau yn werthfawr ac yn cyd-fynd â thystiolaeth o ieithoedd cyson neu dryloyw iawn eraill fel Sbaeneg, Almaeneg ac Eidaleg. Mae addysgu strwythur geiriau hefyd yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng darllen, ysgrifennu a lleferydd.

Ym mhob ysgol, mae'n ddefnyddiol gwneud cysylltiadau penodol a phwrpasol rhwng ieithoedd lle bo hynny'n briodol (er enghraifft, cysyniadau cyffredin), gan barhau i addysgu'r patrymau iaith-benodol y mae dysgwyr eu hangen ar gyfer darllen ac ysgrifennu cywir ym mhob iaith.

Morffoleg a datblygu darllen a sillafu

Mae rôl morffoleg mewn darllen ac ysgrifennu yn datblygu dros amser. Felly dylai addysgu fod wedi'i gynllunio, yn gronnol ac yn briodol i oedran, gan adeiladu ar wybodaeth gynyddol dysgwyr o ddadgodio, sillafu ac iaith. Efallai bod eich rhaglen ffoneg bresennol hefyd yn ymgorffori morffoleg. Fodd bynnag, isod, rydym yn darparu rhai dulliau a awgrymir ar gyfer blynyddoedd cynnar yr ysgol gynradd, blynyddoedd hŷn yr ysgol gynradd, a'r ysgol uwchradd, y gallech o bosibl eu cynnwys.

Dysgwyr 4-7 oed yn y Cynradd

Dylai'r ffocws ym mlynyddoedd cyntaf yr ysgol gynradd fod ar feithrin ymwybyddiaeth gynnar bod gan eiriau rannau ystyrlon. Ochr yn ochr â hynny dylid addysgu ffoneg systematig. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i ddeall y gellir adeiladu geiriau o unedau ystyrlon llai, yn ogystal â chefnogi sillafu, datblygu geirfa gynnar ac ymwybyddiaeth ramadegol heb orlwytho'r cof gweithio. Ar y cam hwn, mae morffoleg yn ategu ffoneg ond nid yw'n ei disodli. Y brif ffordd o ddarllen geiriau yw cymhwyso CGFfau o hyd.

Awgrymiadau ymarferol:

- Addysgwch yn benodol ac ar lafar nifer bach o derfyniadau gramadegol cyffredin (e.e. terfyniadau lluosog a berfau yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol; -s, -ed, -ing yn Saesneg).
- Archwiliwch deuluoedd geiriau syml mewn cyd-destun (e.e. dysg, dysgu, dysgwr; help, helping, helped).
- Defnyddiwch weithgareddau llafar (didoli, curo dwylo, adeiladu geiriau ar lafar) ochr yn ochr â darllen ac ysgrifennu.
- Tynnwch sylw at newidiadau mewn ystyr, nid dim ond newidiadau mewn sillafu (e.e. fferm o gymharu â ffermwr; play o gymharu â played).
- Sicrhewch bod morffoleg wedi'i hymgorffori o fewn arferion darllen a sillafu, yn hytrach na'i haddysgu fel pwnc ar wahân.

Dysgwyr 7-11 oed yn y Cynradd

Dylai'r ffocws wrth ddefnyddio morffoleg yma fod ar ddatblygu cywirdeb sillafu, ehangu geirfa, a darllen geiriau hwy yn effeithlon. Dylech helpu dysgwyr i ddefnyddio strwythur morffolegol i ddarllen, sillafu a dysgu geiriau newydd a chefnogi'r pontio o strategaethau ffonolegol yn bennaf i strategaethau morffo-ffonolegol, yn enwedig yn y Saesneg. Ar y cam hwn, dylid addysgu morffoleg yn benodol ac yn gronnol, heb dybio ei bod yn datblygu'n ddamweiniol trwy ddarllen yn unig.

Awgrymiadau ymarferol:

- Addysgwch y rhagddodiaid a'r ôlddodiaid a ddefnyddir yn aml yn eglur, gan ailymweld ar draws meysydd cwricwlwm:
  - Yn y Gymraeg: an- (nid), ail- (eto/ad-), cam-anghywir), rhag- (cyn); -iad (ffurfio enw), -ol (ansoddeiriol), -og (disgrifiadol), -wr / -ydd (enwau sy'n cyfleu pwy sy'n gweithredu).
  - Yn y Saesneg: un- (nid), re- (eto), dis- (gwrthwyneb/nid), pre- (cyn); -tion, -ment, -ful.
- Addysgwch wreiddiau Lladin a Groeg sy'n digwydd yn aml, a sut mae'r un gwreiddyn yn ailymddangos mewn nifer o feysydd cwricwlwm (e.e. struct: structure, construct; geo: geography, geology; graph: autograph, paragraph).
- Adeiladwch deuluoedd geiriau o amgylch geirfa'r cwricwlwm. Grwpiau o eiriau yw teuluoedd geiriau sy'n rhannu ffurf sylfaenol a phrif ystyr (e.e. cenedl, cenedlaethol; construct, construction, reconstruct). Mae gweld y gwreiddyn cyffredin yn helpu dysgwyr i ddarllen, sillafu a deall y teulu cyfan.
- Defnyddiwch forffoleg i helpu sillafu, yn enwedig lle nad yw ffoneg yn unig yn ddigonol.
- Anogwch ddysgwyr i ddadansoddi geiriau anghyfarwydd trwy adnabod morffemau cyfarwydd wrth ddarllen.
- Mewn cyd-destunau dwyieithog, gwnewch gysylltiadau penodol rhwng ieithoedd lle bo'n ddefnyddiol (e.e. cysyniadau a phatrymau gramadegol cyffredin), gan addysgu patrymau iaith-benodol yn eglur.

Uwchradd

Dylai'r ffocws yn y blynyddoedd ysgol diweddarach fod ar ddefnyddio morffoleg fel offeryn ar gyfer llythrennedd disgyblaethol, geirfa academaidd, a dysgu geiriau yn annibynnol. Dylai morffoleg helpu dysgwyr i ddeall a dysgu geirfa benodol i bynciau, gan roi mynediad at ystyr trwy wreiddyn y gair. Bydd gwybodaeth forffolegol yn galluogi darllen a sillafu geiriau na ddefnyddir yn aml, ac sy'n forffolegol gymhleth yn fwy effeithlon, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng ystyr geiriau, sillafu a gramadeg. Mae addysgu morffoleg ar y cam hwn yn gallu helpu dysgwyr na fyddant efallai yn caffael geirfa academaidd yn ddamweiniol trwy ddarllen y tu allan i'r ysgol. Mae astudio geiriau ym mhob maes cwricwlwm yn perthyn i'r meysydd cwricwlwm hynny yn hytrach nag i wersi Saesneg a Chymraeg yn unig, gyda chefnogaeth cytundeb ysgol gyfan ynghylch y termau y mae athrawon yn eu defnyddio.

Awgrymiadau ymarferol:

- Addysgwch forffoleg fel rhan o'r gwaith o addysgu geirfa ar draws pynciau (e.e. photosynthesis = photo + synthesis mewn gwyddoniaeth; geography = geo + graph + y; prehistoric = pre + histor + ic mewn hanes).
- Amlygwch wreiddyn geiriau, rhagddodiaid ac ôlddodiaid cyffredin ar draws geirfa academaidd (e.e. yn Gymraeg: bio-, geo-, traws-, -oleg; yn Saesneg: bio-, geo-, trans-, -ology).
- Addysgwch y dysgwyr i dorri gair anghyfarwydd yn rhannau ystyrlon, defnyddio'r rhannau hynny i ynganu'r gair ac i ganfod yr ystyr, ac yna gwirio bod y gair yn gwneud synnwyr yn y frawddeg (e.e. ailadrodd: ail + adrodd; reconstruction: re + construct + ion). Dadansoddi morffolegol yw hyn, ac mae'n rhoi ffordd ddibynadwy i ddysgwyr ddeall geiriau hir yn nhestunau'r cwricwlwm. Gellir addysgu ffurf syml o hyn o ddechrau'r ysgol gynradd ymlaen, nid yn yr ysgol uwchradd yn unig.
- Cefnogwch gywirdeb sillafu ac ysgrifennu trwy gysylltu morffoleg â dosbarth geiriau, ystyr a strwythur brawddegau.
- Defnyddiwch sesiynau addysgu byr, eglur yn hytrach na thybio y bydd dysgwyr yn deall patrymau yn annibynnol.

Datblygu Ffoneg ar draws Cyfnodau'r Ysgol

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos cynllunio ar draws cyfnodau eang ysgol. Nid camau cynnydd y Cwricwlwm i Gymru ydynt, nac ychwaith trothwyau cyrhaeddiad penodol na system i gymryd lle'r canllaw cenedlaethol ar gynnydd. Efallai y bydd dysgwyr angen cynnwys o fwy nag un cymal. Symudwch y dysgwyr ymlaen os byddant yn dangos dysgu cadarn, a pharhewch i roi cefnogaeth benodol lle bo'r angen hynny.

Tabl 3: Meithrin (fel arfer 3-4 oed)

Iaith lafar, straeon, caneuon a sylw trwy chwarae i seiniau lleferydd ar y cyd gyda chyflwyniadau ystyrlon i brint a chysylltu cynnar rhwng seiniau a llythrennau. Nid yw'r profiadau hyn yn golygu bod y dysgwyr yn barod ar gyfer FfSS.

CANOLBWYNT	ENGHREIFFTIAU O ADDYSGU A DYSGU
Sylfeini cryf mewn seiniau lleferydd	» Gwrando'n astud ar seiniau amgylcheddol, offerynnol a lleisiol a gwahaniaethu rhyngddynt. » Adnabod a chyfateb seiniau i'w ffynhonnell (e.e. dyfalu seiniau cudd). » Archwilio seiniau'r llais (cryf/tawel, uchel/isel, hir/byr) trwy weithgareddau chwarae. » Adnabod a chynhyrchu odl mewn caneuon, straeon a gemau llafar. » Curo dwylo, tapio, neu symud i rythm a sillafau geiriau cyfarwydd.
Ymwybyddiaeth ffonemig gynnar	» Adnabod y sain cychwynnol mewn geiriau llafar (e.e. "Gyda pha sain mae'r gair *mop* yn dechrau?"). » Adnabod seiniau terfynol mewn geiriau llafar. » Clywed a dweud sain cyntaf gair a chyfateb geiriau â'r un sain cychwynnol (cyflythrennu). » Tynnu sylw at ffonemau unigol mewn geiriau cyfarwydd a'u cysylltu gyda llythrennau lle bo'n briodol, er enghraifft, y tri ffonem yn y Saesneg *cat* a <c> <a> <t>, neu'r sain a gynrychiolir gan y <th> yn *thin*. » Defnyddio modelau llafar syml, gwrthrychau a theils lllythrennau i helpu dysgwyr gysylltu ffonemau ar lafar gyda phrint; gan addasu eich cefnogaeth yn unol â'u hymatebion. » Nid yw gallu trin ffonemau llafar mwy cymhleth yn angenrhaid i ddysgu CGFfau neu ddechrau darllen geiriau.
Testunau	» Darllen yn uchel a rhannu llyfrau bob dydd, wedi'u dewis oherwydd eu hiaith a'u mwynhad. » Siarad am lyfrau: geiriau newydd, syniadau ac iaith stori, yn iaith/ieithoedd y lleoliad. » Adeiladu'r iaith lafar y bydd dadgodio'n cysylltu â hi'n ddiweddarach (gweler Mathau o destun).

Tabl 4:
Derbyn a dechrau'r cynradd (fel arfer 4-7 oed)

FfSS mewn dilyniant cronnol, trefnus, gan gyfuno a segmentu cysylltiedig â phrint yn ddyddiol, darllen testun cysylltiedig, a sillafu a llawysgrifen cynnar. Addysgwch ffurfdroadau cyffredin a rhannau geiriau wrth iddynt ddod yn ddefnyddiol. Mae iaith lafar, geirfa, dealltwriaeth a darllen ehangach yn datblygu ochr yn ochr gyda'r addysgu hwn.

CANOLBWYNT	ENGHREIFFTIAU O ADDYSGU A DYSGU
Addysgu systematig o'r cod alffabetig	» Addysgu cyfatebiaethau graffem–ffonem newydd mewn trefn a dilyniant. » Bob dydd, ailymweld ac adolygu cyfatebiaethau a addysgwyd yn flaenorol. » Addysgu sillafiadau amgen ar gyfer ffonemau hysbys (e.e. /ai/ – <ai>, <ay>, <a-e>). » Addysgu ynganiadau amgen o graffemau hysbys (e.e. <ow> yn *snow* ac yn *cow*). » Modelu'n eglur sut i gymhwyso cyfatebiaethau hysbys wrth ddarllen a sillafu. » Ymarfer adnabod graffemau a addysgwyd yn awtomatig.
Cyfuno a segmentu dyddiol	» Darllen a sillafu geiriau syml o CGFfau a addysgwyd, yna ymestyn i eiriau sydd â chytseiniaid o boptu, cyfatebiaethau gwahanol a strwythurau mwy cymhleth wrth i wybodaeth y dysgwyr dyfu. » Segmentu geiriau yn ffonemau i'w sillafu gan ddefnyddio botymau sain, bysedd neu fframiau ffonemau. » Cyfuno a segmentu geiriau gyda chytseiniaid cyfagos. » Cyfuno a segmentu geiriau sy'n cynnwys deugraffau a thrigraffau (sillafiadau dwy a thair llythyren o un sain, fel <ch> ac <igh>. Yn Saesneg, mae'r deugraffau cytsain mwyaf cyffredin fel arfer yn cael eu haddysgu ymhlith y cyfatebiaethau cyntaf). » Datblygu rhuglder trwy arferion ymarfer byr, dyddiol, cronnol.
Testunau	» Darllen brawddegau y gellir eu dadgodio yn llawn sy'n cyfateb i'r cyfatebiaethau a addysgwyd. » Darllen llyfrau byr y gellir eu dadgodio sy'n cyd-fynd â'r dilyniant a addysgwyd. » Ailddarllen testunau y gellir eu dadgodio i feithrin cywirdeb, rhuglder a mynegiant. » Dangos dealltwriaeth o destunau y gellir eu dadgodio trwy drafodaeth a chwestiynau adalw syml. » Yn annibynnol, cymhwyso'r wybodaeth cod a addysgwyd tra'n darllen testun cysylltiedig. » Bob dydd, parhau i ddarllen yn uchel a rhannu darllen testunau naratif a gwybodaeth amrywiol uwchlaw lefel dadgodio annibynnol y dysgwyr.
Arferion sillafu a thrawsgrifio cynnar	» Sillafu geiriau gan ddefnyddio cyfatebiaethau graffem–ffonem a addysgwyd. » Ysgrifennu brawddegau syml trwy arddweud sy'n cynnwys patrymau a addysgwyd. » Defnyddio fframiau ffonemau (blychau gydag un lle ar gyfer pob sain mewn gair) neu strategaethau segmentu yn annibynnol. » Datblygu ffurfio llythrennau a chyfeiriadedd cywir. » Gadael bylchau rhwng geiriau mewn brawddegau syml. » Dechrau cymhwyso atalnodi syml (priflythrennau ac atalnod llawn). » Addysgu geiriau eithriad cyffredin yn y Saesneg ar gyfer darllen a sillafu, gan roi sylw i'r rhannau y gellir eu dadgodio.
Adeiladu gwybodaeth forffolegol	» Cydnabod bod rhai geiriau wedi'u gwneud o rannau ystyrlon llai. » Ychwanegu ôlddodiad ffurfdroadol cyffredin (e.e. yn y Gymraeg: -au, -ydd, -odd; yn y Saesneg: -s, -es, -ing, -ed) at eiriau sylfaen. » Deall sut gall ychwanegu neu newid ôlddodiad newid ystyr (e.e. canu > canodd; jump > jumped). » Edrych ar gyfansoddeiriau syml ac adnabod eu rhannau (e.e. pen + gwyn; snow + man). » Sylwi ar ragddodiaid cyffredin mewn geiriau a ddefnyddir yn aml (e.e. un- yn *un*do; an- yn *an*hapus). » Deall sut mae rhagddodiaid ac ôlddodiaid cyffredin yn dylanwadu ar ynganiad geiriau wrth ddarllen. » Wrth i'r dysgu ddod yn fwy cadarn, defnyddio rhagddodiaid, ôlddodiaid a geiriau sylfaen cyffredin i ddarllen geiriau anghyfarwydd, gan adnabod teuluoedd geiriau sy'n rhannu gair sylfaen (e.e. iach, iech*yd*, *af*iach; help, help*ful, un*help*ful*).

Tabl 5: Blynyddoedd hŷn y cynradd (fel arfer 7-11 oed)

Atgyfnerthu unrhyw wybodaeth cod sy'n weddill ac ymestyn rhuglder, sillafu, morffoleg, geirfa a dealltwriaeth. Addysgu cyfatebiaethau penodol i'r Saesneg lle bydd llythrennedd Saesneg yn cael ei gyflwyno mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Lleihau addysgu ffoneg penodol ar gyfer dysgwyr sy'n dadgodio'n rhugl a darparu cefnogaeth benodol i ddysgwyr sydd yn parhau i fod angen cymorth.

CANOLBWYNT	ENGHREIFFTIAU O ADDYSGU A DYSGU
Cadarnhau ac ymestyn (strwythurau geiriau mwy cymhleth)	» Cymhwyso yn annibynnol y strategaethau a addysgwyd, yn gywir a heb anogaeth oedolyn. » Darllen a sillafu geiriau sydd â chytseiniaid cyfagos mewn cyfuniadau hirach (e.e. yn y Gymraeg: str-, pl-, tr-; yn y Saesneg: spl-, -mpst). » Darllen a sillafu geiriau aml-sillafog trwy eu darnio'n sillafau. » Cyfuno a segmentu geiriau hirach sy'n cynnwys mwy nag un morffem. » Darllen a sillafu geiriau sydd â dewis graffem llai cyffredin. » Cymhwyso gwybodaeth o sillafiadau ac ynganiadau amgen mewn geiriau anghyfarwydd.
Mwy o feithrin arfer awtomatig a rhuglder	» Darllen testunau y gellir eu dadgodio ac yna destunau ehangach yn gywir gan betruso llai a llai. » Adnabod geiriau a addysgwyd yn flaenorol yn awtomatig heb seinio amlwg. » Darllen â chyflymder, ymadroddi a mynegiant priodol. » Dangos stamina wrth ddarllen darnau hirach. » Cymhwyso strategaethau cyfuno a segmentu yn effeithlon ac yn annibynnol.
Confensiynau sillafu	» Cymhwyso rheolau sillafu morffolegol cyffredin wrth ychwanegu ôlddodiaid (e.e. yn y Gymraeg: dewis rhwng <y> ac <u> mewn patrymau sillafu a chymhwyso'r sillafiad cywir ar gyfer patrymau treiglo; yn y Saesneg: dyblu cytseiniaid, gollwng <e>, newid <y> i <i>). » Dewis graffemau priodol ar gyfer ffonemau mewn gwahanol safleoedd mewn gair (e.e. yn y Saesneg defnyddir <oi> ac <ai> y tu mewn i eiriau, <oy> ac <ay> ar y diwedd). » Sillafu geiriau eithriad cyffredin yn gywir. » Golygu a chywiro sillafu yn annibynnol. » Atalnodi a rhannu brawddegau yn gywir yn gyson.
Ymestyn morffoleg	» Adnabod geiriau gwraidd (y sylfaen sy'n cario'r ystyr craidd) o fewn geiriau hirach. » Ailymweld a chymhwyso'r rhagddodiaid a'r ôlddodiad cyffredin a addysgwyd yn gynharach (e.e. yn y Gymraeg: an-, ail-, cam-, -iad, -ol, -og, -wr / -ydd; yn y Saesneg: un-, re-, dis-, -ment, -ness, -ful, -less) » Deall a chymhwyso rhagddodiaid ac ôlddodiad llai cyffredin, a'r berthynas rhwng geiriau gwraidd a ffurfiau sy'n deillio ohonynt. » Dysgu gwreiddiau Groeg a Lladin cyffredin a sut maent yn cefnogi darllen a sillafu geirfa academaidd a chwricwlwm. » Egluro sut mae rhagddodiaid ac ôlddodiad yn newid ystyr. » Defnyddio gwybodaeth forffolegol i gefnogi sillafu geiriau anghyfarwydd. » Archwilio perthynas rhwng geiriau sy'n rhannu tarddiad cyffredin (geirdarddiad/etymoleg), a chyfuno ffoneg, gwybodaeth orgraffyddol a morffoleg wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd.
Testunau	» Wrth i ddadgodio ddatblygu a chryfhau, mae darllen annibynnol yn ehangu a dylid dileu testunau y gellir eu dadgodio yn raddol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. » Parhau i ddarllen yn uchel a rhannu testunau dosbarth er mwyn ymestyn geirfa a gwybodaeth y tu hwnt i'r hyn y mae dysgwyr yn ei ddarllen yn annibynnol. » Darllen er mwyn yr ystyr ac er pleser ar draws testunau naratif a gwybodaeth gyda thrafodaeth sy'n meithrin dealltwriaeth.

Tabl 6:
Blynyddoedd cynnar yr uwchradd (fel arfer 11-14 oed):

Asesu'r anghenion sy'n parhau ynghylch darllen geiriau a darparu addysgu penodol pan fo'r angen. Datblygu rhuglder, geirfa, dealltwriaeth a gofynion darllen ac ysgrifennu meysydd cwricwlwm. Gall astudio geiriau gynnwys geiriau aml-sillafog a morffoleg heb ailadrodd cynnwys ffoneg sydd eisoes yn gadarn.

CANOL BWYNT	ENGHREIFFTIAU O ADDYSGU A DYSGU
Cymorth cyflymach i unrhyw ddysgwyr sy'n dal i ddatblygu dadgodio a rhuglder cadarn	» Clustnodi dysgwyr sydd yn parhau i fod angen cymorth gyda dadgodio cywir a rhugl. » Darparu addysgu penodol, dwys i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth graffem-ffonem. » Ailymweld gyda chyfatebiaethau cod alffabetig allweddol lle bo'r angen. » Ymarfer cyfuno a segmentu i gynyddu cywirdeb darllen. » Datblygu rhuglder darllen trwy ddarllen dro ar ôl tro ac ymarfer dan arweiniad. » Monitro cynnydd yn ofalus ac addasu cymorth ar sail asesu.
Addysgu penodol ar ddarllen geiriau aml-sillafog	» Addysgu dysgwyr i dorri geiriau hirach yn sillafau neu rannau i hwyluso dadgodio. » Ymarfer darllen geiriau aml-sillafog sy'n gyffredin mewn testunau pwnc. » Adnabod patrymau llafariaid a ffiniau sillafau o fewn geiriau hirach. » Cyfuno sillafau i ddarllen geiriau cymhleth yn gywir. » Cymhwyso strategaethau dadgodio yn annibynnol wrth ddod ar draws geiriau hirach anghyfarwydd. » Darllen geirfa hirach a mwy cymhleth yn hyderus.
Morffoleg a geirfa ar gyfer testunau cwricwlwm	» Adnabod gwreiddiau, rhagddodiaid ac ôlddodiad mewn geirfa benodol i bynciau. » Deall sut mae rhagddodiaid ac ôlddodiad yn newid ystyr geiriau. » Archwilio teuluoedd geiriau sy'n gysylltiedig â thermau allweddol y cwricwlwm. » Defnyddio gwybodaeth o forffoleg i gasglu ystyr geiriau anghyfarwydd. » Dysgu ac ymarfer geirfa a geir yn gyffredin mewn testunau cwricwlwm. » Cymhwyso gwybodaeth forffolegol i gefnogi darllen a sillafu geirfa academaidd. » Defnyddio gwybodaeth o darddiad geiriau (geirdarddiad), gan gynnwys geiriau benthyg, i ganfod ystyr termau anghyfarwydd. » Cydnabod sut gall ffurfiau geiriau technegol fod yn wahanol i ddefnydd bob dydd o eiriau cysylltiedig. » Yn y Gymraeg, adnabod a chymhwyso patrymau treiglo cyffredin wrth ddarllen a sillafu geiriau academaidd.

Tabl 7:
Blynyddoedd hŷn yr uwchradd (fel arfer 14-16 oed)

Datblygu llythrennedd disgyblaethol, gan gynnwys geirfa academaidd, morffoleg, sillafu a gwreiddiau geiriau lle bo hynny'n ddefnyddiol. Darparu cyfarwyddyd cod penodol dim ond os bydd asesu yn clustnodi bylchau cyson yn y dadgodio neu sillafu.

CANOL BWYNT	ENGHREIFFTIAU O ADDYSGU A DYSGU
Astudio geiriau parhaus ar gyfer llythrennedd disgyblaethol	» Datblygu dealltwriaeth o forffoleg o fewn geirfa benodol i bynciau. » Dadansoddi gwreiddiau, rhagddodiaid ac ôlddodiad mewn geiriau academaidd cymhleth. » Cydnabod sut mae patrymau morffolegol yn cefnogi ystyr ar draws teuluoedd geiriau cysylltiedig. » Cymhwyso gwybodaeth forffolegol i ddehongli geiriau anghyfarwydd mewn testunau pwnc. » Defnyddio strwythur geiriau i gefnogi sillafu geirfa gymhleth yn gywir.
Ymyrraeth benodol i ddysgwyr sydd ag anghenion dadgodio neu sillafu parhaus	» Darparu ymyrraeth fanwl i ddysgwyr sy'n parhau i gael anawsterau gyda dadgodio. » Ailedrych ar gyfatebiaethau graffem-ffonem lle mae bylchau yn parhau. » Cefnogi sillafu cywir trwy addysgu patrymau ffonolegol, morffolegol ac orgraffyddol yn benodol. » Datblygu rhuglder a hyder trwy ymarfer darllen strwythuredig. » Monitro cynnydd trwy asesu rheolaidd ac addasu cymorth yn unol â hynny.

Darllen Ychwanegol

Bowers, P. N., Kirby, J. R., & Deacon, S. H. (2010). The effects of morphological instruction on literacy skills: A systematic review of the literature. Review of Educational Research, 80(2), 144-179. https://doi.org/10.3102/0034654309359353

Carlisle, J. F. (2000). Awareness of the structure and meaning of morphologically complex words: Impact on reading. Reading and Writing, 12, 169-190. https://doi.org/10.1023/A:1008131926604

Colenbrander, D., von Hagen, A., Kohnen, S., Wegener, S., Ko, K., Beyersmann, E., Behzadnia, A., Parrila, R., & Castles, A. (2024). The effects of morphological instruction on literacy outcomes for children in English-speaking countries: A systematic review and meta-analysis. Educational Psychology Review, 36(4), 119. https://doi.org/10.1007/s10648-024-09953-3

Cummins, J. (1979). Linguistic interdependence and the educational development of bilingual children. Review of Educational Research, 49(2), 222-251. https://doi.org/10.3102/00346543049002222

Duke, N. K. (2000). 3.6 minutes per day: The scarcity of informational texts in first grade. Reading Research Quarterly, 35(2), 202-224. https://doi.org/10.1598/RRQ.35.2.1

Goodwin, A. P., & Ahn, S. (2010). A meta-analysis of morphological interventions: Effects on literacy achievement of children with literacy difficulties. Annals of dyslexia, 60(2), 183-208. https://doi.org/10.1007/s11881-010-0041-x

Jones, M., Evans-Jones, G., Huws, T., Clark, C., Hulme, C., & Downing, C. (2026). Cross-language transfer in bilingual children with reading difficulties: Effects of a literacy intervention on word reading. Reading and Writing. https://doi.org/10.1007/s11145-026-10795-4

Melby-Lervåg, M., & Lervåg, A. (2011). Cross-linguistic transfer of oral language, decoding, phonological awareness and reading comprehension: A meta-analysis of the correlational evidence. Journal of Research in Reading, 34(1), 114-135. https://doi.org/10.1111/j.1467-9817.2010.01477.x

Nagy, W., Berninger, V., & Abbott, R. (2006). Contributions of morphology beyond phonology to literacy outcomes of upper elementary and middle school students. Journal of Educational Psychology, 98(1), 134-147. https://doi.org/10.1037/0022-0663.98.1.134

Odo, D. M., (2024). The use of decodable texts in the teaching of reading in children without reading disabilities: A meta-analysis. Literacy, 58(3), 267-277. https://doi.org/10.1111/lit.12368

Price-Mohr, R. M., & Price, C. B. (2018). Synthetic phonics and decodable instructional reading texts: How far do these support poor readers? Dyslexia, 24(2), 190-196. https://doi.org/10.1002/dys.1581

Slavin, R. E., Lake, C., Chambers, B., Cheung, A., & Davis, S. (2009). Effective reading programs for the elementary grades: A best-evidence synthesis. Review of Educational Research, 79(4), 1391-1466. https://doi.org/10.3102/0034654309341374

Tunmer, W. E., & Chapman, J. W. (2012). The simple view of reading redux: Vocabulary knowledge and the independent components hypothesis. Journal of Learning Disabilities, 45(5), 453-466. https://doi.org/10.1177/0022219411432685

Vousden, J. I., Ellefson, M. R., Solity, J., & Chater, N. (2011). Simplifying reading: Applying the simplicity principle to reading. Cognitive Science, 35(1), 34-78. https://doi.org/10.1111/j.1551-6709.2010.01134.x

04

Adran 4: Addysgu ffoneg o ansawdd uchel

Mae'r adran hon yn cynnwys nodweddion craidd addysgu FfSS effeithiol ac yn rhoi canllaw ymarferol ar ddulliau ac arferion dosbarth, asesu yn ogystal â dewis a defnyddio rhaglenni ac adnoddau ffoneg.

Addysgu ffoneg o ansawdd uchel

Nodweddion addysgu ffoneg FfSS effeithiol

Gall ysgolion ddefnyddio gwahanol raglenni ac adnoddau FfSS[1], ond mae'r nodweddion cyffredin isod yn perthyn i addysgu ffoneg o ansawdd uchel. Mae ymchwil yn cefnogi ffoneg systematig fel dull cyfarwyddyd. Mae ymchwil pellach mewn dysgu hefyd yn bwydo penderfyniadau ymarferol am fodelu, ymarfer ac adolygu. Nid yw pob nodwedd neu drefn a awgrymir wedi cael eu profi yn unigol mewn treialon trylwyr.

01. Addysgu systematig

Mae FfSS yn fwriadol, yn ddilynol ac yn gronnol. Golyga hyn bod addysgu yn drefnus fel bod dysgwyr yn dysgu'r cod mewn camau bychain, yn ei ymarfer yn ddigonol i fod yn hyderus, ac yna yn ei gadw dros amser nes y daw cyfnod adolygu.

02. Dilyn cwmpas a threfn gronnol glir

Dylai addysgu gyflwyno deunydd dysgu newydd mewn camau hylaw, gan ailymweld a chadarnhau dysgu blaenorol, a symud o CGFfau a strwythurau geiriau symlach i rai mwy cymhleth. Yr hyn sy'n hanfodol yw bod yr addysgu yn eglur, wedi'i gynllunio yn dda, yn gronnol, ac wedi'i gyflwyno yn effeithiol.

Enghraifft (nid trefn orfodol):

- **CGFfau:** Dechreuwch gyda set graidd o gyfatebiaethau cyffredin a chyflwynwch grwpiau llythrennau a phatrymau ychwanegol yn raddol (e.e. deugraffau/trigraffau), ac yn y Saesneg sillafiadau ac ynganiadau amgen wrth i wybodaeth y dysgwyr dyfu.
- **Strwythurau geiriau:** Symudwch o eiriau CLIC syml (e.e. *sat, pin*) i eiriau â chlystyrau cytseiniaid (e.e. *stop, clap*), yna i eiriau hirach (gan gynnwys geiriau deusill) a phatrymau sillafu mwy cymhleth.
- **Sillafu:** Addysgwch segmentu a sillafu gyda CGFfau a addysgwyd o'r cychwyn cyntaf, yna ehangwch i sillafiadau amgen a chonfensiynau sillafu dros amser.

Ceisiwch ddatblygu ymwybyddiaeth ffonemig ar y cyd gyda CGFfau wrth ddechrau addysgu FfSS. Mae dysgwyr yn clywed, cyfuno a segmentu ffonemau tra'n dysgu sut maent yn cael eu cynrychioli mewn print. Mae ymwybyddiaeth ar lefel ffonem yn hynod o bwysig ar gyfer dadgodio a sillafu gan ddefnyddio'r cod alffabetig. Mae gwaith ehangach gydag odl, sillafau, caneuon a siarad yn parhau yn werthfawr o fewn darpariaeth iaith lafar. Nid oes raid i ddysgwyr gwblhau'r cyfnod hwn cyn cael eu cyflwyno i waith cod.

Sicrhewch gydlyniad ar draws y Gymraeg a'r Saesneg lle mae dysgwyr yn datblygu llythrennedd dwyieithog. Pan fo dysgwyr yn dysgu darllen a sillafu yn y ddwy iaith, cynlluniwch y ddwy gyda'i gilydd fel bod cysylltiad rhyngddynt; peidiwch â'u haddysgu ar wahân na gadael y berthynas rhyngddynt i siawns. Yn ymarferol mae hyn yn golygu:

- **Cydlyniad.** Dylai addysgu yn y ddwy iaith gyd-fynd â'i gilydd a gwneud synnwyr fel cyfanwaith. Ni ddylai dysgwyr brofi'r Gymraeg a'r Saesneg fel dwy system hollol ar wahân, a lle bo modd, dylai'r dysgu mewn un iaith gefnogi ac atgyfnerthu'r dysgu yn y llall.
- **Cwmpas a threfn glir ar gyfer pob iaith.** Penderfynwch pa CGFfau a phatrymau sillafu a addysgir yn gyntaf, nesaf ac yn ddiweddarach, yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, fel bod y drefn ym mhob iaith wedi'i chynllunio yn hytrach na'i gadael i siawns.
- **Tebygrwydd a gwahaniaethau eglur.** Dangoswch lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn defnyddio'r un cyfatebiaethau neu rai cyffelyb a lle maent yn wahanol. Gan amlaf, mae modd rhagweld y Gymraeg ond gall rhai graffemau amrywio yn ôl safle neu dafodiaith tra bod gan y Saesneg fwy o sillafiadau ac ynganiadau gwahanol.

Dylai deunyddiau ymarfer yn y ddwy iaith gyfateb i'r cyfatebiaethau y mae dysgwyr eisoes wedi'u dysgu yn yr iaith honno. Dylai'r gwaith darllen a sillafu annibynnol gyd-fynd â'r cynnwys a addysgwyd. Ni ddylid disgwyl i ddysgwyr ddarllen na sillafu patrymau yn annibynnol cyn iddynt gael eu haddysgu'n eglur a'u hymarfer (ac eithrio set fach o eiriau eithriad cyffredin neu 'anodd' a addysgwyd yn Saesneg). Mae Mathau o Destun yn Adran 3 yn cyflwyno'r dystiolaeth ar destunau y gellir eu dadgodio, a thestunau eraill, a sut i'w cyfuno. Ar yr un pryd, dylai dysgwyr barhau i brofi iaith gyfoethog ac ystod eang o destunau trwy wrando, darllen yn uchel, a rhannu darllen, hyd yn oed pan fydd y rhain yn cynnwys patrymau nad ydynt wedi'u meistroli eto.

03. Defnyddio cyfarwyddiadau manwl

Mae addysgu ffoneg o ansawdd uchel yn eglur a manwl. Mae'r athro yn egluro nod y dysgu a'r meini prawf llwyddiant yn fanwl, ac yn sicrhau bod dysgwyr yn ymarfer gyda llawer iawn o gymorth cyn symud i waith annibynnol.

Mae cyfarwyddiadau manwl fel arfer yn cynnwys:

- Esboniad clir ("Heddiw rydym yn dysgu...", "Mae'r graffem hwn yn cynrychioli... oherwydd...").
- Modelu gan yr athro (meddwl yn uchel, dangos cyfuno/segmentu).
- Ymarfer dan arweiniad gydag adborth (ymatebion dosbarth cyfan, ymarfer mewn parau, byrddau gwyn).
- Ymarfer annibynnol dim ond pan fydd dysgwyr yn barod. Mae ymarfer annibynnol ar gynnwys a addysgwyd ar ôl modelu ac ymarfer gyda chymorth yn dangos bod dysgwyr yn llwyddo i fod yn gywir; parhewch i roi adborth a chefnogaeth lle bo'r angen.

04. Adolygu ysbeidiol

Mae adalw yn golygu cofio beth sydd wedi cael ei addysgu heb gael gweld yr ateb ymlaen llaw. Er enghraifft, dweud y ffonem am graffem a ddangosir, neu ysgrifennu graffem am ffonem llafar. Rhowch adborth yn syth a modelu eto os oes angen. Dengys ymchwil ar ddysgu bod rhoi bwlch rhwng ymarfer yn helpu cadw'r wybodaeth (Cepeda et al., 2006). Fodd bynnag, mae'n debygol bod dysgu ffoneg yn cael ei atgyfnerthu pan fydd dysgwyr yn rheolaidd yn adalw cynnwys a addysgwyd yn flaenorol, yn hytrach na thrwy dim ond ailddarllen neu gael ei ail-addysgu a bod yr adalw hwnnw yn digwydd dros amser. Neilltuwch gyfleoedd byr, diogel ac anffurfiol bob dydd ar gyfer ffoneg ddyddiol yn y Gymraeg ac yn y Saesneg (yn unol â chyfrwng addysgu eich ysgol).

Enghreifftiau:

- Yn y Gymraeg: adalw'n gyflym gyfatebiaethau a addysgwyd yn ddiweddar a darllen/sillafu geiriau sy'n eu defnyddio.
- Yn y Saesneg: adalw'n gyflym ynghyd ag ymarfer gydag unrhyw sillafiadau/ynganiadau amgen a geiriau eithriad cyffredin a addysgwyd.

Adolygu rheolaidd

Mae adolygu rheolaidd neu adalw yn golygu dychwelyd i gynnwys a addysgwyd eisoes ar ôl bwlch amser. Gall adolygu cyflym dros gyfnod o amser helpu dysgwyr i gofio'r hyn a addysgwyd iddynt. Mewn ffoneg, golyga hyn ailymweld gyda chyfatebiaethau graffem-ffonem ac ymarfer eu defnyddio mewn darllen a sillafu ar y cyd â dysgu newydd.

Darparwch fodelu ac ymarfer pan fydd cyfatebiaeth yn cael ei chyflwyno y tro cyntaf, gan ddychwelyd mewn gwersi diweddarach. Defnyddiwch ymatebion dysgwyr i benderfynu beth sydd angen ei addysgu neu ei ymarfer ymhellach. Mae tystiolaeth yn cefnogi bylchu fel egwyddor dysgu cyffredinol ond prin yw'r ymchwil yn benodol ar y bwlch amser mwyaf effeithiol rhwng adolygu ffoneg.

Er enghraifft gallai athro:

- Adolygu cyfatebiaeth newydd ei haddysgu y diwrnod wedyn, ar ei phen ei hun ac mewn geiriau.
- Ailymweld yn ddiweddarach yn yr wythnos ac mewn wythnosau dilynol, gan wirio'r darllen a'r sillafu.
- Cynyddu'r bwlch pan fydd adalw yn gadarn, gan ailymweld yn gynharach os bydd camgymeriadau neu oedi yn dangos bod angen cefnogaeth bellach.

Enghreifftiau cynllunio yw'r rhain, nid bylchau seiliedig ar ymchwil. Ceisiwch gymhwyso'r egwyddor o fewn dilyniant addysgu'r ddwy iaith.

05. Dull o addysgu geiriau eithriad cyffredin

Yn y Saesneg, geiriau amledd uchel (geiriau a ddefnyddir yn aml) yw geiriau eithriad cyffredin na all dysgwyr eto eu darllen na'u sillafu'n llawn gan ddefnyddio'r CGFfau y maent wedi'u dysgu, a/neu sy'n cynnwys mapiau sain-sillafiad llai cyffredin. Mae ffoneg yn dal i helpu gyda'r geiriau hyn oherwydd gall dysgwyr ddadgodio'r rhan fwyaf o'r gair a defnyddio'r rhannau sy'n gweithio i'w helpu adnabod y gair. Yn y Gymraeg, fel arfer, mae llai o wir eiriau eithriadol oherwydd bod yr orgraff yn fwy cyson. Yn hytrach, mae dysgwyr yn fwy tebygol o ddod ar draws geiriau amledd uchel sy'n heriol dros dro oherwydd nad yw cyfatebiaeth neu strwythur gair gofynnol wedi'i addysgu eto. Mae gan y Gymraeg hefyd eiriau hirach fel arfer nag sydd gan y Saesneg, a all fod yn fwy heriol wrth drefnu er mwyn dadgodio'n gywir ac yn rhugl. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu tryloywder cryfach y Gymraeg o'i chymharu â'r Saesneg, ac yn cyd-fynd â'r hyn a wyddwn am ddatblygiad darllen cynnar ar draws orgraffau.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhuglder adnabod geiriau yn cael ei adeiladu trwy ffurfio cysylltiadau rhwng sillafiadau, seiniau ac ystyron (a ddisgrifir weithiau fel mapio orgraffyddol), a bod ymdrechion dadgodio yn chwarae rhan allweddol wrth sefydlu'r cynrychioliadau gair-benodol hyn. Mae hyn yn golygu

na ddylid addysgu geiriau eithriad fel siapiau gair gweledol pur. Yn hytrach, mae addysgu effeithiol yn canolbwyntio'r sylw ar y llythrennau o fewn y gair ac yn cefnogi dysgwyr i gysoni'r hyn y gallant ei ddadgodio gyda ffurf lafar gywir y gair.

Enghraifft:

01. Dywedwch y gair gan gadarnhau'r ystyr.

02. Dadgodiwch rannau'r gair gan ddefnyddio cyfatebiaethau sydd eisoes wedi'u haddysgu/y mae'r dysgwyr yn eu gwybod (yn yr iaith honno). Fel arfer gellir seinio'r rhan fwyaf o air eithriadol; yn aml dim ond un rhan sy'n wirioneddol anrhagweladwy.

03. Addysgwch y rhan anodd yn benodol:

- Yn y Saesneg: y rhan sydd â mapio llai cyffredin (neu fapio nas addysgwyd eto).
- Yn y Gymraeg: fel arfer cyfatebiaeth/strwythur nas addysgwyd eto (yn hytrach na mapio afreolaidd).

04. Mapiwch seiniau ar lythrennau (pwyntiwch at/tanlinellwch y graffemau wrth ddweud y ffonemau, yna cyfunwch).

05. Sillafwch y gair gan roi sylw i'r rhan anodd (nid copïo mecanyddol): a dilyn y drefn segmentu, ysgrifennu, yna gwirio.

06. Ewch ati i ailymweld trwy adalw ysbeidiol (gwirio darllen/sillafu cyflym dros ddyddiau ac wythnosau).

Mae rhai rhaglenni'n galw'r rhain yn eiriau calon: caiff y rhannau rheolaidd eu hadnabod, a chaiff y graffem anodd ei farcio a'i ddysgu ar y cof. Mae hyn yn dilyn yr un egwyddor â'r arfer uchod, sef rhoi sylw gweithredol i sillafiad y gair. Yn y treial cyntaf i gymharu'r dulliau hyn, arweiniodd addysgu geiriau calon a chywiro camynganu at gynnydd tebyg o ran darllen a sillafu'r geiriau a addysgwyd. Roedd y ddau ddull yn fwy effeithiol nag anfon y geiriau adref i'w darllen fel geiriau cyflawn (Lithgow et al., 2026).

Wrth addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg, ceisiwch osgoi addysgu geiriau anodd fel un rhestr gymysg. Addysgwch eiriau eithriadol o fewn y gwersi Cymraeg a'r gwersi Saesneg ar wahân, sy'n cyd-fynd â chwmpas a threfn pob iaith, a gwnewch gyferbyniadau rhwng yr ieithoedd yn eglur. Os defnyddir morffoleg i esbonio sillafiad, gwiriwch fod yr esboniad yn gweithio ar gyfer pob gair ar y rhestr, gan y bydd rheol sy'n gweithio ar gyfer rhai enghreifftiau ond nid eraill yn drysu'r dysgwyr yn hytrach na'u helpu.

I ddysgwyr ag anawsterau dadgodio, cadwch yr un dull ond ei addasu fymryn: setiau llai, mwy o ymarfer dan arweiniad, a mwy o adalw ysbeidiol. Yn y Saesneg, gall fod yn ddefnyddiol addysgu dysgwyr i hunan-gywiro pan nad yw'r ynganiad a ddadgodiwyd yn cyfateb i air llafar hysbys (gelwir hyn yn gywiro cam ynganu). Mae'r strategaeth hon yn dibynnu ar y dysgwr eisoes yn gwybod y gair ar lafar, gan fod yn rhaid iddo adnabod yr ynganiad cywir. Pan fydd geirfa lafar yn yr iaith honno yn dal i ddatblygu, gall addysgu'r rhannau rheolaidd a'r graffem anodd weithio'n well, ochr yn ochr ag addysgu ystyr y geiriau.

06. Dull systematig o gywiro gwallau

Pan fydd dysgwyr yn gwneud gwall yn ystod ffoneg, y nod yw ei gywiro'n gyflym, yn gryno, ac mewn ffordd fydd yn golygu y bydd y dysgwr yn cynhyrchu'r ymateb cywir (ac yna'n ei ddefnyddio eto). Arfer ymarferol y gall athrawon ei ddefnyddio yw Cywiro, Annog, Modelu, ac Ailwirio:

01. Cywirwch y gwall yn dawel fel na fydd yn mynd yn arfer.

02. Anogwch y dysgwr i ddefnyddio'r arfer a addysgwyd (e.e. "Pwyntiwch at y graffem, beth yw'r sain?").

03. Os na all y dysgwr gynhyrchu'r ymateb cywir o hyd, modelwch ef yn glir ("Sain y graffem hwn yw...") a gofynnwch i'r dysgwr ei ailadrodd.

04. Ailwiriwch trwy gael y dysgwr i ddarllen y gair eto o'r dechrau (ac yna ailddarllen y frawddeg gyfan), neu sillafu'r gair yn gywir ac yna ei ddarllen yn ôl. Gall helpu i wneud yr iaith yn eglur lle bo'n berthnasol (e.e., "Yn y Gymraeg, mae'r graffem hwn yn swnio fel... ac yn y Saesneg, gall swnio fel...") yn enwedig os yw gwall yn adlewyrchu ymyrraeth drawsieithol. Cadwch gywiriadau yn fyr (un pwynt addysgu clir), peidiwch ag arafu'r addysgu, a cheisiwch gynnwys cyfnod adolygu cyflym yn ddiweddarach yn y wers fel bod yr ymateb cywir yn cael ei adalw eto.

Enghraifft:

Os mai'r gair targed yw *mam*, ond bod y dysgwr yn ysgrifennu *map*

- Cywiro: "Gadewch i ni wirio'r sain olaf."
- Annog: "Dywedwch y gair *mam*. Nawr dywedwch y seiniau yn araf." (/m/ /a/ /m/)
- Modelu (os oes angen): "Y sain olaf yw /m/. Yn Gymraeg, rydym yn defnyddio m ar gyfer /m/. Gadewch i ni drwsio'r llythyren olaf."
- Ailwirio: Mae'r dysgwr yn ysgrifennu *mam*, yna yn ei ddarllen yn uchel.

Dewis rhaglenni ac adnoddau ffoneg

Gall ysgolion ddefnyddio rhaglen neu becyn masnachol, deunyddiau a ddatblygwyd yn lleol, neu gyfuniad o'r ddau. Nid yw'r canllaw hwn yn cymeradwyo rhaglenni/cynnyrch penodol. Dylid barnu unrhyw raglen/adnodd yng ngoleuni meini prawf ansawdd clir a chynnwys dysgu proffesiynol parhaus o fewn y rhaglen. Mae **Atodiad B** yn troi'r meini prawf hyn yn rhestr wirio y gall ysgolion ei defnyddio wrth gymharu rhaglenni. Er mwyn sicrhau darpariaeth gyson o ansawdd uchel, dylai ysgolion gynllunio ar gyfer hyfforddiant cychwynnol, hyfforddiant gloywi rheolaidd, a sefydlu staff newydd, gyda chefnogaeth hyfforddi/arsylwadau lle bo'n briodol. Yng Nghymru, mae addysgu ffoneg yn y Gymraeg ac yn y Saesneg fel arfer yn defnyddio rhaglenni neu ddeunyddiau ar wahân, felly dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt raglen/set o ddeunyddiau clir, systematig ar gyfer y Gymraeg ac un ar wahân ar gyfer y Saesneg, gyda chynllun y cytunwyd arno ar gyfer cydlynu arferion a therminoleg ar draws y ddwy iaith. Mae'n bwysig nodi bod cysondeb yn golygu cynnal nodweddion craidd addysgu ffoneg effeithiol, nid cyflwyno cyfarwyddyd yr un fath, waeth beth fyddo anghenion y dysgwyr.

Dylai rhaglen o ansawdd uchel ddarparu:

01. Cynnwys a threfn

- Cwmpas a threfn systematig, gronnol gyda chamau hylaw, strwythur gwers clir, ac adolygu penodol (gan gynnwys arweiniad ar gyflymder y cyflwyno a beth i'w wneud os oes angen mwy o amser ar ddysgwyr).
- Arferion penodol ar gyfer darllen a sillafu, gan ddefnyddio iaith athro clir ac enghreifftiau, sy'n cynnwys cyfuno (darllen/dadgodio) a segmentu (sillafu/amgodio).
- Addysgu ymwybyddiaeth ffonolegol o'r dechrau ochr yn ochr â CGFfau gan gynnwys cyfuno ffonemau i ddarllen geiriau a segmentu geiriau llafar i'w sillafu.

02. Ymarfer a chadarnhau

- Cynllunio ymarfer cronnol sy'n adeiladu cywirdeb ac yn symud dysgwyr tuag at feithrin arfer awtomatig.
- Cyfleoedd ymarfer sy'n cynnwys adalw ysbeidiol ar gynnwys a addysgwyd yn flaenorol, fel bod dysgwyr yn ailymweld ac yn gwahaniaethu rhwng patrymau yn rheolaidd.
- Digon o ymarfer ar sawl lefel, gan gynnwys:
  - CGFf
  - Gair
  - Brawddeg
  - Testun cysylltiedig (o ran darllen a sillafu)

03. Deunyddiau darllen a dysgu geiriau

- Testunau y gellir eu dadgodio (neu ddeunyddiau darllen cyfatebol) sy'n cyd-fynd â'r cyfatebiaethau a addysgwyd, gydag arweiniad clir ar sut a phryd i'w defnyddio.
- Arweiniad clir ar eiriau eithriad cyffredin (yn enwedig yn y Saesneg), gan gynnwys sut i'w haddysgu'n eglur a sut mae tynnu sylw at unrhyw rannau y gellir eu dadgodio.
- Arweiniad ar ddatblygu rhuglder trwy ddarllen llafar cywir (gyda modelu ac adborth ar unwaith), gan symud o ddarllen geiriau i destun cysylltiedig.

04. Cynnydd y tu hwnt i'r cod cynnar (lle bo'n berthnasol)

- Os bwriedir ei ddefnyddio y tu hwnt i flynyddoedd cyntaf yr ysgol gynradd, cynnydd clir i:
  - ddarllen/sillafu geiriau aml-sillafog
  - morffoleg a chonfensiynau sillafu (lle bo'n briodol)

05. Asesu

- Dylai offer asesu wirio adrannau allweddol darllen/sillafu cynnar, megis:
  - Ymwybyddiaeth ffonemig
  - CGFfau a addysgwyd a dadgodio (gan gynnwys dadgodio geiriau anghyfarwydd/geiriau ffug lle bo'n briodol)
  - Sillafu/amgodio
  - Gwiriadau rhuglder lle bo'n berthnasol
- Rheolau penderfynu clir: gwiriwch bod dysgwyr yn gallu adalw a chymhwyso CGFfau a addysgwyd yn gywir mewn geiriau, darllen a sillafu. Addysgwch unwaith eto y patrymau sy'n parhau i fod yn ansicr, rhowch fwy o ymarfer gyda chefnogaeth os bydd oedi, ac addaswch gyflymdra neu gefnogaeth pan fydd gwiriadau rheolaidd yn dangos cynnydd annigonol. Defnyddiwch ganllaw asesu'r rhaglen ochr yn ochr â barn broffesiynol. Ni ddylai sgôr unigol fod yr unig sail ar gyfer penderfyniad.

06. Cymorth

- Arweiniad ymarferol i ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol (gan gynnwys darllenwyr sy'n cael anawsterau), megis camau llai, mwy o adolygu, mwy o ymarfer dan arweiniad, ac ailwirio ar amseroedd penodol. Dylai hefyd gynnwys asesu sy'n nodi pa fylchau i'w targedu, fel bod y cymorth yn cyfateb i angen y dysgwr.
- Cymorth ymarferol o ran cyflwyno: deunyddiau hyfforddi, sgriptiau gwersi/enghreifftiau, camsyniadau cyffredin, offer hyfforddi/sicrhau ansawdd, rhestrau adnoddau, ac arweiniad realistig ar amser.

Addysgu a Chymhwyso Ffoneg yn Benodol mewn Darllen ac Ysgrifennu

Mae angen gwahaniaethu rhwng addysgu penodol, bwriadol o'r cod alffabetig ac addysgu sy'n dibynnu ar ba eiriau sy'n digwydd codi yn y wers. Mae FfSS yn darparu dilyniant cronnol gan wneud sylw penodol i gyfuno a segmentu. Mae cymhwyso'r wybodaeth honno mewn darllen ac ysgrifennu ystyrlon yn rhan o'r addysgu hwn, ac nid yn ddull sy'n gwrthdaro. Gall termau fel o fewn cyd-destun a thu hwnt i'r cyd-destun gymylu'r gwahaniaeth gan eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol.

Defnyddir y termau ffoneg o fewn cyd-destun (*contextualised*) a ffoneg nad yw o fewn cyd-destun (*decontextualised*) yn anghyson, ac mae'n bwysig bod yn glir beth a olygir o ran y termau hyn oherwydd bod y sylfaen dystiolaeth yn wahanol gan ddibynnu ar y diffiniad. Mewn rhai achosion, mae ffoneg o fewn cyd-destun yn cyfeirio at ffoneg wedi'i gwreiddio neu ffoneg achlysurol, pan addysgir ffoneg yn bennaf wrth ddarllen llyfrau a lle anogir dysgwyr i ddefnyddio ciwiau cyd-destun (megis lluniau neu ystyr brawddeg) ochr yn ochr â llythrennau a seiniau i adnabod geiriau anghyfarwydd. Mewn achosion eraill, mae'r term ffoneg o fewn cyd-destun yn cyfeirio at gymhwyso ffoneg a addysgwyd mewn darllen ac ysgrifennu ystyrlon, er enghraifft ymarfer cyfatebiaethau a addysgwyd yn ddiweddar mewn geiriau, brawddegau, arddweud a thestun cysylltiedig, gan barhau i drin dadgodio fel y prif lwybr i ddarllen geiriau'n gywir.

O ystyried y cyfan, mae'r dystiolaeth yn cefnogi safbwynt pragmatig ar gyfer arfer yn yr ystafell ddosbarth: mae dysgwyr yn elwa o addysgu penodol, systematig o'r cod alffabetig, ac maent hefyd angen cyfleoedd penodol i gymhwyso'r dysgu hwn trwy ddarllen ac ysgrifennu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cyflwyno ac ymarfer CGFfau newydd trwy addysgu ac ymarfer byr, penodol (a ddisgrifir weithiau fel addysgu nad yw o fewn cyd-destun), ac yna symud i gymhwyso mewn cyd-destun trwy ddefnyddio geiriau, brawddegau a thestunau. Mae cyd-destun yn bwysig ar gyfer dealltwriaeth a chymhelliant, ond yn y camau cynharaf dylid ei ddefnyddio'n bennaf i wirio ystyr ar ôl dadgodio. Ni ddylid ei ddefnyddio fel strategaeth ar gyfer dyfalu geiriau yn lle dadgodio.

Mae'r dull hwn yn berthnasol yng Nghymru pa un a yw dysgwyr yn dysgu darllen yn y Gymraeg, yn y Saesneg, neu yn y ddwy iaith. Mewn sesiynau Cymraeg, dylai athrawon addysgu cod alffabetig y Gymraeg yn benodol a darparu cyfleoedd cynnar i'w gymhwyso mewn geiriau, brawddegau a thestunau sy'n cyfateb i'r hyn a addysgwyd. Gan fod gan y Gymraeg orgraff fwy tryloyw, bydd llawer o ddysgwyr yn dysgu dadgodio yn gywir yn gyflym a gellir wedyn ganolbwyntio ar ddatblygu rhuglder a meithrin arfer awtomatig. Mewn sesiynau yn y Saesneg, dylai athrawon hefyd addysgu cyfatebiaethau'n eglur gyda llawer o adolygu cronnol. Dylai ymarfer gyd-fynd yn ofalus â chwmpas a threfn y rhaglen er mwyn helpu cadarnhau cod mwy cymhleth ac amrywiol, gan gynnwys addysgu geiriau eithriad cyffredin yn eglur wrth barhau i dynnu sylw at elfennau y gellir eu dadgodio.

Mewn cyd-destunau dwyieithog, bydd ysgolion fel arfer yn defnyddio rhaglenni neu ddeunyddiau ar wahân ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg. Yr allwedd yw cynnal arferion addysgu cyson (adolygu-addysgu-ymarfer-cymhwyso) gan fod yn eglur ynghylch cyfatebiaethau iaith-benodol a sicrhau bod testunau ymarfer yn cyd-fynd â'r hyn a addysgwyd ym mhob iaith. Wrth ddewis deunyddiau, mae'n werth gwirio i ba raddau y gall arferion a therminoleg y deunyddiau Cymraeg a Saesneg weithio gyda'i gilydd, a chytuno ar sut y caiff unrhyw wahaniaethau eu datrys, fel bod dysgwyr yn cael eu haddysgu gan ddefnyddio un dull cyson.

Beth ydy'r meini prawf wrth i ysgolion benderfynu pa raglen sy'n effeithiol?

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dewis defnyddio rhaglen[1] fasnachol i addysgu ffoneg. Wrth ddewis rhaglen, dylai ysgolion ystyried y dystiolaeth yn ofalus. Mae llawer o raglenni yn gwneud honiadau ynghylch effaith. Dylai ysgolion chwilio am werthusiadau credadwy, wedi'u cynllunio'n dda a dehongli canfyddiadau yn ofalus, yn enwedig lle daw'r dystiolaeth o gyd-destunau sy'n wahanol i Gymru.

Gall tystiolaeth o wledydd eraill, gan gynnwys Lloegr, fod yn hynod ddefnyddiol. Fodd bynnag, dylai ysgolion ystyried a yw'r cyd-destun yn gyffelyb i'r cyd-destun yng Nghymru. Mae gwahaniaethau o ran iaith/ieithoedd addysgu, iaith asesu, a nodweddion

ieithyddol y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu na fydd dull sydd wedi'i weld yn gweithio'n dda mewn un cyd-destun o reidrwydd yn trosglwyddo yn awtomatig heb i'r dull gael ei addasu a'i werthuso yn ofalus.

Da o beth hefyd fyddai meddwl am dystiolaeth fel rhywbeth sy'n datblygu dros amser. Mae rhaglenni fel arfer yn symud o ddatblygu cynnar a phrofi maes i astudiaethau effeithlonrwydd (*efficacy*) a gynhelir o dan yr amodau gorau posibl, i astudiaethau effeithiolrwydd (*effectiveness*) mewn lleoliadau ysgol bob dydd, ac yn y pen draw i dystiolaeth gweithredu/cynnal hirdymor. Efallai na fydd rhaglenni diweddarach wedi cyhoeddi gwerthusiadau yn syml oherwydd bod astudiaethau dibynadwy yn cymryd amser i'w cynllunio, eu cynnal a'u cyhoeddi. Nid yw prinder tystiolaeth yr un peth â rhaglen aneffeithiol.

Awgrymiadau ar gyfer adnabod tystiolaeth o ansawdd uchel:

- Astudiaeth sy'n cynnwys grŵp cymharu clir, a dysgwyr/ysgolion wedi'u paru'n dda.
- Profion sy'n mesur cywirdeb dadgodio/darllen geiriau, rhuglder, sillafu.
- Asesiadau sy'n mesur y cynnwys a addysgwyd a mesurau annibynnol, safonedig, neu wedi'u dilysu'n dda o ddarllen geiriau a sillafu.
- Tryloywder ynghylch pwy a astudiwyd a sut y gwnaethpwyd hynny: nodweddion cyfranogwyr, hyd, faint o addysgu a wnaethpwyd, hyfforddiant, cywirdeb, ac amodau cyflwyno.
- Tystiolaeth y bydd canfyddiadau'n debygol o gyffredinoli, megis ailadrodd ar draws mwy nag un lleoliad/carfan, neu resymeg glir pam y dylai'r rhaglen drosglwyddo.

Ystyriwch ble mae'r rhaglen ar ei thaith tuag at dystiolaeth:

- Gall tystiolaeth cyfnod cynnar gynnwys rhai canlyniadau peilot/profi maes syml.
- Daw tystiolaeth gryfach o astudiaethau sy'n profi effaith o dan yr amodau gorau posibl (effeithlonrwydd) ac yna o dan amodau ysgol arferol (effeithiolrwydd), ochr yn ochr â thystiolaeth am sut y cafodd y rhaglen ei chyflwyno a'i chynnal dros amser.
- Os yw rhaglen yn gynharach ar ei thaith tuag at dystiolaeth, gallwch barhau i wneud penderfyniadau synhwyrol ond dylech drin honiadau yn fwy gofalus a blaenoriaethu cyflwyno gofalus, hyfforddiant staff parhaus, a mesur newid gan ddefnyddio'r asesiadau a ddefnyddir gennych fel arfer.

Cwestiynau i'w gofyn wrth ddarllen honiadau am effeithiolrwydd:

- O'i gymharu â beth? Beth oedd y grŵp cymharu?
- Sut cafodd ei fesur? Asesiadau yn mesur cynnwys a addysgwyd, profion annibynnol, neu'r ddau?
- I bwy? Oedran, mannau cychwyn, cyd-destun iaith, ystyriaethau ADY/SIY?
- O dan ba amodau? Hyfforddiant, amser, staffio, beth sydd ei angen i gyflawni canlyniadau?
- Pa mor ystyrlon yw'r effaith? Yn addysgiadol ystyrlon, nid dim ond yn ystadegol arwyddocaol?

Mae dau fath o fesur yn ateb cwestiynau gwahanol. Mae asesiadau sy'n profi'r cynnwys a addysgwyd yn dangos a yw dysgwyr wedi dysgu'r cynnwys hwnnw, tra bod mesurau annibynnol ar gyfer darllen geiriau a sillafu yn dangos a yw'r dysgu yn cyrraedd darllen y tu hwnt i'r rhaglen. Mae'n bwysig edrych am y ddau. Efallai na fydd cynnydd ar gynnwys a addysgwyd yn unig yn trosglwyddo i ddarllen a sillafu, tra bod absenoldeb cynnydd ar gynnwys a addysgwyd yn golygu nad yw'r rhaglen wedi gwneud yr hyn a fwriadwyd. Mae hyn yn bwysicaf lle mae ffoneg yn ymyrraeth ac yn cymryd amser o ddysgu cwricwlwm arall.

Cywirdeb y cyflwyno wrth addysgu ffoneg

Mae addysgu ffoneg o ansawdd uchel yn dibynnu nid yn unig ar yr hyn a addysgir, ond ar ba mor gyson a chywir y caiff y deunydd ei gyflwyno. Mae ymchwil o astudiaethau ymyrraeth darllen a'r llenyddiaeth ynghylch gwyddor cyflwyno ehangach yn dangos y gall gwahaniaethau mewn canlyniadau gael eu hesbonio gan wahaniaethau yn y modd y mae rhaglen wedi'i chyflwyno a pha mor gywir y cafodd ei chyflwyno. Hynny yw, i ba raddau y mae addysgu'n adlewyrchu'r dull y bwriadwyd ei ddefnyddio dros amser.

Beth yw cywirdeb cyflwyno?

Mae cywirdeb cyflwyno yn cyfeirio at ba mor agos a chyson y mae addysgu ffoneg yn cyfateb i'r hyn a fwriadwyd, pa un a yw hon yn rhaglen ffoneg barod neu'n ddilyniant o wersi a ddatblygwyd yn lleol.

Fel arfer disgrifir cywirdeb cyflwyno yn nhermau:

- **Cadw at y cynllun:** Dilyn strwythur gwers, dilyniant ac arferion y cytunwyd arnynt.
- **Faint gafodd ei addysgu:** Addysgu ffoneg mor aml ac am gyhyd ag y bwriadwyd.
- **Ansawdd y ddarpariaeth:** Mae hyn yn cynnwys modelu clir, ymarfer dan arweiniad, adborth, a chywiro gwallau.
- **Cysondeb dros amser:** Mae hyn yn cyfeirio at gynnal dulliau y cytunwyd arnynt ar draws ystafelloedd dosbarth er gwaethaf newidiadau staff.

Dengys tystiolaeth ymchwil bod gwahaniaethau yn y nodweddion hyn yn helpu egluro pam y gall un dull ffoneg fod yn effeithiol mewn rhai ystafelloedd dosbarth neu ysgolion ond yn llai effeithiol mewn rhai eraill. Am y rheswm hwn, mae rhoi sylw i gywirdeb y cyflwyno yn ganolog i sicrhau effaith ar raddfa fawr.

Nid yw bod yn gywir yn golygu addysgu pob dysgwr yn yr un ffordd. Mae'n golygu cadw cydrannau addysgu craidd y dull y cytunwyd arno wrth wneud addasiadau pwrpasol, wedi'u llywio gan asesu, gall athrawon addasu cyflymder, faint o addysgu a wneir, grwpio, enghreifftiau, deunyddiau, cymorth iaith, a sgaffaldiau, wrth gynnal addysgu penodol, gan sicrhau dilyniant cronnol, cyfuno a segmentu a rhoi digon o ymarfer ac adborth cywir. Dylid adolygu effeithiau addasiadau trwy wirio byr o ddysgu disgyblion, a dylid lleihau sgaffaldiau pan nad oes eu hangen mwyach.

Dylai rhaglen nodi'n glir pa addasiadau sy'n cynnal ei helfennau craidd a pha rai sy'n newid yr hyn sy'n gwneud i'r rhaglen weithio, fel y gall staff addasu'r rhaglen yn hyderus gan wybod beth sy'n rhaid ei gadw. Efallai y bydd ysgolion hefyd yn gweld y canllawiau gweithredu a gyhoeddwyd gan yr Education Endowment Foundation yn ddefnyddiol. Fe'i lluniwyd ar gyfer ysgolion yn Lloegr, ond mae'r egwyddorion yn berthnasol yn ehangach.

Sicrhau cywirdeb cyflwyno

Gall ysgolion gynnal cywirdeb cyflwyno trwy nifer bychan o gamau ymarferol, cymesur.

01. Hyfforddi staff

- Lle defnyddir [1]rhaglen barod, dylai staff fynychu hyfforddiant a argymhellir gan y rhaglen fel eu bod yn deall yn glir yr arferion, y derminoleg a'r dilyniant.
- Lle mae ysgolion yn defnyddio deunyddiau a ddatblygwyd yn lleol, dylid cael dealltwriaeth gyffredin o strwythur gwers, dilyniant, a disgwyliadau ar gyfer modelu ac ymarfer.
- Dylai trefniadau sefydlu sicrhau bod staff newydd yn cael eu cefnogi i ddarparu ffoneg yn unol â'r dull y cytunwyd arno.

02. Deunyddiau

- Sicrhewch bod gan staff fynediad priodol at y deunyddiau gwersi cywir (e.e. cynlluniau, testunau y gellir eu dadgodio, asesiadau).
- Ceisiwch osgoi cymysgu adnoddau o wahanol raglenni neu ffynonellau oni bai bod hyn wedi'i gynllunio'n ofalus, gan y gall newidiadau ad hoc newid dilyniant ac arferion gwersi yn anfwriadol.
- Cadwch ddeunyddiau cyfeirio allweddol sy'n cyd-fynd â'r dilyniant y cytunwyd arno (e.e. siartiau graffemau, rhestrau geiriau) fel bod dysgwyr yn ymarfer yr hyn a addysgwyd.
- Sicrhewch bod systemau ar waith fel bod deunyddiau yn hawdd eu canfod ac yn gyson ar draws dosbarthiadau.

03. Amserlennu

- Dylid gwarchod sesiynau ffoneg yn yr amserlen.
- Gall byrhau neu ddisodli sesiynau yn aml danseilio cywirdeb y cyflwyno oherwydd bod y dysgwyr yn cael llai o wybodaeth.
- Lle caiff sesiynau eu colli, dylai ysgolion gynllunio sut y byddant yn eu haildrefnu.

04. Cysondeb

- Dylid defnyddio cynlluniau gwersi y cytunwyd arnynt yn gyson ar draws ystafelloedd dosbarth.
- Dylai addysgu ffoneg fod yn unol â:
  - Deunyddiau darllen wedi'u paru ar gyfer ymarfer dadgodio annibynnol a darllen ehangach gyda chefnogaeth briodol.
  - Addysgu sillafu ac amgodio.
  - Unrhyw ddarpariaeth ymyrraeth ychwanegol.

05. Modelu cywir a chyson

- Mae modelu clir o gyfatebiaethau graffem-ffonem yn bwysig.
- Dylai athrawon anelu at ynganu ffonemau yn glir ac yn gyson mewn ffyrdd sy'n cefnogi cyfuno a segmentu.
- Ar gyfer seiniau parhaus, mae hyn yn golygu cynnal y sain yn esmwyth (e.e. /s/, /m/).
- Ar gyfer cytseiniaid stop, mae hyn yn golygu cadw'r sain yn fyr ac yn glir, gan osgoi ychwanegu seiniau llafariad diangen (fel schwa[2] ar y diwedd, y llafariad diacen ar ddiwedd y geiriau *teacher* neu *banana*) a all wneud cyfuno'n anoddach (e.e. /buh/ yn lle /b/).
- Cytunwch ar ddulliau modelu clir gyda staff tra'n parchu gwahaniaethau o ran tafodiaith ac acen. Ceisiwch fodelu ynganiadau y mae dysgwyr yn eu clywed yn lleol yn yr iaith a addysgir a pheidiwch â thrin acen ddilys fel camgymeriad dadgodio. Er enghraifft, mae'r llafariad yn y geiriau Saesneg *bath* a *grass* yn amrywio yn ôl acenion ac mae *mam* yn ymddangos yn y Gymraeg ac mewn rhai tafodieithoedd Saesneg. Eglurwch wahaniaethau fel hyn pan fyddant yn effeithio ar enghraifft o CGFfau.
- Nid mynegiant perffaith yw'r nod, ond modelu sy'n cefnogi cyfuno, darllen geiriau a sillafu llwyddiannus.

[2]Mae schwa yn sain llafariad fer, niwtral (a ysgrifennir yn aml fel /ə/) y gellir ei chlywed mewn sillafau diacen mewn llawer o eiriau llafar. Yn Gymraeg, ynganir y llythyren y fel schwa mewn sillafau annherfynol (fel yn dynion ac yn sillaf gyntaf mynydd), a chyda'i sain clir mewn sillafau terfynol ac mewn geiriau unsill (fel yn dyn a llyn). Mewn addysgu ffoneg, defnyddir y term schwa yn aml i ddisgrifio pan ychwanegir sain llafariad ychwanegol at gytsain wrth ynganu.

06. Ymarfer

- Dylai gwersi gynnwys digon o ymarfer gydag arweiniad cyn i ddysgwyr weithio'n annibynnol.
- Dylid cywiro gwallau'n gyflym ac yn adeiladol, ac yna ymarfer yr ateb yn gywir ar unwaith.
- Dylai ymarfer barhau ar waith gan ganolbwyntio ar ddarllen a sillafu geiriau, yn hytrach nag ar weithgareddau sy'n dibynnu llawer ar daflenni gwaith.

07. Asesu yn pennu'r cyflymder

- Dylid defnyddio asesu i benderfynu pa bryd y mae angen i ddysgwyr gael: mwy o adolygu, rhannu'r addysgu yn gamau ychwanegol, ymarfer ychwanegol.
- Lle mae cynnydd yn arafach na'r disgwyl, dylai ysgolion wirio ansawdd yr addysgu, presenoldeb, cyfleoedd i ymarfer a'r cysylltiad rhwng addysgu ac anghenion asesu'r dysgwr. Defnyddiwch y wybodaeth hon i addasu'r cynnwys, y dwyster neu'r cyflwyno a cheisiwch gynnal asesiadau ychwanegol os bydd angen hynny. Ni ddylai cywirdeb cyflwyno rhaglen olygu parhau heb newid unrhyw ran o'r ddarpariaeth os nad yw'r ddarpariaeth yn helpu.

08. Cymorth cymheiriaid rhwng staff

- Hyfforddiant parhaus yn hytrach nag hyfforddiant un-tro ydy'r ffordd orau o sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno yn gywir.
- Gall arsylwi gan gymheiriaid ac addysgu tîm ddarparu adborth penodol ar strwythur gwers a chyflymder, modelu ac ymarfer, a chysondeb.
- Dylai adborth fod yn gefnogol ac yn ddatblygiadol.

09. Arweinyddiaeth

- Mae arweinwyr yn chwarae rhan allweddol o sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno yn fanwl gywir trwy drefnu bod hyfforddiant a deunyddiau ar waith, gwarchod amser addysgu, blaenoriaethu ffoneg o fewn gwaith gwella'r ysgol, a meithrin dealltwriaeth gyffredin o'i diben ymhlith staff.
- Dylid defnyddio monitro er mwyn cefnogi gwelliant a chysondeb, yn hytrach nag i greu pwysau ychwanegol neu lesteirio deialog broffesiynol.

Darllen Ychwanegol

Archer, A. L., & Hughes, C. A. (2011). Explicit instruction: Effective and efficient teaching. Guilford Press.

Cepeda, N. J., Pashler, H., Vul, E., Wixted, J. T., & Rohrer, D. (2006). Distributed practice in verbal recall tasks: A review and quantitative synthesis. Psychological Bulletin, 132(3), 354-380. https://doi.org/10.1037/0033-2909.132.3.354

Dunlosky, J., Rawson, K. A., Marsh, E. J., Nathan, M. J., & Willingham, D. T. (2013). Improving Students' Learning with Effective Learning Techniques: Promising Directions From Cognitive and Educational Psychology. Psychological Science in the Public Interest, 14(1), 4-58. https://doi.org/10.1177/1529100612453266

Ehri, L. C. (2014). Orthographic mapping in the acquisition of sight word reading, spelling memory, and vocabulary learning. Scientific Studies of Reading, 18(1), 5-21. https://doi.org/10.1080/10888438.2013.819356

Hughes, C. A., Morris, J. R., Therrien, W. J., & Benson, S. K. (2017). Explicit instruction: Historical and contemporary contexts. Learning Disabilities Research & Practice, 32(3), 140-148. https://doi.org/10.1111/ldrp.12142

Lithgow, A., Kohnen, S., Barr, P., Robidoux, S., & Colenbrander, D. (2026). Teaching irregular words: A comparison of mispronunciation correction and heart-word methods. Scientific Studies of Reading, 30(5), 485-509. https://doi.org/10.1080/10888438.2026.2671171

Owen, K. L., Watkins, R. C., & Hughes, J. C. (2022). From evidence-informed to evidence-based: An evidence building framework for education. Review of Education, 10(1), e3342. https://doi.org/10.1002/rev3.3342

Rohrer, D. (2012). Interleaving helps students distinguish among similar concepts. Educational Psychology Review, 24(3), 355-367. https://doi.org/10.1007/s10648-012-9201-3

Rosenshine, B. (2012). Principles of instruction: Research-based strategies that all teachers should know. American Educator, 36(1), 12-19.

Slavin, R. E. (2008). Perspectives on Evidence-Based Research in Education—What Works? Issues in Synthesizing Educational Program Evaluations. Educational Researcher, 37(1), 5-14. https://doi.org/10.3102/0013189X08314117

05

Adran 5: Cefnogi pob dysgwr

Mae'r adran hon yn egluro sut mae defnyddio asesu i glustnodi anghenion dysgwyr ac addasu'r addysgu a'r gefnogaeth, gan ystyried cefndiroedd iaith gwahanol, anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion dysgwyr hŷn.

Cefnogi pob dysgwr

Dylai FfSS ymateb i ddysgwyr amrywiol. Defnyddiwch asesu i glustnodi rhwystrau ac addasu'r cyflymder, swm yr addysgu, grwpio, deunyddiau, cefnogaeth iaith a sgaffaldio. Ar gyfer dysgwyr sydd angen help gydag dadgodio neu sillafu, parhewch i roi cyfarwyddyd cod systematig, penodol, cyfuno, segmentu a rhoi digon o ymarfer. Mae llawer o ddysgwyr hefyd angen addysgu mewn cydrannau eraill e.e. iaith lafar, geirfa, rhuglder a dealltwriaeth neu gefnogaeth ar gyfer anghenion eraill a glustnodwyd. Cysylltwch y cyfuniad i'r dysgwr. Golyga hyn na ddylai dysgwyr sy'n gallu dadgodio ailadrodd ffoneg heb fod angen. Mae angen i chi leihau'r sgaffaldiau addysgu wrth i annibyniaeth ddatblygu, gan barhau i gynnig cefnogaeth i'r dysgwr fel bo'r angen.

Cymhelliant

Mae cynnydd mewn ffoneg yn dibynnu ar ymarfer cyson. Os bydd dysgwyr yn cael trafferth, gall y rhwystrau fod yn rhai ymarferol (e.e. hyder, gorbryder, dysgu a gafodd ei amharu) yn ogystal â rhai addysgiadol.

Mae rhai awgrymiadau ar gyfer gwella cymhelliant yn cynnwys:

- Eglurwch y dull, a'r rhesymau drosto, mewn iaith syml.
- Rhowch grynodeb byr, penodol, unigol ar ôl i ddysgwr fod yn absennol.
- Rhannwch ddeunyddiau ymarfer cartref syml (e.e., 2-3 munud bob dydd, sy'n cyd-fynd â'r cynnwys a addysgwyd).
- Sicrhewch bod tasgau yn gyraeddadwy a bod llwyddiant i'w gael yn aml gan fod profi llwyddiant yn gyson yn meithrin hyder.
- Gwnewch ymdrech ac ymarfer yn rhan arferol o fywyd ysgol.
- Ceisiwch osgoi cymharu cynnydd disgyblion yn gyhoeddus trwy ddarparu adborth personol distaw (lle bo modd) a dathlu gwelliant.
- Defnyddiwch dasgau byr a diddorol gyda llawer o gyfle i'r dysgwyr gymryd rhan.
- Cefnogwch ddatblygu cymhelliant i ddarllen yn fwy eang trwy gyflwyno testunau ystyrlon, cyfleoedd i ddewis a thrafod llyfrau, a darllen gyda chefnogaeth oedolion neu gyfoedion. Ar gyfer dysgwyr hŷn, defnyddiwch destunau addas i oedran, gan osgoi deunyddiau sy'n rhy ifanc iddynt

Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae dysgwyr ag ADY yn grŵp amrywiol (er enghraifft, dysgwyr ag anawsterau darllen geiriau a sillafu, anawsterau iaith lafar, neu anawsterau o ran dal sylw, clyw neu ddysgu). Bydd llawer yn elwa o addysgu mwy dwys, eglur, yn dilyn trefn benodol, gyda llawer iawn o ymarfer dan arweiniad ac adolygu cronnol. Mae tystiolaeth o feta-ddadansoddiadau yn dangos bod ymyrraeth darllen cynnar, aml-gydran, dwys sy'n cynnwys ffoneg ochr yn ochr â hyfforddi sgiliau allweddol eraill (e.e. geirfa) yn gwella canlyniadau i ddysgwyr ag anawsterau darllen, ac y gellir gwella anawsterau darllen a sillafu dwys yn sylweddol gydag addysgu priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Ystyriaethau allweddol

- Ceisiwch gynnal disgwyliadau gan addasu'r dull addysgu fel y gall y dysgwr(wyr) brofi llwyddiant. Mae angen cynnwys cyfarwyddyd cod systematig pan fydd dadgodio neu sillafu yn gofyn am hynny, ynghyd ag unrhyw addysgu angenrheidiol mewn iaith, rhuglder neu ddealltwriaeth.
- I lawer o ddysgwyr ag ADY, mae dysgu'n fwyaf effeithlon pan gaiff tasgau eu rhannu a phan fo llwyddiant yn aml (gydag adborth ar unwaith).
- Defnyddiwch wiriadau byr, cyson i benderfynu a ddylid arafu'r cyflymder, cynyddu adolygu, cynyddu sgaffaldiau, neu gynyddu dwyster.
- Clustnodwch anghenion y dysgwr unigol trwy asesu a gwybodaeth am eu haddysgu a'u profiad ieithyddol. Ystyriwch gyfleoedd i ddysgu, presenoldeb yn yr ysgol a'u profiad o bob iaith. Pan fo hynny'n bosibl, ceisiwch asesu sgiliau perthnasol ar draws yr ieithoedd a ddefnyddir gan y dysgwr. Mae'r ffactorau hyn yn bwydo gwybodaeth i'r asesiad a'r gefnogaeth heb benderfynu beth all dysgwr unigol ei gyflawni.
- Os bydd cynnydd yn annigonol, ewch ati i adolygu'r asesiad a'r addysgu, gwiriwch a gafodd y ddarpariaeth a fwriadwyd ei chyflwyno, a newidiwch y cynnwys, y gefnogaeth a'r dwyster yn unol â hynny. Ceisiwch gael cyngor arbenigol lle bo hynny'n briodol a gwiriwch beth ydy ardrawiad y newid. Peidiwch â pharhau gyda dull aneffeithiol heb newid unrhyw beth.

Awgrymiadau ymarferol

01. Cynyddu dwyster neu faint o ddeunydd a addysgir

- Cynyddwch nifer y cyfleoedd addysgu ar draws yr wythnos.
- I ddysgwyr ag anghenion sylweddol, ystyriwch sesiynau dyddiol byr ychwanegol (e.e., 10–20 munud) er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer ymarfer ysbeidiol ac adalw.

02. Defnyddio camau addysgu llai (gydag addysgu cronnol)

- Gofalwch bod pob gwers yn canolbwyntio'n benodol ar un elfen newydd fach, ac yna cymhwyso hynny yn helaeth wedyn.
- Ceisiwch osgoi cyflwyno sawl patrwm newydd a sawl arfer newydd yn yr un sesiwn.

03. Cynnwys adolygu cronnol cyson yn ysbeidiol.

Er enghraifft, gallech gynnwys adolygiad cryno ym mhob sesiwn (e.e. gweithgaredd arddweud byr).

04. Ymestyn ymarfer dan arweiniad a darparu adborth yn syth.

- Parhewch i ymarfer nes bod y dysgwr yn llwyddiannus yn gyson.
- Cywirwch wallau'n gyflym ac yn adeiladol ac yna ewch ati i ymarfer yr un eitem eto yn gywir ar unwaith.
- Cadwch ymarfer yn weithredol gyda digon o adborth cadarnhaol (e.e., ymateb ar lafar, tracio efo bys).

05. Lleihau llwyth gwybyddol (yn enwedig lle mae sylw/cof gweithio yn wan)

- Defnyddiwch dasgau byr gan newid dim ond un peth ar y tro.
- Cyflwynwch lai o eitemau ar y dudalen, gan ddefnyddio print glân, diaddurn a lleihau elfennau a allai dynnu sylw yn weledol.
- Rhowch anogaeth yn gyson a chadwch at yr un drefn mewn gwersi fel bod y cof gweithio yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y dasg llythrennedd.

Sgaffaldiau a awgrymir ar gyfer dadgodio

Mae dysgwyr ag anawsterau cyfuno yn aml angen mwy o gymorth gyda chyfuno nag yr ydym yn ei dybio. Mae dulliau defnyddiol yn cynnwys:

- Seiniau parhaus yn gyntaf (lle bo modd) i gefnogi cyfuno llyfn (gellir ymestyn seiniau parhaus, fel /m/, /s/ a /f/; ni ellir ymestyn seiniau stop, fel /b/ a /t/).
- Cyfuno araf-i-gyflym, gan symud trwy:
  1. Ynganu ffonemau yn araf
  2. Cyfuno gyda llai o seibiau
  3. Cyfuno yn normal
- Cyfleoedd llwyddiannus dro ar ôl tro gan ddefnyddio setiau geiriau byr, (e.e. 5–10 gair), wedi'u hailadrodd dros ddyddiau gyda bylchau rhwng y sesiynau.

Sgaffaldiau a awgrymir ar gyfer rhuglder

- Defnyddiwch ailddarllen darnau byr y gellir eu dadgodio i feithrin arfer awtomatig.
- Sicrhewch bod gwaith rhuglder yn parhau i fynnu darllen geiriau yn gywir (ceisiwch beidio â defnyddio strategaethau sy'n osgoi dadgodio).

Dysgwyr Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) ac amlieithog

Gall llawer o ddysgwyr amlieithog wneud cynnydd cyflym mewn dadgodio gyda ffoneg systematig. Ar yr un pryd, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt gydag iaith lafar, geirfa, a dealltwriaeth, yn enwedig yn iaith yr addysgu.

Egwyddorion allweddol

- Parhewch i addysgu'r cod systematig i'r dysgwyr sydd angen hynny, gan addasu swm yr addysgu a'r dull ymarfer. Unwaith y bydd dadgodio yn gadarn, ceisiwch addasu'r gefnogaeth i'r anghenion sy'n parhau mewn rhuglder, iaith, deall neu sillafu.
- Sicrhewch y gall dysgwyr glywed a chynhyrchu ffonemau a all fod yn anghyfarwydd (efallai y bydd angen i chi ddarparu ymarfer ynganu byr, penodol yn ôl yr angen).
- Cyfunwch ffoneg ag addysgu iaith bwrpasol:
  - Cyflwynwch eirfa allweddol ar gyfer testunau y gellir eu dadgodio ymlaen llaw.
  - Adeiladwch ddealltwriaeth ar lefel brawddeg (gramadeg, cysyllteiriau, morffoleg lle bo'n briodol).
  - Datblygwch wybodaeth gefndir i gefnogi dealltwriaeth.

Ysgolion uwchradd

Erbyn yr ysgol uwchradd, bydd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr wybodaeth ffonig gadarn, yn enwedig lle mae addysgu ffoneg o ansawdd uchel wedi'i gyflwyno'n effeithiol yn y cyfnod cynradd yn y Gymraeg ac yn y Saesneg (lle bo'n berthnasol). I'r dysgwyr hyn, nid oes angen addysgu ffoneg mwyach, a dylai cymorth llythrennedd ganolbwyntio ar ruglder, geirfa, dealltwriaeth, a gofynion darllen ac ysgrifennu meysydd cwricwlwm (llythrennedd disgyblaethol). Fodd bynnag, mae nifer fach o ddysgwyr yn mynd i'r ysgol uwchradd heb sgiliau darllen geiriau cwbl gadarn. Gall y dysgwyr hyn barhau i brofi anawsterau gyda:

- Dadgodio geiriau anghyfarwydd yn gywir.
- Darllen geiriau hirach neu aml-sillafog yn effeithiol.
- Sillafu'n gywir, yn enwedig lle mae cyfatebiaethau sain-sillafiad yn anghyson (fel yn Saesneg).
- Darllen yn ddigon rhugl i gael mynediad at y cwricwlwm uwchradd.

I'r dysgwyr hyn, gall ffoneg ac addysgu ar lefel geiriau fod yn angenrheidiol o hyd, hyd yn oed yn yr ysgol uwchradd. Mae hyn oherwydd bod gwendidau mewn darllen geiriau a sillafu yn parhau i osod cyfyngiad sylweddol ar ddealltwriaeth wrth ddarllen, datblygu geirfa, a dysgu ar draws meysydd cwricwlwm. Mae'n bwysig nodi nad dychwelyd at addysgu darllen cynnar i bob dysgwr yw ffoneg yn yr ysgol uwchradd, ac nid addysgu dosbarth cyfan mohono (oni bai bod pob dysgwr ei angen). Yn hytrach, mae'n cael ei ddeall orau fel ymyrraeth benodol, cyfyngedig o ran amser i ddysgwyr y mae eu hasesiadau'n dynodi anawsterau parhaus ar lefel geiriau.

Mae cyfran y dysgwyr sydd angen cymorth ffoneg yn gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd ysgol, felly dylai cymorth yn yr ysgol uwchradd gael ei dargedu'n fanwl a'i glustnodi yn sgil asesu yn hytrach na phryder cyffredinol am ddarllen dysgwr. Pan fo nifer fach o ddysgwyr yn dal i fod angen y cymorth hwn, nid yw hyn yn golygu nad yw addysgu cynharach wedi gweithio. Mae angen mwy o addysgu, a hynny am gyfnod hwy, ar rai dysgwyr, hyd yn oed lle bu clustnodi ac addysgu effeithiol yn y cyfnod cynradd. Gall darllen geiriau a sillafu wella yn yr ysgol uwchradd lle mae addysgu wedi'i dargedu a'i gynnal.

Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu, ar gyfer darllenwyr hŷn sy'n cael anawsterau, bod ymyrraeth yn fwyaf effeithiol pan fydd yn mynd i'r afael â'r maes anhawster penodol. Lle mae dysgwyr yn ansicr ynghylch dadgodio neu adnabod geiriau , mae ymyrraeth yn effeithiol os bydd yn cynnwys addysgu penodol, systematig o'r cod alffabetig, yn aml ochr yn ochr â chyfarwyddyd mewn strwythur sillafau a morffoleg. Nid anhawster ar lefel geiriau yn aml yw unig anhawster dysgwr, ac ni ddylai ffoneg ddod yn ymateb diofyn i bob anhawster darllen.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod llawer o raglenni ffoneg wedi'u cynllunio ar gyfer dysgwyr iau. Gallant deimlo'n amhriodol o ran datblygiad, yn chwalu hyder neu'n codi cywilydd ar y dysgwr pan gânt eu defnyddio mewn lleoliadau uwchradd. Gall hyn leihau cymhelliant dysgwyr a'u parodrwydd i gymryd rhan, hyd yn oed pan fo'r cynnwys addysgu sylfaenol yn berthnasol. Gall dysgwyr sydd wedi cael cymorth ar lefel geiriau am sawl blwyddyn hefyd fod wedi colli diddordeb. Mae hynny'n rheswm dros ddewis deunyddiau sy'n briodol i oedran a bod yn glir gyda dysgwyr pam fod yr addysgu'n digwydd a pha mor hir y disgwylir iddo barhau.

Felly mae angen i ddarpariaeth ffoneg uwchradd effeithiol:

- Fod yn briodol i oedran o ran iaith a deunyddiau.
- Canolbwyntio ar gynnwys a ddefnyddir yn aml (e.e. patrymau sillafu cyffredin a darllen geiriau aml-sillafog).
- Cael ei chyflwyno mewn grwpiau bach neu un-i-un.
- Cael ei ystyried fel cymorth i alluogi mynediad at ddysgu.

Yn yr ysgol uwchradd, nod ffoneg yw mynd i'r afael â bylchau penodol mewn sgiliau darllen geiriau a sillafu dysgwyr fel y gallant gael mynediad at y cwricwlwm ehangach, nid ailaddysgu darllen cynnar.

Mae awgrymiadau ymarferol yn cynnwys:

01. Asesu

Cyn cyflwyno ymyrraeth ffoneg neu astudio geiriau, dylai ysgolion ddefnyddio asesiadau byr, penodol i glustnodi dysgwyr y mae eu prif rwystr i ddarllen ar lefel geiriau. Mae dangosyddion defnyddiol yn cynnwys anawsterau gyda:

- Dadgodio geiriau anghyfarwydd.
- Darllen geiriau aml-sillafog yn gywir ac yn effeithiol.
- Anhawster darllen yn rhugl sy'n cyfyngu ar ddealltwriaeth.
- Anawsterau sillafu.

Os amheuir bod gan ddisgybl angen o ran gwella darllen neu sillafu, ceisiwch asesu sgiliau ar lefel gair gan ystyried dealltwriaeth ar wahân. Mae rhai darllenwyr yn darllen yn gywir ond nid ydynt yn deall y testun. Dylai gwiriadau lefel gair wahaniaethu rhwng cynnwys a addysgwyd ac na chafodd ei addysgu a helpu clustnodi pa gyfatebiaethau neu strwythurau geiriau sydd angen eu haddysgu. Gallai'r gwiriadau hynny gynnwys:

- Gwiriad byr o ddarllen geiriau a ffug eiriau.
- Tasg darllen geiriau aml-sillafog.
- Prawf sillafu byr.
- Arsylwi cywirdeb a rhuglder darllen.

Dylai canlyniadau asesu lywio penderfyniadau ynghylch a oes angen ffoneg, pa gynnwys i'w addysgu, a dwyster a hyd y cymorth. Mae mesur safonedig byr o ddarllen geiriau a ffug eiriau yn ddefnyddiol ar gyfer clustnodi lle gall addysgu ffoneg ychwanegol fod yn briodol. Gall perfformiad gwannach ar ffug eiriau nag ar eiriau go iawn ddynodi anhawster wrth gymhwyso gwybodaeth a sgiliau ffoneg, tra bod perfformiad isel ar y ddau yn awgrymu angen darllen geiriau ehangach y dylid ei archwilio ymhellach. Gall ysgolion ddefnyddio mesur o'r fath i sgrinio dysgwyr wrth iddynt gyrraedd Blwyddyn 7, i benderfynu pwy sydd angen asesu pellach neu addysgu ffoneg wedi'i dargedu, ac yna adolygu cynnydd dros amser. Mae un asesiad o'r fath, y SgrînDdarllen, ar gael ar hyn o bryd i ysgolion yn rhad ac am ddim trwy raglen genedlaethol CAL:ON Cymru.

02. Ymyrraeth wedi'i thargedu

Mewn lleoliadau uwchradd, dylid darparu ffoneg fel arfer fel:

- Ymyrraeth grŵp bach neu un-i-un.
- Digwyddiad rheolaidd (e.e. sawl gwaith yr wythnos).
- Cyfleoedd i adolygu cynnydd dysgwyr.

Dylai addysgu ganolbwyntio ar gynnwys a ddefnyddir yn aml, megis:

- Patrymau sillafu Saesneg cyffredin a llai cyson (gweler Tablau 1 a 2).
- Strategaethau ar gyfer dadgodio ac amgodio geiriau aml-sillafog.
- Cysylltiadau rhwng ffoneg, strwythur sillafau, a morffoleg.

Mae hyn yn sicrhau bod amser prin yr ymyrraeth yn cael ei dreulio ar gynnwys sydd fwyaf tebygol o wella darllen a sillafu dysgwyr ar gyfer mynediad at y cwricwlwm. Ni ddylid clustnodi angen ar lefel geiriau o sgôr darllen byd-eang yn unig, nac o ddangosyddion fel Saesneg fel iaith ychwanegol neu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae ysgolion uwchradd hefyd yn wynebu cyfyngiadau real o ran amserlen a gofod, ac mae unrhyw ymyrraeth yn cymryd amser o ddysgu cwricwlwm arall, felly dylai'r achos drosto fod yn glir a dylid ystyried ei effaith.

03. Addasu deunyddiau

Mae llawer o raglenni ffoneg wedi'u cynllunio ar gyfer dysgwyr iau. Wrth weithio gyda dysgwyr uwchradd:

- Defnyddiwch destunau, enghreifftiau a chyd-destunau sy'n briodol i oedran. Gall testunau sydd o ddiddordeb i'r dysgwr, gan gynnwys cylchgronau a deunydd byr arall, weithio'n dda lle nad yw testunau y gellir eu dadgodio yn addas.
- Gwnewch y diben yn eglur (e.e. "Bydd hyn yn helpu gydag agweddau eraill ar ysgol a bywyd").

Mae'n anodd dod o hyd i raglenni ffoneg parod ar gyfer plant hŷn. Os yw ysgolion yn ystyried defnyddio un a gynlluniwyd ar gyfer plant iau, efallai y bydd angen i chi:

- Addasu cyflymder a mannau cychwyn.
- Blaenoriaethu adrannau perthnasol y rhaglen.
- Ychwanegu deunyddiau sy'n gysylltiedig â meysydd cwricwlwm.

04. Sicrhau cyfarwyddyd systematig

Hyd yn oed yn yr ysgol uwchradd, dylai addysgu ar lefel geiriau effeithiol ddilyn yr egwyddorion a drafodwyd yn gynharach. Mae hyn yn cynnwys:

- Addysgu penodol a systematig.
- Addysgu cronnol yn cynnwys adolygu a chadarnhau yn rheolaidd.
- Canolbwyntio ar gywirdeb yn gyntaf cyn symud ymlaen i feithrin rhuglder.
- Cefnogi darllen gan roi adborth a chywiro gwallau ar unwaith.
- Osgoi dulliau sy'n annog dysgwyr i ddyfalu o gyd-destun neu luniau yn hytrach na darllen geiriau yn gywir.

05. Adolygu cynnydd

Dylid adolygu ymyrraeth yn rheolaidd gan ddefnyddio'r un math o fesurau a ddefnyddiwyd i glustnodi'r angen am ffoneg. Dylai ysgolion ystyried:

- A yw cywirdeb a rhuglder darllen geiriau yn gwella.
- A yw dysgwyr yn trosglwyddo sgiliau i ddarllen y cwricwlwm.
- A oes angen cymorth ffoneg parhaus, neu a ddylai'r ffocws symud i feysydd eraill o fewn llythrennedd.

Darllen Ychwanegol

Chiappe, P., Siegel, L. S., & Wade-Woolley, L. (2002). Linguistic diversity and the development of reading skills: A longitudinal study. Scientific Studies of Reading, 6(4), 369-400. https://doi.org/10.1207/S1532799XSSR0604_04

Edmonds, M. S., Vaughn, S., Wexler, J., Reutebuch, C. K., Cable, A., Klingler Tackett, K., & Schnakenberg, J. W. (2009). A synthesis of reading interventions and effects on reading outcomes for older struggling readers. Review of Educational Research, 79(1), 262-300. https://doi.org/10.3102/0034654308325998

Galuschka, K., Ise, E., Krick, K., & Schulte-Körne, G. (2014). Effectiveness of treatment approaches for children and adolescents with reading disabilities: A meta-analysis of randomized controlled trials. PLOS ONE, 9(2), e89900. https://doi.org/10.1371/journal.pone.0089900

Geva, E., & Siegel, L. S. (2000). Orthographic and cognitive factors in the concurrent development of basic reading skills in two languages. Reading and Writing, 12, 1-30. https://doi.org/10.1023/A:1008017710115

Gustafson, S., Fälth, L., Svensson, I., Tjus, T., & Heimann, M. (2011). Effects of three interventions on the reading skills of children with reading disabilities in grade 2. Journal of Learning disabilities, 44(2), 123-135. https://doi.org/10.1177/0022219410391187

Kim, Y. S. G., & Pilcher, H. (2016). What is listening comprehension and what does it take to improve listening comprehension? In Interventions in learning disabilities: A handbook on systematic training programs for individuals with learning disabilities (pp. 159-173). Springer International Publishing.

Lesaux, N. K., & Siegel, L. S. (2003). The development of reading in children who speak English as a second language. Developmental Psychology, 39(6), 1005-1019. https://doi.org/10.1037/0012-1649.39.6.1005

Roediger, H. L., III, & Karpicke, J. D. (2006). Test-enhanced learning: Taking memory tests improves long-term retention. Psychological Science, 17(3), 249-255. https://doi.org/10.1111/j.1467-9280.2006.01693.x

Sweller, J. (1988). Cognitive load during problem solving: Effects on learning. Cognitive Science, 12(2), 257-285. https://doi.org/10.1207/s15516709cog1202_4

Wanzek, J., & Vaughn, S. (2007). Research-based implications from extensive early reading interventions. School Psychology Review, 36(4), 541-561. https://doi.org/10.1080/02796015.2007.12087917

Tabl 8:
Patrymau sillafu cyffredin a llai cyson yn y Saesneg

CATEGORI	PATRWM / FFOCWS	SILLAFIADAU CYFFREDIN	ENGHREIFFTIAU
Sillafiadau llafariaid amgen	/ee/ /ai/ /oa/ /igh/ /oo/ (hir/byr)	<ee> <ea>, <e-e>, <y>, <ie> <ai>, <ay>, <a-e>, <eigh>, <ey> <oa>, <o-e>, <ow>, <oe> <igh>, <i-e>, <y> <oo>, <u-e>, <ew>/<oo>, <u>	see, mean, these, happy, field rain, play, name, eight, they boat, home, grow, toe light, time, cry moon, rule, few/book, push
Llafariaid gostyngedig a phwyslais	Schwa mewn sillafau diacen Newidiadau llafariad sy'n gysylltiedig â phwyslais	<a>, <e>, <i>, <o>, <u> Amrywiol	about, problem, family, separate photograph, photography
Sillafiadau cytseiniaid	/k/ /j/ /f/ /s/	<c>, <k>, <ck>, <ch>, <que> <j>, <g>, <dge>, <ge> <f>, <ff>, <ph>, <gh> <s>, <ss>, <c>, <sc>	cat, kite, back, school, unique jam, giant, bridge, change fun, off, photo, laugh sun, lesson, city, science
Confensiynau sillafu morffolegol	Dyblu cytseiniaid Gollwng <e> <y> i <i>	dyblu'r gytsain derfynol gollwng (e) cyn ôlddodiad <y> → <i> cyn ôlddodiad	Hop, hopping; Begin, beginning Make, making; Hope, hoping Happy, happiness; Carry, carried
Morffoleg	Terfyniadau ffurfdro Ôlddodiaid sy'n ffurfio enw Ôlddodiaid sy'n ffurfio ansoddair	<-s>, <-es>, <-ed> <ion>, <ian> <ous>, <ial> <ive>.	played, jumped, wanted Information (in + form + a + tion), discussion (dis + cuss + ion), musician (music + ian) dangerous (danger + ous) special (spec + ial), active (act + ive)

Tabl 9:
Patrymau sillafu cyffredin a llai cyson yn y Gymraeg

CATEGORI	PATRWM / FFOCWS	SILLAFIADAU CYFFREDIN	ENGHREIFFTIAU
Sillafiadau llafariaid	Llafariaid hir a byr Gwahaniaeth y/u Deuseiniaid Pwyslais ac ansawdd llafariad	<a>, <e>, <i>, <o>, <u>, <w>, <y> <y>, <u> <ae>, <ai>, <au>, <ei>, <eu>, <oe>, <wy> y derfynol/annherfynol	mam, pen, tin, mor, mur byd, dyn, mur, sul cae, taith, haul, eira, gwneud, coeden, mwyn cymydog, mynydd, ysgol.
Sillafiadau cytseiniaid	Deugraffau Cymraeg Clystyrau cytseiniaid	<ll>, <rh>, <dd>, <ff>, <ng>, <ch>, <th>, <ph>, <str->, <bl->, <tr->, <-nth>	llaw, rhif, dydd, ffrind, bach, stryd, plant, bron, trên
Patrymau treiglo	Treiglad meddal (p, t, c, b, d, g, m, ll, rh) Treiglad trwynol (p, t, c, b, g, m) Treiglad llaes (p, t, c)	<p> → <b>, <t> → <d>, <c> → <g>, <c> → <ngh>, <p> → <mh>, <t> → <nh>, <c> → <ch>, <p> → <ph>, <t> → <th>.	pen → ben; tad → dad; cath → gath; cath → nghath; pen → phen;
Confensiynau sillafu	Dewisiadau sillafu y ac u Dyblu cytseiniaid	<y> / <u> <nn>, <rr>	byd, dyn, mur, cwm ennill, torri: dyblu llythrennau yn wahanol i'r deugraffau uchod lle mae dwy lythyren yn cynrychioli un sain
Morffoleg	Cysylltnodi a geiriau cyfansawdd Terfyniadau ffurfdroadol Ôlddodiaid cyffredin Rhagddodiaid cyffredin Teuluoedd geiriau	ffurfiau cyfansawdd <-au>, <-odd> <-iad>, <-ol>, <-og>, <-ar>, <-wr> / <-ydd> <an->, <ail->, <cam->, <rhag-> gwreiddyn a ffurfiau sy'n deillio	pêl-droed, rheilffordd, llyfrau, canodd, datblygiad, cenedlaethol, pigog, lliwgar, dysgwr, anhapus, ailwneud, camddeall, rhagweld dysgu, dysgwr

Atodiad A: Sut mae codau'r Gymraeg a'r Saesneg yn cymharu

Isod, fe welwch dablau a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer:

- Cynllunio'r symud i gyflwyno ffoneg y Saesneg ym Mlwyddyn 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Cynllunio ffoneg y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
- Gwneud synnwyr o wallau. Pan fydd dysgwr yn ysgrifennu *fan* am *van*, neu'n darllen <u> Gymraeg fel y llafariad yn *cup*, mae'r tablau'n dangos y rheswm dros y gwall, a beth i'w addysgu nesaf.

Mae'r tablau yn cwmpasu'r cyfatebiaethau y mae rhaglenni ffoneg cynnar yn eu haddysgu mewn gwirionedd. Mae sillafiadau prin, a therfyniadau sy'n perthyn i forffoleg yn hytrach na ffoneg (megis -ed a -tion), wedi'u gadael allan yn fwriadol.

Sut i ddarllen y tablau

Mae pob rhes yn dangos un graffem, beth mae'n ei ddweud yn y Gymraeg, beth mae'n ei ddweud yn y Saesneg, a sut mae'r ddau yn perthyn. Mae'r lliw yn rhoi'r berthynas i chi ar un olwg:

- **Gwyrdd (Yr un fath):** mae'n trosglwyddo.
- **Melyn (Wedi'i rannu'n rhannol):** mae'r brif gyfatebiaeth yn trosglwyddo, ond mae un iaith yn ychwanegu rhywbeth ychwanegol.
- **Coch (Gwahanol):** mae'r un llythrennau yn dweud pethau gwahanol yn y ddwy iaith.
- **Glas (Cymraeg yn unig neu Saesneg yn unig):** dysgu newydd, a addysgir yn benodol yn y ffordd eglur arferol. Mae'r nodyn yn dweud pryd y mae dysgwyr eisoes yn gwybod y sain, felly dim ond y sillafiad sy'n newydd.

Isod, dangosir y symbolau sain a ddefnyddir yn y canllaw hwn. Mae'r marc hyd /:/ yn nodi llafariad hir. Mae'r enghreifftiau eang hyn yn disgrifio seiniau, nid y nifer o lythrennau sydd wedi'u hysgrifennu.

/θ/ fel yn thin, cath;

/ð/ fel yn this, eistedd;

/ʃ/ fel yn shop, siop;

/ʧ/ fel yn chip;

/ʤ/ fel yn jam;

/ŋ/ fel yn sing, llong;

/ɬ/ fel yn ll Gymraeg (llaw);

/χ/ fel yn ch Gymraeg (bach);

/ə/ fel yn about, yn;

/ɨ/ — u yn y Gogledd ac y glir; marciau hyd (:) fel mewn llafariad estynedig.

Lle mae ardaloedd yng Nghymru yn ynganu llythrennau yn wahanol (/u/, /y/ ac /i/), mae'r nodiadau'n amlygu hynny. Gwiriwch yr enghreifftiau gan ystyried y Gymraeg y mae eich dysgwyr yn ei defnyddio.

Tabl A1:
Llythrennau unigol

GRAFFEM	YN GYMRAEG	YN SAESNEG	GORGYFFWRDD
a	/a/ byr, a hir: afal, tad	/æ/: cat; mae sillafiadau hir yn wahanol (Tabl A4)	Wedi'i rannu'n rhannol. Llafariad fer debyg; llafariaid hir wedi'u hysgrifennu'n wahanol
b	/b/: bara	/b/: bat	**Yr un fath**
c	/k/ bob amser: ci, ceg	/k/: cat; /s/ o flaen e, i, y: cell, city	Wedi'i rannu'n rhannol. Mae Saesneg yn ychwanegu /s/; nid yw <c> Gymraeg byth yn meddalu
d	/d/: dant	/d/: dog	**Yr un fath**
e	/ɛ/ byr, e hir: melyn, hen	/ɛ/: bed; mae sillafiadau hir yn wahanol (Tabl A4)	Wedi'i rannu'n rhannol. Llafariad fer debyg
f	/v/: fel, afal	/f/: fun	**Gwahanol. Mae <f> ac <ff> Saesneg ill dwy yn swnio fel <ff> Gymraeg**
g	/g/ bob amser: gardd, gêm	/g/: got; /ʤ/ o flaen e, i, y: gem	Wedi'i rannu'n rhannol. Mae Saesneg yn ychwanegu g feddal; cymharwch gêm Cymraeg a gem Saesneg
h	/h/: het	/h/: hat	**Yr un fath**
i	/ɪ/, /iː/: cinio, ci; cytsain /j/: iaith	/ɪ/: sit; mae sillafiadau i hir yn wahanol (Tabl A4)	Wedi'i rannu'n rhannol. Llafariad fer yn agos; nid oes i'r <i> gytsain Gymraeg gymar yn Saesneg
j	/ʤ/: jam (geiriau benthyg)	/ʤ/: jam	**Yr un fath**
k	ni chaiff ei defnyddio; mae c yn ysgrifennu /k/	/k/: kit	**Saesneg yn unig. Sain = <c> Gymraeg**
l	/l/: lolfa	/l/: leg	**Yr un fath**
m	/m/: mam	/m/: man	**Yr un fath**
n	/n/: nain	/n/: net	**Yr un fath**
o	/ɔ/ byr, /o/ hir: toc	/ɒ/: hot; mae sillafiadau hir yn wahanol (Tabl A4)	Wedi'i rannu'n rhannol. Llafariad fer debyg
p	/p/: pen	/p/: pig	**Yr un fath**
q	ni chaiff ei defnyddio	bob amser qu, /kw/: queen	**Saesneg yn unig**
r	/r/ (wedi'i rholio): radio	/r/: run	**Yr un fath. Mae ansawdd y sain yn wahanol; mae'r mapio'n trosglwyddo**
s	/s/ bob amser: sedd	/s/: sun; /z/ yn is, dogs	Wedi'i rannu'n rhannol. Mae Saesneg yn ychwanegu /z/; nid oes gan y Gymraeg /z/
t	/t/: tad	/t/: top	**Yr un fath**
u	Gogledd /ɨ/, De /i/: un, munud	/ʌ/: cup; /ʊ/: put	**Gwahanol. Llafariaid hollol wahanol**
v	ni chaiff ei defnyddio; mae f yn ysgrifennu /v/	/v/: van	**Saesneg yn unig. Sain = <f> Gymraeg**
w	llafariad /ʊ/, /uː/: cwm, dŵr; cytsain /w/: wedi	cytsain /w/ yn unig: wet	Wedi'i rannu'n rhannol. Defnydd cytsain wedi'i rannu; nid oes i'r <w> llafariad Gymraeg gymar yn Saesneg
x	ni chaiff ei defnyddio (bocs)	/ks/: box	**Saesneg yn unig**
y	/ə/: yn, mynydd (sillaf gyntaf); llafariad glir: dyn, sillafau terfynol	cytsain /j/: yes; llafariad: happy, my, gym	**Gwahanol. Mae'r ddwy system yn hollol wahanol**
z	ni chaiff ei defnyddio'n frodorol (sw am zoo)	/z/: zip	**Saesneg yn unig. Nid oes gan y Gymraeg /z/**

Tabl A2:
Deugraffau cytsain a sillafiadau cytsain eraill

GRAFFEM	YN GYMRAEG	YN SAESNEG	GORGYFFWRDD
ch	/χ/: bach (llythyren o'r wyddor)	/ʧ/: chip; /k/: school	**Gwahanol**
ck	ni chaiff ei defnyddio	/k/: duck	**Saesneg yn unig. Sain = <c> Gymraeg**
dd	/ð/: eistedd (llythyren o'r wyddor)	d ddwbl, /d/: add	**Gwahanol. Mae <dd> Gymraeg yn swnio fel <th> Saesneg yn this**
ff	/f/: ffenest (llythyren o'r wyddor)	f ddwbl, /f/: off	**Yr un fath. Yr un sain; llythyren yn Gymraeg, confensiwn dyblu yn Saesneg**
ll	/ɬ/: llaw (llythyren o'r wyddor)	l ddwbl, /l/: hill	**Gwahanol. Ni chaiff y sain Cymraeg ei ddefnyddio yn Saesneg**
ng	/ŋ/: llong (llythyren o'r wyddor)	/ŋ/: sing	**Yr un fath. Weithiau <n> + <g> yn Gymraeg (Bangor)**
ph	/f/: ei phen (yn bennaf dan dreiglad)	/f/: phone	**Yr un fath**
rh	r ddi-lais: rhaff (llythyren o'r wyddor)	ni chaiff ei defnyddio	**Cymraeg yn unig**
sh	ni chaiff ei defnyddio; mae si yn ysgrifennu'r sain hwn	/ʃ/: shop	**Saesneg yn unig. Sain = <si> Gymraeg**
si	/ʃ/: siop	nid yw'n uned sillafu	**Cymraeg yn unig. Sain = <sh> Saesneg**
th	/θ/: cath (llythyren o'r wyddor)	/θ/: thin a /ð/: this	**Wedi'i rannu'n rhannol. <th> ddi-lais wedi'i rhannu; mae Saesneg yn ychwanegu /ð/, y mae'r Gymraeg yn ei ysgrifennu fel <dd>**
wh	ni chaiff ei defnyddio	/w/: when	**Saesneg yn unig**
tch	ni chaiff ei defnyddio	/ʧ/: catch	**Saesneg yn unig**
dge	ni chaiff ei defnyddio	/dʒ/: badge	**Saesneg yn unig**

Tabl A3:

Cyfuniadau llafariaid

GRAFFEM	YN GYMRAEG	YN SAESNEG	GORGYFFWRDD
ai	deusain: gwaith	/eɪ/: rain	**Gwahanol. Mae'r sain a gynrychiolir yn y Gymraeg gan <ai> yn agos i'r sain a gynrychiolir yn y Saesneg gan <igh> ac <i-e> (light, time).**
au	deusain: haul; terfyniad lluosog cyffredin iawn (llyfrau)	/ɔː/: sauce	**Gwahanol**
aw	deusain: mawr, llaw	/ɔː/: saw	**Gwahanol. Mae'r sain a gynrychiolir yn y Gymraeg gan <aw> yn agos i'r sain a gynrychiolir yn y Saesneg gan <ou> / <ow> (out, cow).**
ei	deusain: eira	/eɪ/: vein (sillafiad llai cyffredin)	**Gwahanol**
eu	deusain: teulu	anaml y caiff ei haddysgu	**Gwahanol**
ew	deusain: tew, mewn	/juː/, /uː/: new, flew	**Gwahanol**
iw	deusain: lliw	ni chaiff ei defnyddio	**Cymraeg yn unig**
yw	deusain: byw	ni chaiff ei defnyddio	**Cymraeg yn unig**
oe	deusain: coed	o hir: toe	**Gwahanol**
oi	deusain: troi	/ɔɪ/: coin	**Yr un fath. Cyfatebiaeth union brin**
oy	ni chaiff ei defnyddio	/ɔɪ/: boy	**Saesneg yn unig. Sain = <oi> Gymraeg**
ou	prin	/aʊ/: out	**Saesneg yn unig**
ow	geiriau benthyg yn unig	o hir: snow; /aʊ/: cow	**Saesneg yn unig.**
wy	deusain: bwyd, mwyn	prin (Wye)	**Cymraeg yn unig**
â ê î ô û ŵ ŷ	mae'r acen grom yn nodi llafariad hir: tân, môr, dŵr	ni chaiff ei defnyddio	**Cymraeg yn unig. Mae Saesneg yn nodi llafariaid hir gyda phatrymau llythrennau yn lle hynny (Tabl A4)**

Tabl A4:

Sillafiadau llafariaid Saesneg yn unig, wedi'u grwpio yn ôl sain

SAIN SAESNEG	SILLAFIADAU SAESNEG	ENGHREIFFTIAU	CYMHARIAETH Â'R GYMRAEG
a hir	a-e, ay, (ai)	make, day, rain	Dim cymar Cymraeg; mae <ai>, <ei> Cymraeg yn swnio'n wahanol
e hir	ee, ea, e-e, y	see, eat, these, happy	Mae llafariad cyffelyb yn digwydd yn y Gymraeg <i> fel yn ci. Yn nhafodieithoedd Cymraeg y De, gall <u> gael ei ynganu mewn ffordd debyg.
i hir	igh, i-e, ie, y	light, time, pie, my	Yn agos at <ai> Gymraeg (gwaith)
o hir	oa, o-e, ow	boat, home, snow	Mae o hir Gymraeg (môr) yn llafariad pur, nid llithriad
oo hir	oo, ue, u-e, ew	moon, blue, flute, flew	Mae'r Gymraeg yn ysgrifennu'r sain fel <w> (dŵr)
oo byr	oo	book	Mae'r Gymraeg yn ysgrifennu'r sain fel <w> (cwm)
or / aw	or, ore, aw, au	for, more, saw, sauce	Dim cymar Cymraeg; mae <aw> ac <au> Cymraeg yn swnio'n wahanol (Tabl C1)
er	er, ir, ur	her, bird, turn	Nid oes gan y Gymraeg y llafariad /**ɜ**ː/
ou / ow	ou, ow	out, cow	Yn agos at <aw> Gymraeg (mawr)
oi / oy	oi, oy	coin, boy	Yn cyfateb i <oi> Gymraeg (troi)
air / ear	air, are, ear	hair, care, bear	Dim cymar Cymraeg

Atodiad B: Rhestr wirio ar gyfer dewis rhaglen ffoneg

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r hyn y mae rhaglen gref yn ei ddarparu, a sut mae penderfynu a oes tystiolaeth dda ar ei chyfer.

Mae'r rhestr wirio hon yn gwerthuso addysgu ffoneg a'i gymhwyso mewn darllen a sillafu. Nid yw'n asesu holl gwricwlwm llythrennedd yr ysgol. Dylai ysgolion hefyd ystyried sut bydd y rhaglen yn gweithio ochr yn ochr gyda'u darpariaeth ar gyfer datblygu iaith lafar, geirfa, dealltwriaeth, ymgysylltu gydag amrywiaeth o destunau ehangach ac ysgrifennu pellach. Nid oes angen i raglen ffoneg ddarparu'r holl elfennau hyn o addysgu neu adnoddau, ond dylai gweithredu rhaglen ffoneg alluogi yr elfennau hyn i ddatblygu y tu hwnt i ffoneg.

Fel gofyn cychwynnol, dylai'r rhaglen neu'r dull gadw at ddiffiniad FfSS yn Adran 2: addysgir cyfatebiaethau graffem-ffonem yn benodol mewn dilyniant bwriadol cronnol; cyfuno yw'r brif strategaeth ar gyfer darllen geiriau anghyfarwydd, ac addysgir segmentu ar gyfer sillafu.

Gweithiwch drwy'r rhestr gyda deunyddiau'r rhaglen o'ch blaen, a chofnodwch lle y gwelsoch bob peth. Marciwch bob eitem **Y** (wedi'i bodloni'n glir), **R** (wedi'i bodloni'n rhannol) neu **N** (heb ei bodloni).

Mae'r rhestr wirio hon yn tynnu ar feini prawf rhaglen, y canllawiau ynghylch tystiolaeth, a'r canllawiau ynghylch cywirdeb cyflwyno yn Adran 4, y diffiniad o FfSS yn Adran 2, a'r canllawiau ynghylch cyd-destun dwyieithog yn Adran 3.

BETH I CHWILIO AMDANO	NODIADAU	Y / R / N
CYNNWYS A THREFN		
Cwmpas a threfn systematig, gronnol, mewn camau hylaw, gyda strwythur gwersi clir. Adolygu penodol wedi'i gynnwys, gydag arweiniad ar gyflymder a beth i'w wneud pan fydd angen mwy o amser ar ddysgwyr. Arferion penodol ar gyfer cyfuno i ddadgodio a segmentu i sillafu, gydag iaith athro eglur ac enghreifftiau. Ymwybyddiaeth ffonemig wedi'i chysylltu â llythrennau a phrint.		
YMARFER AC ATGYFNERTHU		
Ymarfer cronnol sy'n adeiladu cywirdeb yn gyntaf, yna yn meithrin arfer awtomatig. Adalw ysbeidiol cynnwys a addysgwyd yn flaenorol. Ymarfer ar bob lefel: CGFf, gair, brawddeg a thestun cysylltiedig, wrth ddarllen ac wrth sillafu.		
TESTUNAU A DYSGU GEIRIAU		
Testunau y gellir eu dadgodio neu gyfatebol sy'n cyd-fynd â'r cyfatebiaethau a addysgwyd, gydag arweiniad clir ar sut a phryd i'w defnyddio ac ar eu cyfuno â thestunau cyfoethocach. Dull eglur o addysgu geiriau eithriad cyffredin sy'n tynnu sylw at y rhannau y gellir eu dadgodio. Rhuglder wedi'i ddatblygu trwy ddarllen ar lafar yn gywir, gyda modelu ac adborth, gan symud o eiriau i destun cysylltiedig. Y tu hwnt i'r cod cynnar (os defnyddir y tu hwnt i'r ysgol gynradd gynnar) Cynnydd clir i eiriau aml-sillafog, morffoleg a chonfensiynau sillafu.		
ASESU		
Gwiriadau o fewn y rhaglen o ymwybyddiaeth ffonemig, CGFfau a addysgwyd a dadgodio (gan gynnwys darllen ffug eiriau lle bo'n briodol), sillafu, a rhuglder lle bo'n berthnasol. Rheolau penderfynu clir: ynghylch beth sy'n dangos bod y dysgu wedi'i feistroli, pryd i addysgu eto, pryd i gynyddu adolygu, a phryd i ddarparu cymorth ychwanegol.		
CYMORTH A CHYNHWYSIANT		
Arweiniad ymarferol ar gyfer dysgwyr sydd angen mwy o gymorth: gan gynnwys darnau llai, mwy o adolygu, mwy o ymarfer dan arweiniad ac ailwirio wedi'i strwythuro. Cymorth ymarferol ar gyfer cyflwyno: deunyddiau hyfforddi, gwersi enghreifftiol, camsyniadau cyffredin, offer hyfforddi, rhestrau adnoddau ac arweiniad realistig ar amser.		

BETH I CHWILIO AMDANO	NODIADAU	Y / R / N
TYSTIOLAETH A THRYLOYWDER		
Mae honiadau effaith yn nodi cymhariaeth: o'i gymharu â beth, ar gyfer pwy, ac o dan ba amodau.		
Mesurwyd canlyniadau gan ddefnyddio profion annibynnol, safonedig neu rai wedi'u dilysu'n dda, nid asesiadau'r rhaglen ei hun yn unig.		
Mae'r dystiolaeth yn dryloyw ynghylch pwy a astudiwyd: cyfranogwyr, hyd, dos, hyfforddiant, cywirdeb, ac amodau cyflwyno.		
Mae rheswm i ddisgwyl y bydd y canfyddiadau yn trosglwyddo: ailadrodd ar draws lleoliadau, neu resymeg glir, a sylw i addasrwydd ar gyfer cyd-destun Cymru (iaith addysgu ac asesu).		
Mae'r ysgol yn gwybod ble mae'r rhaglen ar ei thaith tuag at dystiolaeth, ac yn ofalus wrth ymdrin â honiadau cyfnod cynnar.		
Mae dyluniad yr astudiaeth yn cefnogi'r honiad: grwpiau cymharu ar hap neu wedi'u paru'n dda, ychydig sydd wedi gadael, a dadansoddiad sy'n cyfateb i sut y cafodd dysgwyr eu grwpio (er enghraifft, yn ôl dosbarth neu ysgol).		
Nid yw enillion cyn-ac-ar-ôl yn unig yn cael eu trin fel tystiolaeth o effaith (heb grŵp cymharu, ni all gwelliant ddangos mai'r rhaglen a'i hachosodd).		
HYFFORDDIANT A CHYWIRDEB CYFLWYNO		
Mae staff yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant a argymhellir, at yr hyfforddiant gloywi, ac mae modd sefydlu staff newydd.		
Gall yr ysgol ei ddarparu fel y cafodd ei chynllunio: cadw at y cynllun, dos, ansawdd y ddarpariaeth a chysondeb dros amser, gyda hyfforddi neu arsylwi lle bo'n briodol.		
Ystyried yn benodol eiriau eithriad cyffredin gan dynnu sylw at y rhannau y gellir eu dadgodio.		
Rhugledd a ddatblygir trwy ddarllen yn gywir ar goedd, gyda modelu ac adborth, gan symud o eiriau i destun cysylltiol.		
Tu hwnt i'r cod cynnar (os caiff ei ddefnyddio wedi diwedd y cyfnod cynradd cynnar).		
Dilyniant clir i eiriau amlsillafog, morffoleg a chonfensiynau sillafu.		

Rhestr gyfeirio

Cepeda, N. J., Pashler, H., Vul, E., Wixted, J. T., & Rohrer, D. (2006). Distributedpractice in verbal recall tasks: A review and quantitative synthesis. Psychological Bulletin, 132(3), 354–380. https://doi.org/10.1037/0033-2909.132.3.354

Ehri, L. C., Nunes, S. R., Stahl, S. A., & Willows, D. M. (2001). Systematic phonicsinstruction helps students learn to read: Evidence from the National Reading Panel's meta-analysis. Review of Educational Research, 71(3), 393–447. https://doi.org/10.3102/00346543071003393

Gough, P. B., & Tunmer, W. E. (1986). Decoding, reading, and reading disability. Remedial and Special Education, 7(1), 6–10. https://doi.org/10.1177/074193258600700104

International Dyslexia Association. (2020). Structured literacy: Effectiveinstruction for students with dyslexia and related reading difficulties [Factsheet]. https://dyslexiaida.org/structured-literacy-effective-instruction-for-students-with-dyslexia-and-related-reading-difficulties/

Lithgow, A., Kohnen, S., Barr, P., Robidoux, S., & Colenbrander, D. (2026). Teaching irregular words: A comparison of mispronunciation correction and heart-word methods. Scientific Studies of Reading, 30(5), 485–509. https://doi.org/10.1080/10888438.2026.2671171

Llywodraeth Cymru. (2026). Cynllun llythrennedd a rhifedd sylfaenol https://www.gov.wales/foundational-literacy-and-numeracy-plan

Murphy Odo, D. (2024). The use of decodable texts in the teaching of reading in children without reading disabilities: A meta-analysis. Literacy, 58(3), 267–277. https://doi.org/10.1111/lit.12368

National Reading Panel. (2000). Teaching children to read: An evidence-based assessment of the scientific research literature on reading and its implications for reading instruction: Reports of the subgroups (NIH Publication No. 00-4754). National Institute of Child Health and Human Development. https://www.nichd.nih.gov/publications/product/247

Panel Arbenigol Llythrennedd (2026). Egwyddorion addysgu iaith a llythrennedd yng Nghymru. Llywodraeth Cymru. https://www.gov.wales/principles-teaching-language-and-literacy-wales

Price-Mohr, R. M., & Price, C. B. (2018). Synthetic phonics and decodable instructional reading texts: How far do these support poor readers? Dyslexia, 24(2), 190–196. https://doi.org/10.1002/dys.1581

Scarborough, H. S. (2001). Connecting early language and literacy to later reading (dis)abilities: Evidence, theory, and practice. In S. B. Neuman & D. K. Dickinson (Eds.), Handbook of early literacy research (Vol. 1, pp. 97–110). Guilford Press. https://www.guilford.com/books/Handbook-of-Early-Literacy-Research-Volume-1/Neuman-Dickinson/9781572308954/contents

Sharples, J., Eaton, J., & Boughelaf, J. (2024). A school's guide to implementation (3rd ed.). Education Endowment Foundation. https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/guidance-reports/implementation

Vousden, J. I., Ellefson, M. R., Solity, J., & Chater, N. (2011). Simplifying reading: Applying the simplicity principle to reading. Cognitive Science, 35(1), 34–78. https://doi.org/10.1111/j.1551-6709.2010.01134.x

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Dysgu
Grymuso Addysgwyr | Empowering Educators

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales